Crynodeb o Asesiad er lesiant lleol Wrecsam

Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Wrecsam

Rhagfyr 2016
Drafft Ymgynghori

Crynodeb o asesiad er lesiant lleol (Tachwedd 2016) Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Wrecsam

Cynnwys

4 Cyflwyniad
4 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015
5 Saith nod er llesiant Cymru
6 Ymgynghori ac Ymgysylltu

9 Demograffeg Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam

13 Llesiant gydol bywyd

15 Nod llesiant 1 – Llewyrchus

15 1 Thema Allweddol Llewyrchus 1 – Cyflawniad yn yr ysgol a datblygiad cymdeithasol ehangach / sgiliau cyflogadwyedd / sgiliau bywyd
17 2 Mynd i'r afael â thlodi ac amddifadedd
19 3 Gwella sgiliau ar gyfer cyflogaeth
21 4 Cyfleoedd cyflogaeth lleol
23 5 Cefnogi busnesau bach
24 6 Sector cyflogaeth allweddol – iechyd a gofal cymdeithasol
25 7 Ased Economaidd Allweddol – Ystad Ddiwydiannol Wrecsam
26 8 Ased Economaidd Allweddol – Carchar Ei Mawrhydi Berwyn
26 9 Ased Allweddol – Prifysgol Glyndŵr Wrecsam
27 10 Canol tref Wrecsam

30 Nod Llesiant 2 – Gwydn

30 1 Gwarchod yr amgylchedd naturiol a bioamrywiaeth gan greu gwydnwch
32 2 Newid yn yr hinsawdd a lleihau allyriadau carbon
33 3 Gwarchod rhag llifogydd
34 4 Cefnogi'r economi wledig

36 Nod Llesiant 3 – Iachach

36 1 Rhoi'r dechrau gorau i bob plentyn
38 2 Pobl yn gwneud dewisiadau ffordd o fyw iach
40 3 Mynd i'r afael â gordewdra (yn cynnwys gordewdra mewn plentyndod)
41 4 Cefnogi'r rhai ag iechyd meddwl gwael
43 5 Pobl yn byw mewn arunigedd a'u mynediad nhw i wasanaethau
45 6 Cynnydd yn nifer y bobl sy'n byw â demensia
46 7 Cefnogi gofalwyr
48 8 Disgwyliad oes iach i bawb
50 9 Pwysau cynyddol ar y Gwasanaeth Iechyd
21 10 Bygythiadau i iechyd a lles



53 Nod Llesiant 4 – Mwy cydradd

53 1 Magwraeth mewn amddifadedd
55 2 Gallu cefnogi'r rhai sy'n wynebu angen cartref
58 3 Mynd i'r afael â thlodi tanwydd

60 Nod lles 5 – Cymunedau Cydlynol

60 1 Cludiant a diogelwch ar y ffyrdd
62 2 Twf technoleg newydd (gan gynnwys mynediad i'r rhyngrwyd a heriau cymdeithasol megis seiberfwlio)
65 3 Tai a'r ddibyniaeth gynyddol ar rentu yn y sector preifat
67 4 Mynd i'r afael â cham-drin domestig
70 5 Effaith cam-drin cyffuriau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol
71 6 Integreddio CEM Berwyn
72 7 Gwirfoddoli
74 8 Ysbryd cymunedol, grymuso ac ymdeimlad o falchder
76 9 Gwneud Wrecsam yn ddeniadol

78 Nod lles 6 – Diwylliant bywiog a'r iaith Gymraeg yn ffynnu

78 1 Hyrwyddo'r Iaith Gymraeg
80 2 Cefnogi twristiaeth
82 3 Diwylliant sy'n ffynnu

85 Nod lles 7 – Yn gyfrifol yn fyd-eang

85 1 Hyrwyddo ailgylchu a lleihau gwastraff
86 2 Ynni tai a chludiant ac allyriadau carbon mewn cludiant a tai

89 Beth mae'r gymuned yn ei feddwl o wasanaethan cyhoeddus

92 Beth rydym yn ei wybod neu'n rhagweld ar gyfer y dyfodol

93 Atodiad Un – Ffyhonell Data



Llewyrchus (1)	Gwydn (2)	Iachach (3)	Mwy cydradd (4)	Cymunedau Cydlynol (5)	Diwylliant (6)	Byd-eang (7)

DRAFT

1 Cyflwyniad

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Cefndir l'r Asesiad

1.1 Mae Cymru'n wynebu nifer o heriau nawr ac yn y dyfodol, fel y newid yn yr hinsawdd, tlodi, anghyfartaleddau iechyd, swyddi a thwf. Er mwyn mynd i'r afael â'r rhain, mae angen i ni weithio gyda'n gilydd. Er mwyn sicrhau ansawdd bywyd da i genedlaethau'r presennol a'r dyfodol, mae angen i ni feddwl am sut y bydd y penderfyniadau a wnawn yn awr yn effeithio arnynt.

1.2 Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn rhoi pwrpas cyffredin sy'n rhwymo mewn cyfraith – y saith nod er llesiant – ar gyfer llywodraeth genedlaethol, llywodraeth leol, byrddau iechyd lleol a chyrff cyhoeddus penodol eraill. Mae'n dynodi'r ffyrdd y mae'n rhaid i gyrff cyhoeddus weithio a chydweithio, i wella lles Cymru.

1.3 Mae'r Ddeddf yn datgan bod rhaid cynhyrchu Asesiad er Llesiant Lleol i gefnogi'r cyrff cyhoeddus hyn i bennu amcanion llesiant ac i gynhyrchu cynlluniau i wella lles y bobl sy'n byw yn eu hardal. Rhan gyntaf y gwaith o gynhyrchu'r Asesiad er Llesiant lleol yw'r adroddiad hwn.

Sut mae'r Asesiad hwn wedi ei gynhyrchu?

1.4 Byddai disgrifio pob agwedd ar lesiant yn dasg anferthol, felly nod yr Asesiad hwn yw darparu amlinelliad yn unig o'r materion mwyaf strategol sy'n effeithio ar Fwrdeistref Sirol Wrecsam. Wrth gynhyrchu'r Asesiad, rydym wedi ymgysylltu â phobl. Nid yw'r daith wedi dechrau gyda syniadau rhagdybiedig na dadansoddiad o ddata haniaethol, ond gyda gwaith ymgysylltu helaeth gyda chymunedau lleol a'r staff sy'n gweithio i'r cyrff cyhoeddus amrywiol. Anogwyd pobl i siarad am y cryfderau a'r gwendidau o fyw yn Wrecsam neu o ddarparu gwasanaethau cyhoeddus i'w phobl.

1.5 Rydym wedi astudio'r data a phapurau ymchwil ategol sydd ar gael i weld a oes tystiolaeth gadarn i gefnogi'r canfyddiadau a theimladau ac rydym wedi casglu data (lle bo ar gael) i olrhain cynnydd dros gyfnod ac i ystyried pa olwg fydd ar y dyfodol os bydd tueddiadau presennol yn parhau. Gweler Atodiad 1 am restr o ffynhonellau.

1.6 Rydym wedi grwpio ein canfyddiadau dan bob un o'r saith nod er llesiant – er bod llawer o'r pynciau'n gorgyffwrdd ac yn gweddu i fwy nag un nod er llesiant, rydym wedi ceisio eu priodoli i'r nod mwyaf perthnasol.

1.7 Bydd yr PSB defnyddio'r asesiad i ddatblygu 'Cynllun Lles Wrecsam' newydd, a fydd yn nodi sut y bydd pawb yn gweithio gyda'i gilydd i gyflawni lles ar gyfer pobl a chymunedau yn y Fwrdeistref Sirol. Fodd bynnag, yn gyntaf bydd angen i'r PSB i

wneud yn siŵr fod yr asesiad wedi nodi cryfderau a gwendidau Wrecsam a canolbwyntio ar y materion a'r heriau y mae pobl leol wir yn poeni am. Felly y cam nesaf yw cynnal ymgynghoriad gyda'r holl randdeiliaid i wirio yr asesiad lles yn iawn. Gan gymryd i ystyriaeth yr adborth hwn gall y PSB yna datblygu rhestr o flaenoriaethau ar gyfer Wrecsam i ymgynghori ymhellach ar, cyn datblygu'r 'Cynllun Lles Wrecsam' newydd i nodi sut i'w gwella.

Saith nod er llesiant Cymru

1.8 Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn amlinellu saith nod er llesiant sydd angen eu hystyried wrth lunio amcanion lleol. Ceir isod ddisgrifiad o bob nod er llesiant a'r materion a nodwyd yn y thema honno. Mae pob mater a nodwyd yn y dadansoddiad anghenion hwn yn gorgyffwrdd ac yn effeithio ar fwy nag un o'r nodau er llesiant hyn.

Llewyrchus (1)	**Cymdeithas arloesol, gynhyrchiol, carbon isel sy'n cydnabod y terfynau sydd ar yr amgylchedd byd-eang ac sydd, o ganlyniad, yn defnyddio adnoddau mewn modd effeithlon a chymesur (gan gynnwys gweithredu ar newid yn yr hinsawdd); ac sy'n datblygu poblogaeth fedrus ac addysgedig mewn economi sy'n cynhyrchu cyfoeth ac sy'n cynnig cyfleoedd cyflogaeth, gan ganiatáu i bobl fanteisio ar y cyfoeth a gynhyrchir drwy gael gafael ar waith addas.**
Cydnerth(2)	**Cenedl sy'n cynnal ac yn gwella amgylchedd naturiol bioamrywiol gydag ecosystemau iach gweithredol sy'n cynnal cydnerthedd cymdeithasol, economaidd ac ecolegol ynghyd â'r gallu i addasu i newid (er enghraifft newid yn yr hinsawdd).**
Iachus(3)	**Cymdeithas lle mae llesiant corfforol a meddyliol pobl cystal â phosibl a lle deellir dewisiadau ac ymddygiadau sydd o fudd i iechyd yn y dyfodol.**
Mwy cyfartal (4)	**Cymdeithas sy'n galluogi pobl i gyflawni eu potensial, waeth beth fo'u cefndir neu eu hamgylchiadau (gan gynnwys eu cefndir a'u hamgylchiadau cymdeithasol-economaidd).**
Cymunedau Cydlynus (5)	**Cymunedau atyniadol, hyfyw a diogel sydd â chysylltiadau da.**
Diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu (6)	**Cymdeithas sy'n hyrwyddo ac yn gwarchod diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg ac sy'n annog pobl i gyfranogi yn y celfyddydau, a chwaraeon a gweithgareddau hamdden.**
Yn gyfrifol yn fyd-eang (7)	**Cenedl sydd, wrth iddi wneud unrhyw beth i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, yn ystyried a allai gwneud peth o'r fath gyfrannu'n gadarnhaol at lesiant byd-eang.**

Ymgynghori ac Ymgysylltu

1.9 Y nod ar ddechrau'r asesiad oedd ymgysylltu â phobl. Anogwyd gweithwyr sy'n gweithio yn y sector cyhoeddus, y cyhoedd, grwpiau cymunedol a busnesau lleol i adrodd am eu profiadau wrth ymweld, byw neu weithio yn Wrecsam. Gofynnwyd iddynt i ystyried nid yn unig y nodweddion negyddol - y gwendidau hynny y dylem gydweithio i fynd i'r afael â nhw, ond hefyd y nodweddioncadarnhaol, asedau a'r cryfderau sydd gan yr ardal hon i'w chynnig.

1.10 Cynhaliwyd yr ymgynghoriad fel a ganlyn:

- Ymgynghoriad un cwestiwn, arolwg a digwyddiadau yn y farchnad yn dwyn y teitl 'Y Wrecsam a Garem' yn ystod Hydref a Thachwedd 2016
- Arolwg i'w weithrdu gan y Cyngor a digwyddiadau yn dwyn y teitl 'Beth sy'n bwysig i chi' yn ystod Ionawr 2016
- Arolwg Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr 'Byw'n Iach aros yn Iach' yn gynnar yn 2016
- Ymgysylltu â grwpiau sy'n anodd eu cyrraedd, gan gynnwys: Grŵp Anabledd Corfforol, Grŵp Gofalwyr, Y Gymdeithas Alzheimer's, BAWSO, Rhwydwaith Cydraddoldeb Hiliol Gogledd Cymru, Grŵp Cymorth Nam ar y Golwg, Grŵp Pobl Lesbaidd, Hoyw, Ddeurywiol a Thrawsrywiol a Cymdeithas y Byddar.
- Mae'r gwaith ymgysylltu o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn cynnwys ymatebion gan ragor na 110 o sefydliadau trydydd sector a gweithdai gyda staff Gofal Cymdeithasol ac Iechyd ledled Gogledd Cymru
- Cafodd cynrychiolwyr o'r holl sefydliadau partner a restrwyd, fel rhan o'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus gyfle i gyfrannu at yr asesiad hwn. Maent yn cynnwys:
    - Heddlu Gogledd Cymru
    - Y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol
    - Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
    - Cyfoeth Naturiol Cymru
    - Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddoli Wrecsam (AVOW)
    - Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
    - Iechyd Cyhoeddus Cymru
    - Llywodraeth Cymru
    - Coleg Cambria
    - Prifysgol Glyndŵr Wrecsam

Ymgynghoriad y Wrecsam a Garem ar y saith nod er llesiant

1.11 Gofynnwyd i ymatebwyr raddio pa mor gryf y maent yn cytuno fod Wrecsam yn le sy'n adlewyrchu pob un o'r saith nod er llesiant a gyflwynir yn y Ddeddf. Gofynnwyd iddynt sgorio pob nod ar raddfa o 1 i 10, gydag 1 yn golygu anghytuno'n gryf, a10 yn golygu cytuno'n gryf. Nodwch fod nod 6, 'diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu' wedi ei rannu'n ddau er diben yr arolwg hwn, er mwyn i ymatebwyr allu sgorio elfennau gwahanol y nod hwn ar wahân.

1.12 Fel y gwelir isod, dengys y canlyniadau fod ymatebwyr o'r farn fod gan Wrecsam ffordd bell i fynd o hyd i gyflawni pob un o'r saith nod er llesiant. Canfuwyd mai Wrecsam sy'n 'Gyfrifol yn Fyd-eang' sydd bellaf at gyrraedd y nod (sgôr o 3.89). Yn dilyn, fe ddaw 'Yn Le Ffyniannus' (sgôr o 4.09) a bod 'Yn Le mwy Iachus' (hefyd

4.09). Ystyriwyd mai ‘Lle gyda Diwylliant Bywiog’ (sgôr o 5.35) yw’r nod sydd agosaf at ei gyflawni gyda ‘Lle Cydnerth’ (sgôr o 5.17) yn dilyn. Fodd bynnag, sgoriau ‘cytuno ar raddfa fechan’ roddwyd o hyd i’r nodau hyn yn gyffredinol.

Pa mor gryf yr ydych yn cytuno fod Wrecsam yn lle sy’n...



Crynodeb o Ddyheadau at y dyfodol

1.13 Cynerodd dros 900 o bobl ran yn yr ymghynghoriad a dadansoddwyd yr adborth a gasglwyd o’r cwestiwn arolwg unigol, arolwg manwl a stondinau marchnad i grynhoi prif ddyheadau pobl Wrecsam at y dyfodol.

1.14 Yn gyffredinol, nodwyd 44 o themâu’n ymwneud â dyheadau pobl Wrecsam at y dyfodol. Mae’r tabl isod yn amlygu’r dyheadau at y dyfodol a ddaeth i’r brig yn Wrecsam yn gyffredinol, oherwydd dyma’r prif flaenoriaethau a enwyd gan nifer fwyaf yr ymatebwyr.

1.15 Mae prif ddyheadau grwpiau rhanddeiliaid penodol, a phobl a chanddynt nodweddion penodol wedi’u gwarchod a nodwyd drwy’r gweithdai a’r grwpiau ffocws, hefyd wedi’u bwydo i’r dadansoddiad manwl i ddynodi’r dyhead sydd angen blaenoriaeth uchel.

Thema'r Dyhead	Disgrifiad cryno	Sawl gwaith y nodwyd
1. Canol tref ffyniannus	Adfywio canol y dref, lleihau siopau gwag, mwy o amrywiaeth o siopau, gwella cynllun a chael economi gymysg	218
2. Mynd i'r afael ag ymddygiad gwrth gymdeithasol a'i leihau	Gan gynnwys, diod, cyffuriau, begera a digartrefedd	91
3. Gwrando ar farn y cyhoedd a gweithredu arni	Gwrando ar anghenion a gofynion pobl leol, ystyried buddiannau'r holl Gyngor Bwrdeistref, gwella ymddygiad/newid Cynghorwyr, gwleidyddion a strwythurau/prosesau gwleidyddol	77
4. Gwneud Wrecsam yn ddeniadol	Gwella golwg a glendid	62
5. Mwy o bethau i'w gwneud	Gweithgareddau / digwyddiadau / gwyliau / Gweithgareddau diwylliannol – yn arbennig i blant a phobl ifanc	47
6. Annog ysbryd cymunedol ac ennyn balchder	Annog ysbryd cymunedol, grymuso ac ennyn balchder	41
7. Gwella trafnidiaeth gyhoeddus	Gwella trafnidiaeth gyhoeddus - hygyrchedd, ar gael a chysylltiadau yn fewnol ac yn allanol yn Wrecsam	41

2 Demograffeg Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam

Grŵp Cydraddoldeb	Disgrifiad	Wrecsam		Cymru	Cyfeirnod y boblogaeth	Ffynhonnell a dyddiad
		Nifer	%			
Ethnigrwydd	Gwyn Prydeinig	125,477	93.1%	93.2%	Yr holl bobl	Cyfrifiad 2011
	Gwyn arall	5,170	3.8%	2.4%		
	Grwpiau ethnig cymysg	1,010	0.7%	1.0%		
	Grŵp ethnig arall	3,187	2.4%	3.4%		
Hunaniaeth Genedlaethol	Ganwyd yng Nghymru	93,366	69.2%	72.7%	Yr holl bobl	Cyfrifiad 2011
	Ganwyd yng ngweddill y DU	33,010	24.5%	21.9%		
	Ganwyd y tu allan i'r DU	8,468	6.3%	5.5%		
	Hunaniaeth Gymreig / / Seisnig / Albanaidd / Wyddelig Gogledd Iwerddon / Prydeinig yn unig	127,747	94.7%	96.1%		
	Hunaniaeth gymysg - Gymreig / Seisnig / Albanaidd / Wyddelig Gogledd Iwerddon / Prydeinig ac eraill	482	0.4%	0.4%		
	Hunaniaeth genedlaethol arall yn unig	6,615	4.9%	3.4%		
	Pawb o hunaniaeth Gymreig	81,310	60.3%	65.9%		
Oed	0-15	26,364	19.3%	17.9%	Yr holl bobl	Amcangyfrifon canol blwyddyn, Y Swyddfa Ystadegau Cenedlaethol 2015
	16-24	13,945	10.2%	11.8%		
	25-44	34,761	25.4%	23.8%		
	45-64	35,838	26.2%	26.3%		
	65+	25,739	18.8%	20.2%		
	85+	3,114	2.3%	2.6%		

Grŵp cyfartaledd	Disgrifiad	Wrecsam		Cymru	Cyfeirnod Poblogaeth	Ffynhonnell a dyddiad
		Nifer	%			
Rhyw	Dynion	68,113	49.8 %	49.2 %	Yr holl bobl	
	Merched	68,534	50.2 %	50.8 %		
Anabledd	Salwch cyfyngus hirdymor	27,905	20.7 %	23.7 %	Yr holl bobl	Cyfrifiad 2011
	Salwch sy'n cyfyngu ar allu pobl i weithio	21,300	25.2 %	22.8 %	Oed gweithio	Arolwg Poblogaeth Flynyddol 2015/16
Crefydd / credo	Cristion	85,576	63.5 %	57.6 %	Yr holl bobl	Cyfrifiad 2011
	Dim crefydd	36,927	27.4 %	32.1 %		
	Crefydd arall	2,170	1.6 %	2.7 %		
	Dim ymateb	10,171	7.5 %	7.6 %		
Cyfeiriadedd rhywiol	Heterorywiol			95.0 %	Yr holl bobl 16+	Arolwg Poblogaeth Flynyddol 2015
	Hoyw neu lesbaidd			1.0 %		
	Deurywiol			0.6 %		
	Arall			0.5 %		
Yr iaith Gymraeg	Siaradwyr Cymraeg	16,659	12.9 %	19.0 %	Yr holl bobl 3+	Cyfrifiad 2011
	Dim gwybodaeth am y Gymraeg	101,886	78.7 %	73.3 %		
	Siaradwyr Cymraeg	37,500	27.7 %	27.3%	Yr holl bobl 3+	Arolwg Poblogaeth Flynyddol 2015/16

Nodweddion y boblogaeth yn Wrecsam

2.1 Ethnigrwydd - Yn ôl Cyfrifiad 2011 roedd 93.1% o'r boblogaeth yn Wrecsam yn perthyn i'r grŵp ethnig gwyn Prydeinig - yn 2001 roedd canran y grŵp hwn yn 96.0% o'r boblogaeth. Y grŵp ethnig 'gwyn arall' oedd 3.8% o'r boblogaeth o'i gymharu â 1.5% yn 2001. Pobl o ethnigrwydd cymysg sydd i'w gyfrif am 0.7% o'r boblogaeth yn 2011 o'i gymharu â 0.4% yn 2001. Roedd yr holl bobl ethnig eraill yn 2.4% o'r boblogaeth.

2.2 Hunaniaeth Genedlaethol – Roedd tua 94.7% o bobl yn Wrecsam yn nodi bod ganddynt hunaniaeth genedlaethol oedd yn llwyr berthyn i wledydd y DU (Cymreig / Seisnig / Albanaidd / Gwyddelig o Ogledd Iwerddon/ Prydeinig) yn ôl Cyfrifiad 2011. Nid oes data hanesyddol yn cymharu i weld sut mae hyn wedi newid dros amser. Fodd bynnag, yn 2001 roedd 2.5% o boblogaeth breswyl Wrecsam wedi'u geni y tu allan i'r DU, o'i gymharu â 6.3% yn 2011.

2.3 Oed – mae strwythur oed Wrecsam yn debyg i gyfartaledd y DU.

2.4 Cenedl - Mae mwy o ferched na dynion yn y boblogaeth, yn bennaf oherwydd y ffaith fod merched yn byw'n hwy na dynion. Mae cymhareb bechgyn: merched y plant yn Wrecsam yn 100:94. Nid yw'r gymhareb hon yn gyfartal, am fod mwy o fechgyn yn cael eu geni na merched. Mae cymhareb dynion: merched y grŵp oedran sy'n gweithio yn 100:99, sy'n ychydig is na'r gymhareb ar gyfer Cymru gyfan a'r DU (100:101). Mae cymhareb dynion:merched y grŵp oedran 65+ yn 100:114. Mae hyn yn is na'r ffigwr ar gyfer Cymru gyfan sef 100:119 (Cymhareb y DU yw 100:121).

2.5 Anabledd– Mae nifer y bobl sy'n byw gyda salwch cyfyngus hirdymor wedi cynyddu o 27,550 yn 2001 i 27,900 yn 2011. Mae'r bobl sy'n byw gyda salwch cyfyngus hirdymor i'w cyfri am 20.7% o'r boblogaeth, o'i gymharu â ffigwr Cymru sy'n 23.7%. Rhagwelir y bydd nifer y bobl sy'n byw gyda salwch cyfyngus hir dymor yn Wrecsam yn codi tua 5,700 rhwng 2015 a 2035.

2.6 Crefydd - Er gwaethaf niferoedd sy'n disgyn ers 2001, Cristnogaeth yw'r grefydd fwyaf niferus o hyd gyda 63.5% o'r boblogaeth yn nodi eu bod yn Gristnogion yn 2011. Rhwng 2001 a 2011 bu gostyngiad yng nghyfran y bobl sy'n nodi eu bod yn Gristnogion a chynnydd yn y bobl sy'n dweud nad oes ganddynt grefydd. Yn 2011 Mwslemiaid oedd y grŵp crefydd fwyaf arall sef 0.6% o'r boblogaeth.

2.7 Cyfeiriadedd Rhywiol - Nid oes data dibynadwy am faint y boblogaeth hoyw, lesbaidd neu ddeurywiol sydd yn y DU. Mae amcangyfrifon o ffynonellau yn amrywio rhwng 0.3% i 10% - mae'r Adran Masnach a Diwydiant yn rhoi amcangyfrif swyddogol bod 5-7% o boblogaeth Prydain yn hoyw, lesbaidd neu'n ddeurywiol.

2.8 Y Gymraeg – Mae Cyfrifiad 2011 yn amcangyfrif bod 16,659 o bobl 3 oed neu hŷn yn gallu siarad Cymraeg yn Wrecsam – dyma 12.9% o'r boblogaeth. Mae 19% o boblogaeth Cymru gyfan yn gallu siarad Cymraeg.

<u>Gwybodaeth ddemograffig arall</u>

2.9 Disgwyliad oes - mae hwn yn is yn Wrecsam na ffigurau Cymru a Lloegr ar gyfer dynion a merched, adeg geni ac yn 65 oed. Mae'r gwahaniaeth yn fwyaf amlwg o ran merched, yn enwedig adeg genedigaeth pan fo bwlch y disgwyliad oes rhwng Wrecsam a Chymru a Lloegr yn 1.3 o flynyddoedd. Mae yna fwlch disgwyliad rhwng dynion a merched o tua 3.3 blwydd adeg geni, er bod y bwlch hwn yn culhau i 1.9 o flynyddoedd, yn 65 oed.

2.10 Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (2014) - mae hwn yn mesur amddifadedd cymharol ar draws amrywiaeth o barthau (incwm; cyflogaeth; iechyd; addysg; cael gafael ar wasanaethau; diogelwch yn y gymuned; amgylchedd ffisegol; tai) yn Ardal

Gynnyrch Ehangach Haen Is (LSOA) Cymru gyfan. Dywedir bod ardal yn lluosog o amddifadedd os yw'n cynnwys crynhoad o bobl sy'n profi'r math hwnnw o amddifadedd yn un neu fwy o'r parthau hyn.

LSOAau ymysg y 10% mwyaf amddifad ar gyfer y mynegai yn gyffredinol
Ffynhonnell: Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru

Wrecsam	
W01000413	Queensway 1
W01000425	Wynnstay
W01000409	Plas Madog
W01000414	Queensway 2
W01000353	Cartrefle 2

2.11 Disgynnodd incwm aelwyd gyfartalog blynyddol (canolrifol) tua £1,100 rhwng 2011 a 2015 o £26,300 i £25,200. Disgynnodd incwm aelwydydd hefyd yng Nghymru a Phrydain rhwng 2011 a 2015 (-£900 ar gyfer Cymru a -£300 ar gyfer y DU). Yn ystod yr un cyfnod, gwaethygodd sefyllfa pobl sy'n byw ar aelwydydd yn yr ardaloedd ag incwm isel.

2.12 Plant sy'n byw ar aelwydydd ar incwm isel – rhwng 2009 a 2014 cynyddodd nifer y plant sy'n byw ar aelwydydd ar incwm isel o 145 – i tua 6,000.

2.13 Tai – mae tua 59,850 o breswylfeydd yn Wrecsam i gartrefu poblogaeth o 136,650. Yn y flwyddyn yn diweddu Mawrth 2016 dim ond 199 o gartrefi newydd a adeiladwyd yn yr ardal, er gwaethaf rhagamcanion Llywodraeth Cymru yn 2011 sy'n rhagweld bod angen adeiladu rhwng 650-700 o dai blwyddyn er mwyn diwallu'r twf yn y boblogaeth. Mae hyn yn awgrymu bod nifer y tai newydd sy'n cael eu codi'n hynod o annigonol, ac mae hyn i'w gyfrif yn rhannol oherwydd bod y diwydiant adeiladu wedi crebachu ers y dirywiad economaidd byd-eang yn 2008.

3.Llesiant gydol bywyd

Plentyndod

3.1 Mae rhoi cychwyn cadarn i blant, eu gwarchod ac atal Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod (ACE) cymaint â phosibl, yn rhan allweddol o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.
Gall Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod yn benodol niweidio cyfleoedd plentyn i fyw bywyd da. Gall cychwyn anodd effeithio ar iechyd corfforol a meddyliol, gwytnwch a lles. Yn ei dro, bydd hyn yn effeithio ar gyrhaeddiad addysgol, cyflogadwyedd a'r peryglon o fod yn rhan o'r system cyfiawnder troseddol. Bydd yn effeithio ar ddefnyddio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol ac yn achosi perygl o fod yn rhieni ifanc a pharhau'r cylch rhwng y cenedlaethau o fyw bywyd dan anfantais.

3.2 Yn ogystal ag iechyd corfforol, mae gwahaniaethau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol yn cael effaith ehangach ar gyfleon bywyd rhieni, plant a theuluoedd. Mae'r rhain yn cynnwys safon tai, cael gafael ar wasanaethau, incwm y teulu / tlodi / amddifadedd ac ymddygiadau teuluol fel dilyn trefn, cael rhywun i ddarllen i blentyn ac iechyd meddwl aelodau'r teulu a'u hunain.

3.3 Ystyrir bod 1,000 diwrnod cyntaf bywyd plentyn (o genhedliad i ail ben-blwydd plentyn) yn arbennig o bwysig am fod y cyfnod datblygu hwn yn gallu effeithio'n sylweddol ar ddeilliannau plant gydol cwrs bywyd ac o genhedlaeth i genhedlaeth. Ceir tystiolaeth gref o bwysigrwydd 1,000 ddiwrnod cyntaf bywyd plentyn; gall mynd i'r afael ag anghydraddoldebau ac ymyrryd yn gynnar i atal problemau iechyd helpu pobl i wneud y dewisiadau gorau drostynt eu hunain a thros eu plant yn y dyfodol.

3.4 Dengys ymchwil gan Iechyd Cyhoeddus Cymru'r llwyddiannau iechyd a chymdeithasol posibl os yw profiadau plant yn ystod eu plentyndod yn cael eu gwella. O ran y boblogaeth, pe na bai Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod (ACE), gallai llai na 125,000 o bobl fod yn smygu ledled Cymru a byddai llai na 55,000 yn llai o bobl sydd erioed wedi defnyddio heroin a chrac cocên. Mae hyn yn gost-effeithiol; dengys y dystiolaeth y bydd rhagor na £100 a fuddsoddir yn atal ACEau yn arwain at ragor na £6000 o arbedion o'i fesur ar draws pob gwasanaeth cyhoeddus dros y pum mlynedd nesaf.

3.5 Mae sawl ffordd y gellir atal Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod neu o leihau eu heffaith, gan gynnwys codi ymwybyddiaeth am eu pwysigrwydd, darparu gwasanaethau proffidiol, rhoi cefnogaeth i bob teulu a chael gafael dibynadwy ar gymorth ychwanegol i'r bobl sydd eu hangen fwyaf. Mae'r buddion o'r gwaith hwn yn cyfeirio at werth buddsoddi ar y cyd a chreu partneriaethau rhwng y GIG, awdurdodau lleol a gwasanaethau eraill ac asiantaethau er mwyn atal Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod yn y dyfodol yn effeithiol.

Pwysau wedi ymddeoliad

3.6 Rhagwelir y bydd nifer y bobl hŷn yn y wlad yn cynyddu'n sylweddol dros yr 20 mlynedd nesaf o ganlyniad i gynnydd mewn disgwyliad oes, a'r cynnydd yn nifer y babanod a anwyd ar ddiwedd y 1950au/a dechrau'r 1960au sydd ar drothwy bod yn rhan o'r grwpiau oed ymddeol, ochr yn ochr â'r bobl a aned yn y cyfnod wedi'r Ail

Ryfel Byd. Bydd yna gynnydd mawr yn arbennig yn nifer y bobl 85 mlwydd oed a hŷn, wrth i bobl gychwyn symud i'r grŵp oedran hwnnw.

3.7 Erbyn 2039 bydd 24.5% o'r boblogaeth yn bobl 65 mlwydd oed a hŷn a 5.7% o'r boblogaeth yn bobl 85 mlwydd oed a hŷn. Er, dylai effaith cenedlaethau'r bobl a anwyd wedi'r Ail Ryfel Byd ar boblogaethau ddechrau edwino o ganol y 2040au ymlaen.

3.8 Mae llawer o'r costau yn sgil henaint wedi codi oherwydd mae twf mewn disgwyliad oes wedi curo twf mewn disgwyliad oes iachus (h.y. nifer y blynyddoedd y gallwn ddisgwyl byw bywyd iachus). Gallai polisïau sy'n gwella iechyd gofal ataliol a helpu pobl i barhau'n weithgar ac iach yn hwyrach yn eu bywydau, helpu i gynyddu cyfran yr amser a dreulir mewn iechyd da a lleihau costau. Byddai poblogaeth hŷn fwy iachus hefyd yn galluogi mwy o bobl i barhau yn y farchnad lafur am gyfnod hwy. Byddai hyn yn lliniaru effaith poblogaeth sy'n heneiddio ar y gymhareb ddibyniaeth.

3.9 Mae rhaglen Heneiddio'n Dda yng Nghymru Llywodraeth Cymru (http://www.ageingwellinwales.com/wl/home) ac agenda 'Heneiddio'n Dda' Cymdeithas Llywodraeth Leol wedi nodi'r hyn sydd angen ei wneud i ddatblygu mannau da i heneiddio ac i sicrhau henaint iachus sy'n gynhwysol yn gymdeithasol.

4 Nod llesiant 1 – Llewyrchus

Cyflwyniad i'r nod hwn

4.1 Mae Llewyrchus yn ymwneud â chael Bwrdeistref Sirol sy'n arloesol, cynhyrchiol a ac yn gymdeithas carbon isel sy'n cydnabod cyfyngiadau'r amgylchedd byd-eang ac felly'n defnyddio adnoddau'r effeithlon ac mewn cyfrannedd; ac sy'n datblygu poblogaeth sgiliedig ac addysgiedig mewn economi sy'n cynhyrchu cyfoeth ac yn darparu cyfleoedd cyflogaeth, gan ganiatáu i bobl fanteisio ar y cyfoeth a gynhyrchir trwy sicrhau swyddi gweddus.

Thema Allweddol Llewyrchus 1 – Cyflawniad yn yr ysgol a datblygiad cymdeithasol ehangach / sgiliau cyflogadwyedd / sgiliau bywyd

Pam bod hyn yn bwysig:

4.2 Dwy o themâu allweddol strategaeth blynyddoedd cynnar Llywodraeth Cymru (cyn geni i saith oed) yw darparu addysg gynnar a gofal plant o'r ansawdd uchaf, a darparu addysg gynradd effeithiol. Mae darpariaeth gofal plant priodol yn chwarae rhan fawr o ran gwireddu'r nodau hyn, yn enwedig yn y blynyddoedd cyn ysgol. Mae'n cynorthwyo rhieni hefyd, trwy ddarparu cyngor ac arweiniad trwy ddangos sgiliau gofal plant ymarferol a thrwy gynnig y cymorth gofal plant sy'n ofynnol i ganiatáu i rieni fanteisio ar gyfleoedd gwaith.

4.3 Y deilliant pwysicaf i unrhyw ysgol yw rhoi'r wybodaeth a'r sgiliau i gymaint o ddisgyblion ag y bo modd er mwyn ffynnu yng nghyfnodau diweddarach eu bywyd, yn cynnwys darparu cymwysterau ar gyfer addysg barhaus a chyflogaeth. Fodd bynnag, mae angen ystyried y ffyrdd eraill y mae angen iddynt addysgu a meithrin y plant yn eu gofal, yn cynnwys trwy ddatblygiad personol, ac addysgu sgiliau bywyd.

4.4 Mae llwyddiant academaidd yn cael effaith gadarnhaol gref ar ymdeimlad plant ynghylch pa mor dda yw eu bywyd (boddhad bywyd) ac mae'n gysylltiedig â lefelau llesiant uwch fel oedolyn. Mae rhai o ddynodwyr datblygiad addysgol yn dangos gwahaniaethau penodol rhwng cyrhaeddiad plant yn y teuluoedd mwyaf amddifadus (a ddynodir gan y rhai sy'n derbyn cinio ysgol am ddim) a gweddill y boblogaeth ysgol.

4.5 Dengys tystiolaeth ymchwil fod cysylltiad agos rhwng addysg ac iechyd. Felly mae hyrwyddo iechyd a lles disgyblion a myfyrwyr mewn ysgolion a cholegau yn meddu ar y potensial i wella eu canlyniadau addysgol a'u canlyniadau iechyd a lles.

Yr hyn rydym ni'n ei wybod:

4.6 Mae'r canlyniadau arholiadau ar gyfer yr holl ddisgyblion sy'n gadael addysg orfodol ar ddiwedd Blwyddyn 11 (yn 15 neu'n 16 oed yn arferol) yn erbyn safon cyrhaeddiad a elwir yn drothwy lefel 2 Cyfnod Allweddol 4 o ran dangosydd pynciau craidd. Mae hyn yn cyfateb i 5 TGAU gradd A*-C yn cynnwys un yn Saesneg neu

Gymraeg iaith gyntaf, un ym Mathemateg ac un mewn Gwyddoniaeth. Yn gyffredinol mae lefelau cyrhaeddiad Wrecsam chwech y cant islaw lefel Cymru, ond gwelwyd cynnydd o bedwar y cant ers 2012. Gyda'r lefelau cyrhaeddiad ar gyfer y mesur hwn ar 49%, mae cryn le i wella.

4.7 Mae'r bwlch cyrhaeddiad rhwng y rhai sy'n derbyn cinio ysgol am ddim a'r rhai nad ydynt yn agos at 28% (27% o'i gymharu â 55%). Mae'r bwlch cyrhaeddiad Cymru gyfan yn 32%. Mae hwn yn fwlch llawer mwy nag a welir yn y Cyfnod Sylfaen neu Gyfnod Allweddol 2, sy'n awgrymu bod anghydraddoldebau'n ehangu wrth i blant symud trwy'r system addysg. Mae'r bwlch rhwng y rhai sy'n derbyn cinio ysgol am ddim a'r rhai nad ydynt wedi lleihau ers 2010/11 oddeutu 3.5%. Fodd bynnag, ymddengys mae'r tueddiad cyffredinol yw gwelliant bach iawn o ran cau'r bwlch.

4.8 Awgryma tystiolaeth o gymariaethau rhyngwladol bod angen gwella'n arwyddocaol y tu hwnt i lefelau perfformiad addysg cyfredol Cymru er mwyn cystadlu'n fyd-eang. Yn ychwanegol, mae angen gwella cyrhaeddiad addysgol er mwyn datblygu economi'r ardal yn y dyfodol.

Yr hyn rydych chi wedi'i ddweud wrthym ni:

4.9 Yn yr ymgynghoriad 'Beth sy'n bwysig i chi?' roedd yr ymatebwyr o'r farn bod 'Pobl yn gwneud yn dda yn yr ysgol gynradd, ysgol uwchradd ac yn mynd ymlaen i addysg bellach' yn bwysig iawn, ond roedd y lefel boddhad mewn perthynas â'r deilliant hwn hefyd yn llawer uwch, gan olygu ei fod yn cael ei fesur fel blaenoriaeth canolig. Serch hynny, mae'n bwysig nodi bod y prif negeseuon o'r sylwadau a dderbyniwyd yng nghyswllt y deilliant hwn yn awgrymu fod gan rai pobl bryderon am ansawdd yr addysg, cyllidebau ysgolion yn cwtogi, yr angen am fwy o leoedd ysgol gyda phoblogaeth sy'n cynyddu, nifer y plant a addysgir y tu allan i'r sir, twf ym maint dosbarthiadau a hyfforddiant i athrawon.

4.10 Nodwyd 'Stopio bwlio mewn ysgolion' fel mater pwysig i bobl ifanc, yn ogystal â chael 'mwy o gyngor ac arweiniad ar y gwahanol gyfleoedd sydd ar gael ar ôl gorffen yr ysgol ym Mlwyddyn 11' a 'mwy o gyfleoedd addysg rhan amser am ddim ar ôl gorffen ysgol ym Mlwyddyn 11.'

4.11 Gwnaeth yr ymgynghoriad ar y cynllun cydraddoldeb strategol dynnu sylw at nifer o faterion o ran lleihad anghydraddoldebau yn y byd addysg megis: 'lleihau bylchau cyrhaeddiad'; 'mynd i'r afael â bwlio mewn ysgolion'; 'cynyddu amrywiaeth llywodraethwyr ysgol'; 'gwella'r mynediad i ysgolion ac argaeledd cadeiriau olwyn; a 'chynyddu'r mynediad i ddosbarthiadau Saesneg i siaradwyr ieithoedd eraill'.

4.12 Yn yr ymgynghoriad 'Y Wrecsam a ddymunwn' gwnaed niferoedd o sylwadau ynghylch gwella addysg a rhagolygon oherwydd mai plant a phobl ifanc yw dyfodol Wrecsam.

Thema Allweddol Llewyrchus 2 – Mynd i'r afael â thlodi ac amddifadedd

Pam bod hyn yn bwysig:

4.13 Gellir diffinio byw mewn tlodi ac amddifadedd fel sefyllfa lle bo adnoddau'r unigolyn neu'r aelwyd yn sylweddol is na'u hanghenion isafswm. Mae'r anghenion hyn yn cynnwys bwyd, dillad a chysgod, ond hefyd yr hyn sydd ei angen er mwyn cael y cyfleoedd a'r dewisiadau sy'n angenrheidiol i gymryd rhan yn y gymdeithas. Yn ogystal ag ystyried lefelau incwm a mynediad i gyfleoedd cyflogaeth, sy'n allweddol wrth fesur tlodi, gallai ystyriaethau eraill gynnwys lefelau addysg, iechyd, diogelwch cymunedol a mynediad i wasanaethau.

4.14 Mae anfanteision cymdeithasol ac economaidd yn ystod bywyd cynnar yn enwedig yn cynyddu'r risg o fod yn ennill llai, safon iechyd is a sgiliau is pan yn oedolyn. Gall hyn yn ei dro barhau'r anfantais ar draws cenedlaethau. Mae profiadau plentyndod yn cael effaith ddwys nid yn unig ar fywydau cyfredol y plant, ond ar eu cyfleoedd a'u rhagolygon i'r dyfodol hefyd.

4.15 Mae cysylltiadau cydnabyddedig rhwng tlodi ac iechyd gwael yn awgrymu y gallai'r cynnydd a ragfynegir mewn cyflyrau iechyd cronig arwain at gynnydd mewn pobl yn byw mewn tlodi. Mae newidiadau i drefniadau taliadau lles yn effeithio'n anghyfrannol ar y rhai mewn mwyaf o dlodi, yn enwedig teuluoedd â phlant. Mae

lleihad diweddar yn yr uchafswm budd-daliadau, lleihad yn yr hawl i gredydau treth a chyflwyno Credyd Cynhwysol i gyd yn mynd i gael effaith ar lefelau tlodi.

4.16 Mae'n hynod o anodd rhagfynegi'r effaith ar lefelau incwm a thlodi yn yr economi ehangach, ac mae'n cael ei ddylanwadu'n drwm gan amodau'r farchnad yn genedlaethol a rhyngwladol, sydd y tu hwnt i gwmpas dylanwad lleol ac, yn gynyddol, llywodraeth wladol.

Yr hyn rydym ni'n ei wybod:

4.17 Mae lefelau incwm cyffredinol aelwydydd yn Wrecsam yn arwyddocaol is na'r cyfartaledd cenedlaethol ar gyfer ystod o fesuriadau. Yn 2015 amcangyfrifwyd bod yr incwm canolrifol aelwydydd yn yr ardal ddim ond 88% o gyfartaledd Prydain Fawr.

Incwm blynyddol aelwydydd (2015)
Ffynhonnell: CACI

	Wrecsam	**Cymru**	**Prydain Fawr**
Incwm canolrifol	£25,200	£24,250	£28,700
Incwm chwartel isaf	£14,000	£13,600	£15,450
% yr aelwydydd ag incwm is na 60% o incwm canolrifol Prydain Fawr	26.0%	27.1%	22.5%

Mae mesuriadau incwm aelwyd yn cynnwys cyflogau, budd-daliadau, buddsoddiadau, pensiynau ac incwm arall ar gyfer holl aelodau'r aelwyd

4.18 Ystyrir bod aelwyd mewn tlodi os yw cyfanswm yr incwm blynyddol (yn cynnwys unrhyw fudd-daliadau a dderbynnir) yn is na 60% y cyfartaledd ar gyfer Prydain Fawr, sy'n rhoi'r llinell tlodi swyddogol oddeutu £17,200. Amcangyfrifir bod cyfran arwyddocaol uwch o aelwydydd yn Wrecsam ag incwm is na'r lefel yma na'r cyfartaledd ym Mhrydain Fawr – tua 26% o'r holl aelwydydd neu gyfanswm o tua 15,400 o aelwydydd.

4.19 Mae'n anodd casglu mesuriadau uniongyrchol tlodi plant, felly mae'n rhaid i ni edrych ar ddata procsi i'n cynorthwyo i ddeall y mater hwn ar y lefel leol.

Plant yn byw mewn tlodi (mesuriadau procsi) – Awst 2014
Ffynhonnell: mesur lleol plant mewn teuluoedd incwm isel; ystadegau plant a chredyd treth gwaith; Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi

	Wrecsam		Cymru	Prydain Fawr
Plant yn byw mewn aelwyd sy'n ennill llai na 60% o'r incwm cyfartalog ar gyfer Prydain Fawr				
Plant mewn teuluoedd incwm isel	6,090	20.4%	22.5%	19.9%
Plant mewn teuluoedd sy'n derbyn credydau treth				
Plant mewn teuluoedd mewn gwaith	11,535	39.8%	40.0%	38.8%
Plant mewn teuluoedd diwaith	5,855	20.2%	22.1%	19.8%
Cyfanswm	17,390	60.1%	62.1%	58.6%

4.20 Un mesur procsi yw tlodi aelwyd. Dengys data Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi bod 6,090 o blant yn Wrecsam sy'n byw mewn tlodi. Mae hyn yn 20.4% o'r holl blant mewn teuluoedd sy'n gymwys i dderbyn budd-dal plant, ac ychydig yn uwch na chyfradd cyfartalog Prydain Fawr.

4.21 Yn ôl y mesur hwn mae ward Queensway yn Wrecsam yn cynnwys mwy na 450 o blant sy'n byw mewn tlodi. Yn ychwanegol mae gan wardiau Plas Madoc, Wynnstay a Chartrefle oddeutu 300 o blant yn byw mewn tlodi, gyda dros 200 yr un yn wardiau Coedpoeth, Llai, Cefn, New Broughton, Pant, Ponciau, Penycae a Whitegate.

4.22 Dangosydd defnyddiol arall, sy'n cael ei gyhoeddi gan Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi hefyd, yw nifer y teuluoedd â phlant sy'n hawlio credydau treth. Mae tua 17,400 o blant yn Wrecsam sy'n byw mewn teuluoedd sy'n derbyn credydau treth fel atodiad i'w incwm cyflog neu fudd-daliadau. Mae hyn oddeutu 60% o'r holl blant. Mae mwyafrif y teuluoedd hyn mewn gwaith on ar incwm isel ac o ran y mesur hwn mae'r gyfradd yn Wrecsam ychydig yn uwch na lefel Prydain Fawr.

Yr hyn rydych chi wedi'i ddweud wrthym ni:

4.23 Yn yr ymgynghoriad 'Y Wrecsam a ddymunwn' gwnaed ychydig o sylwadau parthed taclo a lleihau tlodi.

Thema Allweddol Llewyrchus 3 – Gwella sgiliau ar gyfer cyflogaeth

Pam bod hyn yn bwysig:

4.24 Mae cysylltiad diamheuol rhwng sgiliau a chyflogaeth, o ran yr unigolyn a'r gweithlu ehangach. Mae gwella sgiliau yw gwella'n sylweddol gallu'r diwaith i ganfod gwaith. Ar yr un pryd mae gwella sgiliau yn helpu'r rhai mewn swyddi cyflog is i wneud cynnydd yn y farchnad lafur. Wrth i sylfaen sgiliau'r gweithlu lleol gynyddu mae'r ardal yn dod yn fwy deniadol i ddarpar fuddsoddwyr sydd am ddod â busnes newydd i'r ardal.

4.25 Mae newid cyflym yn yr economi genedlaethol a bydol, ynghyd â thechnoleg sy'n esblygu'n gyflym, yn golygu bod angen i'r gweithlu modern fod yn fwy sgiliedig nag

erioed o'r blaen. Mae angen i'r sgiliau hyn fod yn hyblyg, yn rhai y gellir eu haddasu a'u trosglwyddo rhwng swyddi a hyd yn oed rhwng sectorau cyflogaeth. Mae'r symud parhaus o economi ar sail cynhyrchu i economi gwasanaethu hefyd yn golygu bod rhaid i'r gweithlu ddatblygu ei sgiliau cymdeithasol, wrth i gyflogaeth ganolbwyntio mwy ar y cwsmer.

4.26 O ran y sector cyhoeddus, yn ogystal â chyfrannu at yr ardoll prentisiaethau, bydd yn ofynnol i'r sector ateb y gofynion deddfwriaethol yn y Bil Menter. Bydd y ddeddfwriaeth hon yn nodi y bydd yn ofynnol i'r holl sefydliadau sector cyhoeddus wneud yn siwr bod 2.3% o'u gweithlu yn brentisiaid ar unrhyw un adeg. Gallai hyn fod yn newid sylweddol potensial i'r modd mae sefydliadau sector cyhoeddus yn recriwtio a hyfforddi staff.

Yr hyn rydym ni'n ei wybod:

4.27 Mae gan y boblogaeth oedran gweithio yn Wrecsam lefelau cymwysterau sy'n debyg yn gyffredinol i gyfartaledd Cymru. Er bod y ffigurau ar gyfer y rhai heb gymwysterau fwy neu lai'n gyfartal â ffigur y Deyrnas Unedig, mae cyfran lai wedi cymhwyso i lefel gradd neu uwch (NVQ4+) nag a welir yn genedlaethol. Yn gyffredinol mae gan ferched fwy o gymwysterau na dynion.

4.28 Mae ystod sgiliau ar gyfer cyflogaeth yn cynnwys amrediad o gymwysterau academaidd a chysylltiedig â gwaith. Nid yw'r llwybr i addysg uwch a gradd prifysgol yn addas ar gyfer pawb sy'n gadael yr ysgol neu oedolion ym myd addysg, ac mae prentisiaethau a chyfleoedd eraill i ddysgu yn y gwaith yn ffurfio rhan fawr o'r sylfaen sgiliau lleol.

4.29 Mae gan Wrecsam ddarpariaeth ychydig yn well na'r gyfradd genedlaethol o ran prentisiaethau a rhaglenni dysgu yn y gwaith na'r cyfartaledd cenedlaethol ar gyfer y grŵp oedran 16-24 oed. Fodd bynnag, mae tan-ddarpariaeth ar gyfer y boblogaeth yn ei chyfanrwydd.

4.30 Mae gan yr ardal ddarpariaeth ychydig yn uwch na'r cyfartalog o ran rhaglenni yn y sector peirianneg – 11% o brentisiaethau (8% yng Nghymru gyfan) a 9% o'r holl raglenni (6% yng Nghymru). Sectorau eraill â chyfran uwch o raglenni dysgu na chyfartaledd Cymru yw'r gwasanaethau gofal iechyd, gwasanaethau cyhoeddus a gweithgynhyrchu. Mae hyn yn adlewyrchu strwythurau cyflogaeth yr ardal, ac mae hefyd yn cael ei ddylanwadu gan y cyrsiau sydd ar gael mewn sefydliadau addysg bellach lleol.

4.31 Mae lefelau cymwysterau yn Wrecsam wedi bod yn gwella flwyddyn ar ôl blwyddyn yn gyffredinol, ac mae'r ffigurau ar gyfer y rhai â chymwysterau lefel NVQ4 neu uwch yn debyg i gyfartaledd Cymru yn awr. Mae'r ffigurau ar gyfer y rhai heb gymwysterau wedi dangos tueddiad cadarnhaol hefyd. Dengys y data mwyaf diweddar lefelau sy'n is na chyfartaledd Cymru ac sy'n cyfateb i ffigur y Deyrnas Unedig.

4.32 Mae problemau o ran swyddi heb eu llenwi yn y sectorau gweithgynhyrchu a pherianneg yn Ystad Ddiwydiannol Wrecsam, sy'n awgrymu diffyg sgiliau yn y maes hwn. Mae angen gwneud gwaith ychwanegol trwy gyfrwng Addewid Cyflogwr Wrecsam i ddatblygu llwybrau gyrfa clir ar gyfer y rhai sy'n gadael yr ysgol i fynd am

swyddi gweithgynhyrchu a pheirianneg lefel uwch, yn cynnwys eu hannog i ddewis pynciau cysylltiedig.

Yr hyn rydych chi wedi'i ddweud wrthym ni:

4.33 Yn yr ymgynghoriad 'Beth sy'n bwysig i chi?' nodwyd 'Cael amrywiaeth ehangach o brentisiaethau heb gyfyngiad oedran arnynt' a 'chael mwy o gyfleoedd i bobl ifanc gael profiad gwaith a chyflogaeth' fel materion pwysig o ran pobl ifanc, er mwyn 'gwella eu sgiliau a'u helpu i gael swyddi yn y dyfodol.'

Thema Allweddol Llewyrchus 4 – Cyfleoedd cyflogaeth lleol

Pam bod hyn yn bwysig:

4.34 Mae cronfa gynyddol o dystiolaeth sy'n dangos y cysylltiadau rhwng amddifadedd materol a llesiant gwael yn gyffredinol. Cyflogaeth dda yw'r ffordd fwyaf cyffredin, ac yn aml y ffordd fwyaf effeithiol, o ddarparu'r cyllid sydd ei angen ar deulu i wella sawl maes llesiant.

4.35 Nid yw'n ymwneud â nifer y swyddi sydd ar gael yn unig, ond hefyd pa fathau o gyfleoedd cyflogaeth a gynigir, a sut maent ync cyd-fynd â'r newidiadau yn yr economi fyd-eang yn ogystal â blaenoriaethau lleol. Mae cyflogaeth sicr, sy'n talu'n dda, yn effeithio ar les economaidd unigolion a chymunedau, ond gall gynorthwyo hefyd gyda lles meddyliol gan ei fod yn meithrin ymdeimlad o bwrpas ac ymdeimlad o berthyn i'r gymdeithas.

Yr hyn rydym ni'n ei wybod:

4.36 Mae tua 56,000 o swyddi Talu Wrth Ennill yn yr ardal a 69,100 o drigolion sy'n weithgar yn economaidd. Mae hyn yn cynrychioli anghydbwysedd o tua -13,100 o swyddi. Mae peth o'r anghydbwysedd hyn oherwydd bod y cyflenwad a'r galw am swyddi yn cael ei ateb trwy deithio i weithio – mae oddeutu 16,100 o bobl yn teithio allan o Wrecsam i'w cyflogaeth – tua 24% o'r trigolion sy'n gweithio. Fodd bynnag, mae gan Wrecsam batrwm cymhleth o deithio i weithio, ac mae nifer arwyddocaol o bobl sy'n byw y tu hwnt i'r ardal yn teithio i Wrecsam i weithio.

4.37 Mae'n anodd asesu faint o deithio o'r ardal sy'n angenrheidiol wrth chwilio am swydd cyflog neu statws uwch, a faint sydd o ddewis. Fodd bynnag, yn ogystal â chamgyfatebiaeth rhwng nifer y swyddi a nifer y trigolion sy'n gweithio, mae gan yr ardal gyflogau cyfartalog wythnosol arwyddocaol is ar gyfer swyddi amser llawn na'r cyfartaledd cenedlaethol – £486 o'i gymharu â £540 i Brydain Fawr gyfan. Mae cyflogau ar gyfer swyddi yn yr ardal hefyd yn is na'r cyflog cyfartalog ar gyfer trigolion Wrecsam (£486 o'i gymharu ag £499), eto'n awgrymu bod teithio i weithio y tu hwnt i'r ardal yn darparu cyfleoedd gwasanaethau cyflogaeth gwell.

4.38 Mae'r strwythur cyflogaeth yn yr ardal yn wahanol i un Prydain Fawr yn ei chyfanrwydd. Mae cyflogaeth yn y sectorau sgiliau uchel, cyflograu uchel gwybodaeth a chyfathrebu, cyllid ac yswiriant, proffesiynol, gwyddonol a thechnegol a gwasanaethau gweinyddu a chymorth busnes yn gymharol isel, yn gwneud

cyfanswm o 12% yn unig o'r holl gyflogaeth o'i gymharu â 24% ar draws Prydain Fawr gyfan.

4.39 Mae dibynnu ar gyflogaeth sector cyhoeddus yn gymharol uchel ar 35% ar draws yr ardal yn ei chyfanrwydd o'i gymharu â 32% ar gyfer Cymru a 26% ar gyfer Prydain Fawr. Mae'r gwahaniaeth hwn wedi ei seilio'n bennaf ar gyflogaeth yn y sector iechyd, yn enwedig oherwydd presenoldeb Ysbyty Wrecsam Maelor sy'n cyfrannu'n sylweddol i 20% o gyflogaeth yn y sector iechyd.

4.40 Yn Wrecsam mae cyflogaeth ym maes gweithgynhyrchu ymhell uwchben y gyfradd genedlaethol ar 20% o'i gymharu ag 8% ar gyfer Prydain Fawr ac 11% ar gyfer Cymru gyfan.

4.41 Cynyddodd cyfanswm nifer y swyddi Talu Wrth Ennill yn Wrecsam fesul 1,600 (3.0%) rhwng 2009 a 2015. Gwelwyd nifer y swyddi'n dirywio mewn rhai sectorau – gwelwyd y colledion mwyaf ers 2009 yn y sector amddiffyn a gweinyddiaeth gyhoeddus (-700 o swyddi), adeiladwaith (-450), cyfanwerthu (-350) a'r sector manwerthu (-250). Y sector iechyd welodd y twf mwyaf (tua +1,100 o swyddi). Roedd y twf cyfrannol mwyaf yn y sector gwybodaeth a chyfathrebu sydd wedi cynyddu 79% ers 2009 (tua 450 o swyddi). Sectorau twf arwyddocaol eraill ers 2009 yw addysg (+850), adeiladwaith (+300), gweithgynhyrchu (+550), celfyddydau/adloniant/hamdden a chyllid/yswiriant (+200 yr un).

4.42 Mae'r economi leol yn dangos gorddibyniaeth ar y sector cyhoeddus i ddarparu cyflogaeth. Mewn cyfnod o lymder economaidd a phwysau ar wariant cyhoeddus, mae rhai o'r swyddi hyn dan fygythiad. Mae'n debygol hefyd y bydd effeithiau eilaidd yn sgîl unrhyw grebachu yng nghyflogaeth sector cyhoeddus a/neu wasanaethau yn yr economi ehangach, gan fod llawer o fusnesau bach lleol a chrefftwyr lleol yn seilio llawer o'u busnes ar ddarparu nwyddau a gwasanaethau i sefydliadau sector cyhoeddus mwy o faint.

<u>Yr hyn rydych chi wedi'i ddweud wrthym ni:</u>

4.43 Yn yr ymgynghoriad 'Beth sy'n bwysig i chi?', nodwyd 'creu swyddi a lleihau diweithdra', 'helpu busnesu i sefydlu a thyfu' a 'denu busnesau a buddsoddiad' fel pethau pwysig iawn gan ymatebwyr, ond roedd y lefel boddhad o ran y deilliannau hyn yn isel iawn, gan olygu eu bod oll yn flaenoriaethau uchel.

4.44 Tynnodd yr ymgynghoriad ar y cynllun cydraddoldeb strategol sylw at nifer o faterion yng nghyswllt lleihau anghydraddoldebau mewn cyflogaeth a chyflogau megis: 'hyrwyddo dirnadaeth gadarnhaol o amrywiaeth yn y gweithle'; 'gweithio'n hyblyg yn cynnwys yn y sector preifat'; hyrwyddo tâl cyfartal a hawliau cyflogaeth'; 'cynyddu ymwybyddiaeth am wahaniaethu sefydliadol' a 'gwella mynediad i gyfleoedd profiad gwaith, hyfforddiant a swyddi.'

4.45 Yn yr ymgynghoriad 'Y Wrecsam a ddymunwn' gwnaed 29 o sylwadau am gael mwy o swyddi a gwell rhagolygon swyddi; ac 19 o sylwadau am ddenu mwy o fusnesau.

Thema Allweddol Llewyrchus 5 – Cefnogi busnesau bach

Pam bod hyn yn bwysig:

4.46 Er nad yw busnesau bach yn cynhyrchu gymaint o incwm i'r economi leol neu'n cyflogi gymaint o bobl â chwmnïau a sefydliadau mawr, yn aml maent yn ffurfio asgwrn cefn yr economi leol. Maent yn llenwi bylchau na all busnes mawr weithredu ynddo neu nad oes ganddo ddiddordeb ynddynt, a gallant ymateb hefyd i farchnadoedd arbenigol neu gyfyngedig (er enghraifft, glanhawyr ffenestri lleol neu ddylunwyr gemwaith).

4.47 Mae busnesau bach hefyd yn fwy tebygol o ailgylchu eu hincwm yn yr economi leol na busnesau lleol mawr a chwmnïau a sefydliadau cenedlaethol/byd-eang. Mae cyflogwyr mawr eraill yn yr ardal yn elwa o bresenoldeb sector busnesau bach cryf, oherwydd yn aml maent yn darparu nwyddau, gwasanaethau gwaith contractau allanol ar ran cwmnïau a sefydliadau mawr.

4.48 Gall busnesau bach ymateb ac addasu'n gyflym i hinsawdd economaidd sy'n newid, gan fod eu cronfeydd cyfalaf/refeniw llai yn medru eu gwneud yn fwy hyblyg. Fodd bynnag, gall cronfeydd cyfalaf/refeniw bach hefyd gyfyngu ar y gallu i addasu ac ehangu, ac weithiau mae cwmnïau bach yn dioddef o ddiffyg sgiliau y tu hwnt i'w maes busnes craidd.

4.49 Nid yw busnesau bach yn aros yn fach bob amser, ac mae busnesau bach sy'n tyfu'n fusnesau mawr yn aml yn parhau yn y gymuned lle sefydlwyd y busnes yn gyntaf. Gall cefnogaeth a buddsoddiad i fusnesau bach fod yn fuddsoddiad yn nyfodol yr economi leol – a hyd yn oed yr economi wladol neu fyd-eang.

Yr hyn rydym ni'n ei wybod:

4.50 Mae canran uchel o'r busnesau hysbys sy'n gweithredu yn yr ardal yn gymharol fach mewn maint. Mae rhyw 74% o fusnesau (2,650) yn cyflogi llai na phedwar o bobl ac mae 14% (500) arall yn cyflogi rhwng pump a naw o bobl. Mae tua 40% o fusnesau bach yn gweithredu o dan y trothwy Treth ar Werth. Mae tua 7,700 o bobl neu 8.0% o'r boblogaeth waith yn hunangyflogedig.

4.51 Ers 2011 mae nifer y busnesau bach wedi cynyddu tua 9% – mae tua 250 yn fwy o fusnesau â llai na phedwar cyflogai a 50 sy'n cyflogi rhwng pump a naw o bobl.

Yr hyn rydych chi wedi'i ddweud wrthym ni:

4.52 Ar hyn o bryd rydym yn chwilio am adborth o ymgynghoriadau a allai fod wedi digwydd ar y thema hon. Bydd unrhyw wybodaeth y byddwn yn dod o hyd iddo yn cael ei gynnwys yn yr asesiad terfynol.

Thema Allweddol Llewyrchus 6 – Sector cyflogaeth allweddol – iechyd a gofal cymdeithasol

Pam bod hyn yn bwysig:

4.53 Mae'r sector iechyd a gofal cymdeithasol yn darparu dros 10,750 o swyddi yn Wrecsam. Yn gyffredinol mae hyn yn cynrychioli un o bob pump swydd yn yr ardal (20%) a dyma'r sector cyflogaeth mwyaf yn yr ardal ar y cyd â gweithgynhyrchu.

4.54 Mae gogledd Cymru yn wynebu anawsterau sylweddol a pharhau o ran recriwtio meddygon teulu a nyrsus. Nodwyd hyn fel risg tymor byr a thymor hir arwyddocaol i ddarpariaeth gwasanaethau gofal sylfaenol.

4.55 Mae problemau recriwtio yn achosi hyd yn oed mwy o bryder wrth ystyried proffil oedran y gweithlu presennol. Dengys data a gasglwyd ym Mai 2016 fod 19% o'r meddygol teulu yng ngogledd Cymru a 22% yn ardal Dwyrain Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (Wrecsam a Sir y Fflint) dros 55 oed. Mae'r potensial i'r meddygon teulu hyn ymddeol yn gynnar wedi cynyddu yn dilyn newidiadau i ddeddfwriaeth pensiynau, sy'n golygu ei bod o fudd i unigolion ar gyflogau uchel gymryd ymddeoliad cynnar.

4.56 Mae nifer y lleoedd ar gyfer hyfforddi meddygon teulu, nyrsus a swyddi iechyd cysylltiedig yn annigonol i ateb y gofynion ar draws y Deyrnas Unedig gyfan, yn ogystal â gogledd Cymru. Mae'r system hyfforddi meddygon teulu yng Nghymru sy'n denu myfyrwyr o Adran Meddygol Prifysgol Caerdydd yn ei chael yn anodd ateb galw gweithlu gofal sylfaenol gogledd Cymru. Mae perthnasoedd da yn bodoli gyda gogledd orllewin Lloegr, yn cynnwys Adrannau Meddygol Prifysgolion Lerpwl a Manceinion, y gellid eu datblygu ymhellach. Gallai datblygiad Adran Meddygol yng Nghaer fod yn fuddiol hefyd.

Yr hyn rydym ni'n ei wybod:

4.57 O ran cyfanswm y swyddi yn y sector hwn mae 6,450 o swyddi mewn ysbytai, 3,100 mewn sectorau gofal iechyd eraill, 3,750 mewn lleoliadau gofal preswyl a 3,950 yn y sector gofal cymdeithasol cyffredinol.

4.58 Mae newidiadau yn y sector yn cael eu gyrru gan newid demograffig (cynnydd yn y galw am ofal), ffactorau cymdeithasol a gwleidyddol (yn cynnwys ymgais i sicrhau effeithlonrwydd), technoleg ac arloesi (gwelliannau mewn triniaethau a chyfleoedd i gleifion reoli eu iechyd eu hunain), a chynnydd yn nisgwyliadau cleifion a defnyddwyr gwasanaethau. Mae'r gyrwyr hyn yn cynhyrchu heriau sgiliau a pherfformiad yn yr holl brif alwedigaethau iechyd a gofal cymdeithasol, wrth i'r sector ymateb i alwadau sy'n newid.

4.59 Mae cyflogaeth yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol yn Wrecsam wedi cynyddu oddeutu 600 o swyddi ers 2009, yn bennaf yn y sector gofal preswyl.

4.60 Yn ystod y pum i ddeng mlynedd nesaf mae'r sector yn wynebu cynnydd yn y galw a lleihad yn yr adnoddau sydd ar gael, yn ogystal â diwygiadau strwythurol. Mae newidiadau o'r fath yn debygol o arwain at set mwy amrywiol o gyflogwyr yn gweithredu yn y sector a dull mwy unedig o ddarparu gwasanaethau gan staff iechyd a gofal cymdeithasol.

Yr hyn rydych chi wedi'i ddweud wrthym ni:

4.61 Yn yr ymgynghoriad 'Y Wrecsam a ddymunwn' gwnaed nifer o sylwad yn nodi y dylid buddsoddi mwy mewn gwasanaethau iechyd.

Thema Allweddol Llewyrchus 7 – Ased Economaidd Allweddol – Ystad Ddiwydiannol Wrecsam

Pam bod hyn yn bwysig:

4.62 Mae mwy na 25 o ystadau diwydiannol a pharciau busnes gwahanol yn Wrecsam, a'r mwyaf yw Ystad Ddiwydiannol Wrecsam. Hon yw'r fwyaf yng Nghymru ac mae ymhlith y deg uchaf, yn ôl maint, yn y Deyrnas Unedig. Mae tua 360 o fusnesau yno, sy'n darparu cyflogaeth i tua 10,000 o bobl, ac mae'n cynnwys cymysgedd amrywiol o fusnesau sy'n ymwneud â gweithgareddau fel bancio a chyllid, moduron, peirianneg, nwyddau fferyllol, aerofod a'r sector bwyd a diod. Mae'n ganolfan cyflogaeth bwysig nid yn unig i Gymru ond i ogledd orllewin Lloegr ac economi ehangach y Deyrnas Unedig.

Yr hyn rydym ni'n ei wybod:

4.63 Mae'r ystad ddiwydiannol wedi gweld twf iach yn ystod y blynyddoedd diwethaf, gan gynyddu'r ddarpariaeth o 300 o fusnesau yn darparu tua 7,000 o swyddi yn 2011 i 10,000 ar hyn o bryd. Mae mwy na miliwn o bunnoedd y diwrnod yn cael eu buddsoddi yn Ystad Ddiwydiannol Wrecsam ar hyn obryd, gan greu dros 2,500 o swyddi yn ystod y tair blynedd nesaf.

4.64 Mae problemau o ran swyddi gwag heb eu llenwi gan rai cyflogwyr yn y sectorau gweithgynhyrchu a pheirianneg yn yr ystad ddiwydiannol, sy'n awgrymu diffyg sgiliau yn yr ardal.

Yr hyn rydych chi wedi'i ddweud wrthym ni:

4.65 Ar hyn o bryd rydym yn chwilio am adborth o ymgynghoriadau a allai fod wedi digwydd ar y thema hon. Bydd unrhyw wybodaeth y byddwn yn dod o hyd iddo yn cael ei gynnwys yn yr asesiad terfynol.

Thema Allweddol Llewyrchus 8 – Ased Economaidd Allweddol – Carchar Ei Mawrhydi Berwyn

Pam bod hyn yn bwysig:

4.66 Yn ystod y cyfnod adeiladu mae'r prif gontractwr, Lendlease, wedi ymrwymo i ddarparu nifer o fuddiannau cymunedol ac economaidd lleol (cylch 50 milltir / taith 1 awr); yn cynnwys £30 miliwn i'w wario ar fusnesau lleol, hanner yr holl lafur a ddefnyddir yn y prosiect i gael eu recriwtio yn lleol, 100 o brentisiaethau yn cwmpasu'r holl grwpiau oedran gyda'r cyfle i fynd ymlaen i gyflogaeth, ymrwymiad i uwchraddio sgiliau gweithwyr a gweithio gydag ysgolion lleol.

Yr hyn rydym ni'n ei wybod:

4.67 Mae llawer o'r budd hwn wedi'i wireddu bellach, ond wrth i'r carchar fynd i'r cam adeiladwaith olaf, daw un budd sylweddol yn y dyfodol o ran cyflogaeth leol a datblygu sgiliau o greu'r Academi Dysgu ac Uchelgais/Academi Sgiliau Cenedlaethol Adeiladwaith. Mae hyn yn golygu adeiladu ymarferol ar y safle, wedi'i ariannu gan Lendlease, y Weinyddiaeth Cyfiawnder a Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru. Mae ar gael i bartneriaid lleol ei ddefnyddio i ddarparu hyfforddiant ar y safle.

4.68 Mae'r carchar yn darparu cyfleoedd cyflogaeth a datblygu potensial ar gyfer yr economi leol y tu allan i'r carchar ei hun. Yn ogystal â gweithredu fel cyflenwyr nwyddau a gwasanaethau i Garchar Berwyn, mae cyfleoedd yn y sector lletygarwch hefyd i ddarparu gwasanaethau llety a bwyd i'r rhai sy'n ymweld â'r carchar.

Yr hyn rydych chi wedi'i ddweud wrthym ni:

4.69 Ar hyn o bryd rydym yn chwilio am adborth o ymgynghoriadau a allai fod wedi digwydd ar y thema hon. Bydd unrhyw wybodaeth y byddwn yn dod o hyd iddo yn cael ei gynnwys yn yr asesiad terfynol.

Thema Allweddol Llewyrchus 9 – Ased Allweddol – Prifysgol Glyndŵr Wrecsam

Pam bod hyn yn bwysig:

4.70 Prifysgol Glyndŵr Wrecsam yw'r unig brifysgol yng ngogledd ddwyrain Cymru, ac o'r cychwyn fel Coleg Celf a Gwyddoniaeth Wrecsam, chwaraeodd rôl allweddol yn Wrecsam a'r rhanbarth ehangach. Mae'r rôl yma wedi bod yn sbardun economaidd sylweddol ynddo'i hun (yn cyfrannu miliynau o bunnoedd yn flynyddol i'r economi) ac hefyd fel darparydd sgiliau a gwybodaeth ac ymchwil, sy'n cefnogi ac yn denu busnes i'r rhanbarth.

4.71 Prifysgol Glyndŵr Wrecsam yw un o'r prifysgolion mwyaf newydd yn y Deyrnas Unedig. Fe'i sefydlwyd yn 2008 yn deillio o Sefydliad Addysg Uwch Gogledd Ddwyrain Cymru (NEWI).

4.72 Mae'r Brifysgol mewn cyfnod cyffrous yn ei datblygiad a'i thwf, dan arweiniad Fframwaith Strategol ac uwch dîm rheoli newydd. Mae'n datblygu darpariaeth cyrsiau newydd a fydd yn gosod y Brifysgol yn glir fel y prif ddarparydd addysg uwch yn y rhanbarth, gyda chynnig unigrwyd sy'n darparu dysgu'n gysylltiedig â gwaith, wedi'i ddarparu gan ymarferwyr a'i hysbysu gan waith ymchwil diwydiannol a phroffesiynol.

Yr hyn rydym ni'n ei wybod:

4.73 Gyda bron i 6,800 o fyfyrwyr amser llawn a rhan amser mae'n bodloni anghenion dysgwyr lleol yn ogystal â denu rhai o bellach i ffwrdd, yn cynnwys myfyrwyr tramor o bob cwr o'r byd. Mae hyn yn cynorthwyo i ddod â syniadau a doniau newydd ac

yn cynorthwyo i hyrwyddo ‘brand Wrecsam’ yn llawer ehangach. Mae’r brifysgol yn cynnig 150 o gyrsiau, yn amrywio o raddau Dystysgrif/Diploma Cenedlaethol Uwch, graddau sylfaenol, anrhydedd a meistr a doethuriaethau ar draws ystod eang o bynciau.

4.74 Mae Prifysgol Glyndŵr Wrecsam ar y brig yng ngogledd Cymru am sicrhau swyddi i’w fyfyrwyr ar ôl iddynt raddio. Roedd cyfradd gyflogadwyedd y sefydliad yn 92.1% ac mae’n uwch na’r cyfartaledd ar gyfer y sector o ran cyflogaeth graddedigol, yn ôl yr Arolwg Cyrchfannau Gadawyr diweddaraf.

Yr hyn rydych chi wedi’i ddweud wrthym ni:

4.75 Ar hyn o bryd rydym yn chwilio am adborth o ymgynghoriadau a allai fod wedi digwydd ar y thema hon. Bydd unrhyw wybodaeth y byddwn yn dod o hyd iddo yn cael ei gynnwys yn yr asesiad terfynol.

Thema Allweddol Llewyrchus 10 – Canol tref Wrecsam

Pam bod hyn yn bwysig:

4.76 Mae'r hen fodel o fanwerthu yn gyrru twf yng nghanol y dref yn barhaus wedi torri. Mae newidiadau mewn manwerthu modern, y ffordd y mae pobl yn siopa a newidiadau economaidd ehangach yn golygu bod angen ffordd wahanol ymlaen ar gyfer adfywio canol y dref. Yn y dyfodol, bydd twf yn dod o fwy o amrywiaeth yn nefnydd canol y dref.

Yr hyn rydym ni’n ei wybod:

4.77 Mae gan Wrecsam lawer i fod yn gadarnhaol yn ei gylch. Fel y dref fwyaf yng Ngogledd Cymru sy'n gwasanaethu rôl isranbarthol bwysig, mae gan ganol tref Wrecsam gynnig manwerthu canol y farchnad gref ac iach a gefnogir gan ystod eang o wasanaethau pwysig isranbarthol gan gynnwys Prifysgol Glyndŵr, Coleg Cambria ac Ysbyty Maelor Wrecsam. Mae ei hygyrchedd, cefn gwlad, stad ddiwydiannol ac atyniadau twristiaeth yn asedau go iawn.

4.78 Mae safle strategol y dref fel sbardun economaidd isranbarthol, twf a ragwelir yn y boblogaeth, craidd hanesyddol deniadol a buddsoddiad adfywio’r sector cyhoeddus yn rhoi hyder fod gan y dref botensial mawr ar gyfer twf.

4.79 Trwy gasglu tystiolaeth helaeth a gwaith partneriaeth daeth gweledigaeth ar gyfer canol y dref yn ymatebol i'w heriau i'r amlwg. Yn ganolog i'r weledigaeth hon yw'r angen am ganolbwynt canol tref newydd ag ystod amrywiol o siopa hygyrch, defnydd hamdden megis bwytai teulu, y celfyddydau ac atyniadau diwylliannol, lle manwerthu arbenigol mewn parth cyhoeddus o ansawdd ac amgylchedd y gellir ei adnabod fel 'Wrecsam'.

4.80 Mae angen cefnogi camau i gynnig profiad gwell i siopwyr ac ymwelwyr trwy wella hygyrchedd, y parth cyhoeddus, tai a chyfleoedd gwaith i ddarparu ymateb cydgefnogol a chyfannol i faterion canol y dref.

4.81 Mae partneriaid y sector cyhoeddus, busnesau lleol a'r gymuned ehangach wedi gweithio gyda'i gilydd ar gynllun meistr i nodi cyfleoedd ar gyfer gweithredu ac ymyriadau a fydd yn helpu i gyflawni'r rhain o fewn fframwaith fydd yn helpu i lunio a blaenoriaethu buddsoddiad yn y dyfodol.

Yr hyn rydych chi wedi'i ddweud wrthym ni:

4.82 Yn yr ymgynghoriad 'Beth sy'n bwysig i chi' (a gynhaliwyd yn Ionawr/Chwefror 2016), roedd 'cefnogi perchnogion siopau a lleihau niferoedd y siopau gwag' yn bwysig iawn gan y rhai a atebodd, ond roedd y lefel boddhad yng nghyswllt y deilliant hwn yn isel iawn, yn golygu ei fod yn flaenoriaeth uchel. Y prif negeseuon oedd bod rhai pobl o'r farn:
- Bod gormod o siopau gwag
- Mae ansawdd ac amrywiaeth y siopau'n wael
- Mae angen adfywio canol y dref a'i uno
- Mae'r costau parcio'n rhy uchel
- Mae'r ardrethi busnes yn rhy uchel

4.83 Roedd y nifer fwyaf o ddyheadau ar gyfer dyfodol Wrecsam gan y rhai a ymatebodd i ymgynghoriad 'Y Wrecsam a ddymunwn' ym mis Hydref yn ymwneud â chael canol tref ffyniannus. Nodwyd nifer o welliannau dan y thema hon, yn cynnwys:
- Adfywio a bywiogi'r hen ganol tref – dod â bywyd yn ôl i ganol y dref
- Lleihau nifer y siopau gwag – cwtogi ardrethi ac annog defnydd arall ac eithrio manwerthu
- Gwella ansawdd ac amrywiaeth y siopau – llai o siopau'n gwerthu nwyddau rhad a mwy o siopau annibynnol
- Economi gymysg dda – siopau, bwytai a chyfleoedd diwylliant a hamdden
- Gwella cynllun gosod canol y dref – yn enwedig y diffyg cysylltiad rhwng datblygiadau newydd fel Dôl yr Eryrod a'r hen ganol tref.

4.84 Roedd y themâu uchelgais eraill a nodwyd yn fynych ynghylch canol y dref yn cynnwys gwneud y mwyaf o'r potensial o fod yn dref farchnad – dychwelyd i wreiddiau Wrecsam fel tref farchnad a gwella costau, argaeledd a hygyrchedd parcio.

4.85 Gofynnwyd i ymatebwyr nodi'r hyn a dybient fyddai'n rhwystr i gyflawni'r uchelgais yma. Teimlwyd mai'r prif rwystrau oedd y Cyngor (gan roi'r bai ar gynllunio gwael, diffyg gweledigaeth ac arloesi a pheidio â gwrando ar yr hyn mae'r cyhoedd yn ei ddymuno o ran hyn), ardrethi busnes yn rhy uchel, dim ots gan landlordiaid bod siopau'n wag ac yn flêr ac nad oes gan y Cyngor unrhyw rym drostynt, dim arian a dim buddsoddiad sector cyhoeddus yn y dref a phobl yn mynd i drefi cyfagos fel Caer ac Amwythig i gael profiad gwell.

4.86 Gofynnwyd hefyd i'r rhai a ymatebodd beth ddylai'r sector cyhoeddus a sefydliadau eraill ei wneud i wireddu'r dyhead hwn. Roedd yr atebion a nodwyd yn cynnwyd cwtogi ardrethi busnes a negodi gyda landlordiaid i leihau'r rhent/cynnig cymhellion, annog siopau mawr i ddod yn ôl i ganol y dref, troi Dôl yr Eryror yn ganolfan hamdden ac adloniant yn hytrach na manwerthu, y Cyngor yn gweithio efo pobl leol ac yn gwrando ar eu syniadau er mwyn llunio gweledigaeth tymor hir ar gyfer canol

y dref, mwy o bresenoldeb yr heddlu i wneud i'r ardal deimlo'n fwy diogel a dysgu oddi wrth drefi bach eraill fel yr Wyddgrug a Chroesoswallt.

4.87 Hefyd gofynnwyd i'r ymatebwyr am eu barn beth allent hwy a'u cymuned ei wneud i wireddu'r dyhead hwn. Prin iawn oedd yr ymatebwyr oedd yn teimlo bod unrhyw beth y gallent ei wneud, ac roedd y rhai wnaeth gynnig atebion yn teimlo mai'r unig beth y gallent ei wneud oedd parhau i ymweld â'r dref a'r siopau a chefnogi digwyddiad (ond cafwyd sylwadau bod angen gwell amrywiaeth o siopau i'w galluogi i wneud hyn). Serch hynny, dywedodd rhai y byddent yn hoffi ymwneud â gwella canol y dref ond nad oeddynt yn gwybod sut i ymwneud â hyn.

5 Nod Llesiant 2 – Gwydn

Cyflwyniad i'r nod hwn

5.1 Gwydnwch yw sicrhau cenedl sy'n cynnal a gwella amgylchedd naturiol llawn bioamrywiaeth sy'n cynnwys ecosystemau iach sy'n cefnogi gwydnwch cymdeithasol, economaidd ac ecolegol a'r gallu i addasu i newid.

5.2 Mae Strategaeth Hinsawdd Cymru 2010 yn datgan 'heb ostyngiadau radical a pharhaus ar unwaith mewn allyriadau nwyon tŷ gwydr byd-eang, bydd canlyniadau difrifol i gymdeithas ddynol, yn ogystal â'r fioamrywiaeth ac ecosystemau sy'n darparu gwasanaethau hanfodol i fywoliaeth ddynol. Ar ben hynny, mae dadansoddiad economaidd yn awgrymu y bydd camau nawr yn lleihau costau o leihau allyriadau yn y dyfodol yn sylweddol. O ran addasu i effeithiau'r hinsawdd yn y dyfodol hefyd, gorau po gyntaf y byddwn yn dechrau paratoi, trwy ddeall pa mor ddiamddiffyn ydym a meithrin ein gallu i addasu, y gorau y byddwn wedi'n harfogi'n i ymateb yn briodol'

5.3 Mae nifer o heriau mawr y bydd angen i ni gydweithio arnynt fel cymuned, fel newid yn yr hinsawdd, tlodi, anghydraddoldebau iechyd a swyddi a thwf. Mae toriadau diweddar ar draws y sector cyhoeddus yn ei gwneud yn bwysicach bod cymunedau gwydn yn mynd i'r afael ag:

- effaith costau ynni a thanwydd cynyddol ar aelwydydd a busnesau
- effaith tymheredd eithafol ar blant a phobl ifanc yn ysgol a phobl hŷn gartref
- effaith iechyd ar weithwyr sy'n gweithio yn yr awyr agored mewn tymheredd poeth, neu'n gorfod darparu gwasanaeth brys mewn tywydd eithafol
- effaith eira, llifogydd lleol neu dywydd poeth iawn ar ein cartrefi, adeiladau swyddfa, ysgolion, canolfannau cymunedol
- tymheredd eithafol yn achosi toriadau pŵer neu'n effeithio ar ffyrdd a'n gwasanaethau band eang

Thema Allweddol Gwydn 1 – Gwarchod yr amgylchedd naturiol a bioamrywiaeth gan greu gwydnwch

Pam bod hyn yn bwysig:

5.4 Mae llawer o ardaloedd a nodweddion tirwedd Cymru yn brin, unigryw a gwerthfawr. Mae ein hamgylchedd naturiol a'n hadnoddau naturiol yn darparu ein hangenion sylfaenol i ni. Maent yn darparu aer a dŵr glân; yn helpu i'n diogelu rhag llifogydd; darparu bwyd, pren a mwynau i ni a thirwedd y gall trigolion ac ymwelwyr ei fwynhau.

5.5 Mae amgylchedd iach, gwydn yn creu'r amodau ar gyfer cymdeithas gynaliadwy a llewyrchus. Fodd bynnag, dengys tystiolaeth bod ein hamgylchedd naturiol yn parhau i gael ei rhoi dan bwysau gan amrywiaeth o ffynonellau megis newid yn yr

hisnawdd, plaon a chlefydau newydd, llygredd, gorddefnydd a pwysau am ddatblygiadau newydd.

5.6 Gallwn helpu sicrhau bod yr ardal yn addas ar gyfer y dyfodol trwy sicrhau bod ein hamgylchedd mor wydn ag y bo modd fel y gall ymdopi'n wella â'r pwysau presennol ac yn y dyfodol.

5.7 Gall cynefinoedd mawndir chwarae rôl bwysig wrth reoli dŵr, trwy arafu dŵr llifogydd a lleihau'r perygl llifogydd i lawr yr afon yn naturiol. Trwy ryddhau dŵr yn araf yn ystod cyfnodau sych, mae mandiroedd yn helpu i leihau effaith sychder ar gyflenwadau dŵr ac ar lif afonydd a ffrydiau. Mae mawn i'w ganfod mewn pedair prif ardal ar draws y Fwrdeistref Sirol.

5.8 Gall ein profiad a'n rhyngweithio â'r tirwedd gael effaith gadarnhaol ar ein iechyd a'n lles. Mae tirweddau deniadol, harddwch naturiol, treftadaeth ddiwylliannol a distawrwydd yn darparu cyfleoedd a buddiannau ar gyfer cymunedau iach, hamdden, twristiaeth a gweithgarwch economaidd.

5.9 Mae cerdded a beicio yn medru chwarae rôl allweddol yn gwasanaethu anghenion cludiant lleol a mynd i'r afael â phroblemau tagfeydd, llygredd a newid yn yr hinsawdd sy'n gysylltiedig â dibyniaeth ar geir, yn ogystal â bod o fudd i iechyd. Mae'r hyn sy'n cael ei nodi weithiau fel 'teithiau bob dydd' i'r gwaith ar droed neu ar feic yn costio llai ac yn helpu i gadw pobl yn heini, yn ogystal â rhoi boddhad. Cyfeirir at y math yma o siwrne fel 'teithio llesol'.

<u>Yr hyn rydym ni'n ei wybod:</u>

5.10 Mae'r sir yn drefol/diwydiannol yn bennaf o'i gymharu â salw ardal yng Nghymru, wedi'i nodweddu gan ardaloedd bychan o goetiroedd fferm ac ystadau gwledig mwy o faint. Mae coetiroedd yn gorchuddio 9.4% o'r sir – sydd gryn dipyn yn is na chyfartaledd Cymru, 14%. Mae coed trefol yn bwysig yn Wrecsam ac mae prosiectau, fel un ym Mharc Caia, wedi ennyn diddordeb a chynnwys y gymuned mewn plannu coed.

5.11 Mae'r problemau yn cynnwys pwysau cymdeithasol – megis beiciau modur oddi ar y ffordd ac ymddygiad gwrthgymdeithasol; gollwng sbwriel yn anghyfreithlon; pwysau gan ddatblygwyr a diffyg tir ar gael ar gyfer plannu coetiroedd newydd.

5.12 Mae gan yr ardal dirwedd amrywiol sy'n amrywio o ddyffrynoedd tir isel i lwyfandiroedd ucheldir. Mae nifer o dirweddau eithriadol yn yr ardal yn cynnwys Castell y Waun ac Erddig yn ogystal â dyffryn Glyn Ceiriog a Chorsydd Fenn, Whixall a Bettisfield. Mae llawer o fannau gwyrdd yn cynnwys saith parc gwledig, dwy Warchodfa Natur Genedlaethol ac 20 Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig.

5.13 Mae'r problemau yn cynnwys mynediad i fanau gwyrdd o drefi a phentrefi gan fod angen defnyddio car i gyrraedd nifer o'r rhai a enwir uchod. Mae cyfleoedd trwy'r sir i wella'r mynediad i fannau gwyrch yn agosach at lle mae pobl yn byw a gweithio.

<u>Yr hyn rydych chi wedi'i ddweud wrthym ni:</u>

5.14 Yn yr ymgynghoriad ‘Y Wrecsam a ddymunwn’ gwnaed nifer o sylwadau yn nodi yn dylid buddsoddi/cadw parciau, ardaloedd chwarae a gwagleoedd gwyrdd a gwnaed nifer o sylwadau y dylai fod gwell llwybrau ar gyfer beicwyr a cherddwyr.

Thema allweddol Yn gyfrifol yn fyd-eang 2 - Newid yn yr hinsawdd a lleihau allyriadau carbon

Pam mae hyn yn bwysig:

5.15 Daeth Strategaeth Hinsawdd Cymru 2010 i'r casgliad bod: “heb ostyngiadau, radical a pharhaus ar unwaith mewn allyriadau nwyon tŷ gwydr byd-eang, bydd canlyniadau difrifol i gymdeithas ddynol, yn ogystal â'r bioamrywiaeth ac ecosystemau sy'n darparu gwasanaethau hanfodol i fywoliaeth ddynol. Ar ben hynny, mae dadansoddiad economaidd yn awgrymu y bydd camau nawr yn lleihau costau o leihau allyriadau yn y dyfodol yn sylweddol. O ran addasu i effeithiau'r hinsawdd yn y dyfodol hefyd, gorau po gyntaf y byddwn yn dechrau paratoi, trwy ddeall pa mor ddiamddiffyn ydym a meithrin ein gallu i addasu, y gorau y byddwn wedi’n harfogi'n i ymateb yn briodol.”

5.16 Mae Llywodraeth y DU wedi gosod targedau i leihau allyriadau carbon o 34% erbyn 2020 ac 80% erbyn 2050 (yn erbyn llinell sylfaen 1990) fel rhan o Ddeddf Newid yn yr Hinsawdd 2008. Mae'r rhain yn dargedau heriol iawn ar gyfer lleihau allyriadau carbon ac yn berthnasol i gyrff domestig, masnachol a’r sector cyhoeddus. Fel y cyfryw, pennodd Llywodraeth Cymru darged i leihau 3% o flwyddyn i flwyddyn, gyda disgwyl i’r sector cyhoeddus arwain trwy esiampl.

5.17 Er bod gan y sector cyhoeddus ei hun allyriadau CO2 cymharol isel (dim ond tua 2% o gyfanswm y DU), nid yw ei rôl yn golygu lleihau ôl troed carbon o fewn ei sefydliad yn unig, ond arwain drwy esiampl a chynorthwyo’r gymuned ehangach i newid ei ymddygiad.

5.18 Mae ynni adnewyddadwy yn unrhyw ffynhonnell o ynni sy'n digwydd yn naturiol ac nid yw'n ddisbyddadwy, megis gwynt, solar, llanw a phŵer hydro. Yn ogystal â lleihau dibyniaeth ar danwydd ffosil a darparu pŵer glanach, mae datblygu ffynonellau ynni adnewyddadwy ar gyfer cynhyrchu trydan yn angenrheidiol er mwyn cwrdd â thargedau UE a Llywodraeth y DU ar allyriadau nwyon tŷ gwydr, ac i sicrhau diogelwch tanwydd.

Beth ydym yn ei wybod:

5.19 Mae'r DU yn defnyddio 17% yn llai o ynni nag yr oedd yn 1998, ac mae mwy o’r ynni a ddefnyddiwn yn dod o ffynonellau adnewyddadwy. Ar yr un pryd, mae canran yr ynni sy’n dod o ffynonellau adnewyddadwy a gwastraff (megis gwynt, pŵer hydro a biomas) wedi codi o 1% o gyfanswm defnydd ynni y DU i 9%. Fodd bynnag, mae'r dirywiad mewn cynhyrchu olew a nwy Môr y Gogledd wedi golygu bod y DU wedi dod yn fwyfwy dibynnol ar fewnforio ynni. Mae holl wledydd yr UE yn fewnforwyr net o ynni ar hyn o bryd.

5.20 Mae'r camau gweithredu a gymerodd y Cyngor i leihau allyriadau carbon yn ei stoc tai wedi arwain at 10.7% o ostyngiad mewn allyriadau carbon rhwng 2014/15 a 2015/16. Cafwyd gostyngiadau hefyd mewn allyriadau o adeiladau annomestig y Cyngor.

Beth rydych wedi'i ddweud wrthym:

5.21 Yn ymgynghoriad 'Y Wrecsam a Garwn', gwnaed ychydig o sylw'n datgan y dylid bod yn gyfeillgar i'r amgylchedd.

Thema Allweddol Gwydn 3 – Gwarchod rhag llifogydd

Pam bod hyn yn bwysig:

5.22 Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn gyfrifol am reoli perygl llifogydd o'r môr a phrif afonydd.

5.23 Disgwylir y bydd newid yn yr hinsawdd yn cynyddu llifogydd afonydd, achosi lefel y môr i godi a chreu risg erydu arfordirol. Awgrymodd adroddiad 'Foresight Future Flooding' yn 2004 y bydd y difrod economaidd blynyddol yng Nghymru yn cynyddu o £70 miliwn yn 2004 i £1,235 miliwn yn y 2080au dan yr amgylchiadau mwyaf tebygol. Mae atal llifogydd bellach yn uchel ar yr agenda wleidyddol genedlaethol, a chyda gwyddonwyr yn rhagfynegi mwy o ddigwyddiadau tywydd eithafol o'r fath yn y dyfodol o ganlyniad i newid yn yr hinsawdd, mae hyn yn parhau'n faes pryder allweddol i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

Yr hyn rydym ni'n ei wybod:

5.24 Yn sir Wrecsam mae 1,610 o eiddo mewn perygl ac mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn darparu gwasanaeth rhybudd uniongyrchol i 537 eiddo mewn tair ardal yn yr ardal llifogydd eithafol. Golyga hyn nad yw'r holl eiddo yn yr ardaloedd hyn wedi cofrestru ar gyfer y Gwasanaeth Rhybudd Llifogydd.

5.25 Mae gan Cyfoeth Naturiol Cymru un ased sy'n ddiffygiol yn Wrecsam y bydd angen buddsoddiad cyfalaf ynddo. Defnyddiwyd dull wedi'i seilio ar risg llifogydd, gan flaenoriaethu pobl ac eiddo, o ran rheoli gwaith trwsio a gwella asedau. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn ymchwilio i gyfleoedd gwella llifogydd ar hyn o bryd mewn un ardal sy'n uchel ar y gofrestr cymunedau mewn perygl.

5.26 Yn Asesiad Perygl Llifogydd Cychwynnol Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam 2011 nodwyd bod 200 o gartrefi, 20 o fusnesau ac un seilwaith hanfodol bwysig yn wynebu risg. Mae pryderon hefyd am ardaloedd Ystad Ddiwydiannol Llai, Ystad Ddiwydiannol Wrecsam a phentrefi trefol Gwersyllt, Rhosllanerchrugog, Rhiwabon, Coedpoeth, Cefn Mawr, Acrefair, Y Waun a Glyn Ceiriog yn Nyffryn Ceiriog.

5.27 Mae'r prif ffynonellau risg llifogydd yn ardal Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn cynnwys llifogydd afonydd, llifogydd dŵr arwyneb a pheth llifogydd carthffosydd, dŵr daear a chyrsiau dŵr cyffredin. Mae llifogydd wedi digwydd mewn nifer o leoliadau yn ardal Rheoli Llifogydd Dalgylch Afon Dyfrdwy, yn bennaf o'r brif Afon Dyfrydwy a'i phrif lednentydd ond hefyd o nifer o gyrsiau dŵr llai hefyd. Cofnodwyd llifogydd arwyddocaol yn 1890, 1946 a 2000. Roedd y llifogydd yn eang ar draws y dalgylch yn 2000, i fannau nad oeddynt erioedd wedi dioddef llifogydd yn flaenorol. Roedd y lleoliadau a effeithiwyd yn cynnwys yr Orsedd, Holt, Wrecsam, Coedpoeth a Rhosllanerchrugog.

Yr hyn rydych chi wedi'i ddweud wrthym ni:

5.28 Ar hyn o bryd rydym yn chwilio am adborth o ymgynghoriadau a allai fod wedi digwydd ar y thema hon. Bydd unrhyw wybodaeth y byddwn yn dod o hyd iddo yn cael ei gynnwys yn yr asesiad terfynol.

Thema Allweddol Gwydn 4 – Cefnogi'r economi wledig

Pam bod hyn yn bwysig:

5.29 Mae ffermwyr yn tyfu'r cynhwysion crai sy'n sylfaen i gadwyn cyflenwi bwyd y Deyrnas Unedig, p'un ai'n darparu cynnyrch ar gyfer y farchnad organig leol neu'r archfarchnadoedd mawr. Mae eu cnydau a'u da byw yn cyfrannu at ein diogeledd bwyd lleol a chenedlaethol, yn ogystal â darparu nwyddau i'w hallforio. Mae cynnyrch o ffynonellau lleol yn cyflenwi llawer o'n cynhyrchwyr bwyd a bwytai sy'n bwysig i'r economi ehangach. Mae economi fwyd ffyniannus hefyd yn helpu i gefnogi a hyrwyddo mentrau bwyta'n iach.

5.30 Mae cynllunio olyniaeth yn parhau'n fater pwysig i'r sector. Yn draddodiadol byddai ffermydd a'r gwaith cysylltiedig yn y sector yn trosglwyddo o rieni i'w plant, ond yn ystod y blynyddoedd diweddar mae'r cenedlaethau iau wedi tueddu dilyn dewisiadau gyrfa eraill. Mae hyn yn rhannol oherwydd disgwyliadau'n newid, ond hefyd mewn ymateb i economi genedlaethol sy'n newid, sy'n gwneud ffermio'n llai proffidiol nag yn ystod cenedlaethau blaenorol.

Yr hyn rydym ni'n ei wybod:

5.31 Mae ffermwyr yn rheoli mwy na 75% o gyfanswm y tir yn Wrecsam, gyda'r ffermwr cyfartalog yn treulio pythefnos a hanner y flwyddyn yn cynnal gwrychoedd a waliau. Mae rheoli tir amaethyddol, tir comin, fforestydd, cyrsiau dwr a thirweddau eraill gan ffermwyr a gweithwyr amaethyddol yn medru cyfrannu at dargedau amgylcheddol, ac yn cynorthwyo i gynnal cefn gwlad fel ysgyfaint y Deyrnas Unedig.

5.32 Mae'r cysylltiadau rhwng ffermio a thwristiaeth yn gryf iawn. Mae llawer o'n hardaloedd o harddwch naturiol eithriadol yn cael eu cynnal a'u rheoli gan ein ffermwyr, ac maent yn rhan fawr o fod yn gyfrifol am ddenu bron i 2 filiwn o ymwelwyr i Wrecsam bob blwyddyn.

5.33 Mae amaethyddiaeth, coedwigaeth a physgota yn gyfrifol am 9% o'r holl fusnesau wedi cofrestru ar gyfer Treth ar Werth a Thalu wrth Ennill yn Wrecsam. Er bod cyfanswm y nifer sy'n gweithio mewn amaethyddiaeth wedi cynyddu ychydig rhwng 2003 a 2013 (o 1,501 i 1,531), mae nifer y ffermwyr amser llawn wedi gostwng bron i 100. Mae hyn wedi'i gydbwyso gan gynnydd cymharol yn nifer y gweithwyr amaethyddol achlysurol, sy'n awgrymu newid arwyddocaol yn sicrwydd cyflogaeth yn y sector amaethyddol, a newid tebygol mewn tenantiaeth/perchnogaeth tir amaethyddol.

5.34 Mae effaith y bleidlais i adael yr Undeb Ewropeaidd ar yr economi wledig yn meddu ar y potensial i fod yn arwyddocaol iawn. Ar hyn o bryd mae sector amaethyddol Wrecsam yn derbyn miliynau o bunnoedd y flwyddyn mewn taliadau uniongyrchol fel rhan o Bolisi Amaeth Cyffredin yr Undeb Ewropeaidd, ac mae ardaloedd gwledig yn elwa o raglenni a mentrau cyllid eraill yr Undeb Ewropeaidd hefyd. Nid yw'n hysbys eto beth fydd dyfodol y cymorthdaliadau hyn.

<u>Yr hyn rydych chi wedi'i ddweud wrthym ni:</u>

5.35 Ar hyn o bryd rydym yn chwilio am adborth o ymgynghoriadau a allai fod wedi digwydd ar y thema hon. Bydd unrhyw wybodaeth y byddwn yn dod o hyd iddo yn cael ei gynnwys yn yr asesiad terfynol.

6 Nod Llesiant 3 – Iachach

Cyflwyniad i'r nod hwn

6.1 Mae iachach yn ymwneud â chael cymdeithas lle mae lles corfforol a meddyliol pobl yn cael ei uchafu a lle mae dewisiadau ac ymddygiadau o fudd i iechyd yn y dyfodol yn ddealledig.

Thema Allweddol Iachach 1 – Rhoi'r dechrau gorau i bob plentyn

Pam bod hyn yn bwysig:

6.2 Yn ei dogfen strategaeth iechyd cyhoeddus, 'Ein Dyfodol Iach', mae Llywodraeth Cymru yn datgan: "Gosodir sylfeini iechyd da yn ystod beichiogrwydd a babandod ac adeiledir arnynt yn ystod plentyndod. Dywedir bod nifer o ffactorau risg, fel mamau'n ysmygu ac yn peidio â bwyta'n iach tra byddant yn feichiog, tlodi mewn plentyndod, cyrhaeddiad addysgol isel a phlant yn cael eu hesgeuluso neu eu gwrthod gan eu teuluoedd, yn amharu ar iechyd a lles yn y tymor byr a thrwy gydol oes. Ar y llaw arall, dywedir bod ffactorau amddiffynnol, fel teulu cefnogol, yn cael effaith dda ar iechyd a lles. Felly, er mwyn symud ymlaen â'r agenda hon, rhoddir lle canolog i fynd i'r afael yn ystod y blynyddoedd cynnar â ffactorau risg a all amharu ar iechyd a lles gydol oes, a helpu plant i ddygymod ag adfyd."

6.3 Gall beichiogrwydd fod yn ddewis bywyd cadarnhaol i lawer o ferched ifanc yn eu harddegau, fodd bynnag, nid yw wedi ei gynllunio yn achos llawer a gall fod yn gysylltiedig â chanlyniadau iechyd negyddol i'r fam a'r babi. Mae mamau ifanc yn fwy tebygol o ddioddef o iselder ôl-eni ac yn llai tebygol o gwblhau eu haddysg. Mae plant wedi'u geni i rieni yn eu harddegau yn llai tebygol o gael eu bwydo o'r fron, yn fwy tebygol o fyw mewn tlodi ac yn ddwywaith fwy tebygol o fod yn rieni yn eu harddegau eu hunain. Gall darpariaeth addysg rhyw a pherthnasoedd mewn ysgolion gael effaith cadarnhaol o ran ymddygiad iechyd rhywiol, yn cynnwys oedi gweithgarwch rhywiol, lleihau nifer y partneriaid a chynyddu gwybodaeth am ddulliau atal cenhedlu a lle maent ar gael.

6.4 Mae babis sy'n pwyso llai na 2.5 kg ar adeg eu geni yn cael eu hystyried yn fabis pwysau geni isel. Mae'r babanod hyn yn wynebu mwy o risg o ddioddef problemau iechyd mewn plentyndod ac, yn benodol, ddatblygiad eu sgiliau gwybyddol. Mae hefyd yn berthynol i salwch fel oedolyn, megis diabetes, strôc a chlefyd yr ysgyfaint. Fodd bynnag, mae effeithiau iechyd a chymdeithasol ar fabis pwysau geni isel hefyd yn dibynnu ar y rheswm am y pwysau geni isel a chyfleoedd bywyd eraill y babi. Y ffactor risg mwyaf ar gyfer pwysau geni isel yw dod i gysylltiad â thybaco yn ystod beichiogrwydd (y fam yn ysmygu a mwg ail law). Risgiau eraill yw camddefnyddio cyffuriau, diet, iechyd rhywiol a mynediad màs corff isel y fam.

6.5 Y prif bryderon iechyd yn ystod dwy flynedd gyntaf bywyd yw bwydo o'r fron, imiwneiddio a iechyd meddwl y fam.

6.6 Mae bwydo o'r fron yn diogelu iechyd mamau a babis ac mae babis sy'n cael eu bwydo o'r fron yn llai tebygol o orfod mynd i'r ysbyty oherwydd haint, ac yn fwy tebygol o dyfu gyda phwysau iach a heb alergeddau. Mae oedran mamol isel, cyrhaeddiad addysgol isel a sefyllfa cymdeithasol economaidd isel oll yn cael effaith cryf ar batrymau bwydo babanod.

6.7 Imiwneiddio – dull wedi'i brofi o reoli a chael gwared ar glefydau heintus sy'n peryglu bywyd. Dyma un o'r ymyriadau iechyd mwyaf cost effeithiol. Mae'n brif ystyriaeth iechyd am 1,000 diwrnod cyntaf bywyd plentyn.

6.8 Mae iechyd meddwl y fam yn cael effaith ar y plentyn yn ystod ac ar ôl beichiogrwydd. Os yw'r fam yn bryderus neu dan straen tra'n feichiog, mae'r plentyn yn fwy tebygol o fod yn bryderus. Mae gwaeledd iechyd meddwl yn effeithio ar y gallu i ddarparu rhianta cadarnhaol, ac mae'n arbennig o bwysig yn ystod dwy flynedd gyntaf bywyd pan fo cysylltiadau'n ffurfio a datblygiad yr ymennydd ar ei gyflymaf.

6.9 Defnyddir derbyniadau i'r adran frys oherwydd anafiadau fel dangosydd cyffredinol iechyd ac anghydraddoldeb iechyd. Mae anafiadau yn brif achos marwolaeth ac anabledd ymhlith plant, ac yn rhoi baich sylweddol ar unigolion, teuluoedd, gwasanaethau iechyd a'r gymdeithas ehangach. Mae'r grŵp oedran 0-4 oed yn arbennig o agored i anafiadau yn amgylchedd y cartref.

6.10 Er gwaethaf y ffaith y gellir ei atal i raddau helaeth, pydredd danned yw prif glefyd y geg mewn plentyndod cynnar. Mae cysylltiad cryf rhwng pydredd dannedd mewn plant ifanc ac amddifadedd ac mae'n arwain at boen a haint yn aml, sy'n ei gwneud yn ofynnol mynd i'r ysbyty i dynnu dannedd dan anethsetig cyffredinol, yn ogystal â bod yn boenus.

6.11 Yn fyd-eang mae corff cynyddol o dystiolaeth sy'n edrych ar sut y gall profiadau yn ystod plentyndod gael effaith tymor hir ar iechyd. Mae profiadau achosi straen cronig, sy'n cael eu galw'n brofiadau plentyndod andwyol, yn medru digwydd yn uniongyrchol i'r plentyn neu gall y plentyn fod yn dyst iddynt yn y teulu. Maent yn cynnwys: cam-drin geiriol; cam-drin corfforol; cam-drin rhywiol; rhieni'n gwahanu; trais yn y cartref; salwch meddwl; cam-drin alcohol; defnyddio cyffuriau a bod yn y carchar.

6.12 Gall dod i gysylltiad â'r rhain roi unigolion ar lwybr bywyd sy'n niweidio iechyd; gan gynyddu eu risg o ysmygu, goryfed, diet gwael, lefelau isel o ymarfer corff ac ymddygiad rhywiol peryglus. Gall ymddygiad o'r fath arwain at waeledd iechyd cynnar trwy gynnydd yn y risg o glefydau anhrosglwyddadwy fel diabetes, clefyd y galon a chanser. Gall yr un elfennau straen cronig mewn plentyndod cynnar arwain at i unigolion ddatblygu ymddygiad gwrthgymdeithasol, yn cynnwys tueddiad i fod

yn ymosodol a threisgar, ac arwain at broblemau gyda'r gwasanaethau cyfiawnder troseddol yn y pen draw.

Yr hyn rydym ni'n ei wybod:

6.13 Mae beichiogrwydd ymhlith merched yn eu harddegau yn Wrecsam ychydig yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol, ond yn tueddu newid o flwyddyn i flwyddyn oherwydd niferoedd cymharol fach. Mae'r data cyhoeddedig ddwy flynedd ar ei hôl hi, ond yn dangos bod y cyfraddau beichiogrwydd ymhlith merched yn eu harddegau yn 2014 yn 26.7 am bob 1,000 o ferched 15-17 oed. Mae hyn yn cymharu â chyfradd Cymru gyfan o 25.4. Yn 2014 roedd 59 cenhedliad ymhlith merched ifanc dan 18 oed a 24 genedigaeth i famau yn yr un grŵp oedran. Bu tueddiad ar i lawr yn gyffredinol yn ystod yr ugain mlynedd ddiwethaf.

6.14 Mae canran y babis newydd anedig sydd dan bwysau yn uwch yn Wrecsam nag ar gyfer yr awdurdod iechyd lleol a Chymru gyfan. Yn 2014 roedd 142 o fabis pwysau geni isel yn Wrecsam, 8.9% o'r holl enedigaethau byw (Cymru = 6.7%). Mae babis sy'n cael eu geni i deuluoedd dan anfantais yn fwy tebygol o gael eu geni yn gynnar ac o dan bwysau, ac weithiau defnyddir pwysau geni isel fel mesur cyffredinol tlodi mewn cymuned. Lleihau pwysau geni isel oedd un o'r amcanion a nodwyd gan Lywodraeth Cymru i fesur cynnydd lleol yn erbyn targedau tlodi plant.

6.15 Mae'r gyfradd derbyn yr imiwneiddio sylfaenol 5 mewn 1 (erbyn 1 oed) yn 97.7% yn Wrecsam. Mae ffigur Cymru yn 96.8%. Mae hyn wedi lleihau ychydig ers 2013/14 (o 97.8% i 97.7%).

6.16 Mae'r gyfradd derbyn imiwneiddio niwmococol erbyn 1 oed yn 97.5%. Ffigur Cymru yw 96.6%. Erbyn pedair oed mae 91% o'r holl blant wedi cael yr imiwneiddiadau disgwyliedig yn Wrecsam. Mae hyn yn well na chyfartaledd Cymru o 86%, ond dipyn is na'r gyfradd darged o 95%.

6.17 Mae nifer y derbyniadau i unedau brys ysbyty oherwydd anafiadau i blant 0-4 oed yn Wrecsam yn 110 am bob 10,000. Cyfartaledd Cymru yw 177 am bob 10,000.

6.18 Mae Wrecsam wedi gweld lleihad bach yn nifer y dannedd wedi pydru, ar goll neu wedi'u llenwi ymhlith plant 5 oed, o 1.8 yn 2007/08 i 1.7 yn 2011/12. Cyfartaledd Cymru yn 2011/12 oedd 1.6 dant.

Yr hyn rydych chi wedi'i ddweud wrthym ni:

6.19 Ar hyn o bryd rydym yn chwilio am adborth o ymgynghoriadau a allai fod wedi digwydd ar y thema hon. Bydd unrhyw wybodaeth y byddwn yn dod o hyd iddo yn cael ei gynnwys yn yr asesiad terfynol.

Thema Allweddol Iachach 2 – Pobl yn gwneud dewisiadau ffordd o fyw iach

Pam bod hyn yn bwysig:

6.20 Annhegwch iechyd yw anghydraddoldebau iechyd y gellid eu hosgoi ymhlith grwpiau o bobl. Yn ei strategaeth 'Ein Dyfodol Iach' mae Llywodraeth Cymru yn datgan, lle y gellid osgoi gwahaniaethu o'r fath, mae'n annheg ac yn anfoesol eu goddef. Mae hybu ffordd o fyw iach yn helpu i leihau annhegwch iechyd.

6.21 Yn rhyngwladol amcangyfrifir bod alcohol yn arwain at tua 3.3. miliwn marwolaeth y flwyddyn, sy'n deillio o 200 o glefydau a chyflyrau yn gysylltiedig ag anafiadau wedi eu hachosi yn gyfangwbl neu'n rhannol gan alcohol. Mae rhai astudiaethau hefyd yn awgrymu y gall y tebygolrwydd o ordewdra fod yn uwch mewn pobl sy'n goryfed mewn pyliau a'r rhai sy'n yfed yn drwm nag mewn pobl eraill, ond gallai hynny fod oherwydd ymddygiad andwyol yn cynnwys diet gwael, diffyg rheoli pwysau'r corff, anfodlonrwydd â'r corff a ffordd o fyw eisteddog gymaint â'r mewniad caloriau o alcohol.

6.22 Mae atal ymddygiad sy'n niweidiol i iechyd a hybu ymddygiad iach yn flaenoriaeth. Fodd bynnag, mae angen darparu cymorth i'r rhai â ffordd o fyw afiach, yn enwedig gordewdra a chamddefnyddio alcohol.

Yr hyn rydym ni'n ei wybod:

6.23 Mae tua 59% o oedolion yn Wrecsam dros eu pwysau neu'n ordew (lefel Cymru yw 57.8%) – mae hyn wedi codi o 58% ers 2003/04.

6.24 Mae 19% o oedolion yn Wrecsam yn ysmygu (o'i gymharu â 21% yng Nghymru) – mae hyn wedi gostwng ers 2003/04.

6.25 Mae 31% o'r boblogaeth oedolion yn Wrecsam yn bodloni'r canllawiau gweithgarwch corfforol a argymhellir, sef pum sesiwn o ymarfer corff 30 munud o hyd bob wythnos, sydd ychydig yn uwch na chyfartaledd Cymru o 30%.

6.26 Mae 35% o oedolion yn Wrecsam yn dweud eu bod yn bwyta'r 5 dogn ffrwythau neu lysiau y dydd a argymhellir (sy'n uwch na chyfartaledd Cymru o 32%) – mae hyn wedi codi ychydig yn ystod y pum mlynedd ddiwethaf.

6.27 Roedd cyfanswm yr atgyfeiriadau at wasanaethau iechyd oherwydd gam-drin sylweddau (pob math) yn bron i 1,600 yn 2014/15. Roedd hyn yn rhoi cyfradd atgyfeirio 1,165 am bob 100,000 yn Wrecsam, o'i gymharu â chyfartaledd Cymru o 822. Mae Wrecsam yn yr ail safle yng Nghymru, er y cydnabyddir nad yw hyn yn adlewyrchu y nifer fawr o bobl nad ydynt yn cyflwyno eu hunain i'r gwasanaeth iechyd.

6.28 Mae'r pryderon mwyaf am gam-drin sylweddau yn gysylltiedig ag alcohol. Mae gan Wrecsam gyfradd uchel o ran derbyniadau i'r ysbyty sy'n ymwneud yn benodol ag alcohol, gyda chyfradd wedi'i safoni yn ôl oedran o 366 derbyniad i'r ysbyty am bob 100,000 o boblogaeth yn 2014/15. Mae hyn yn ei gosod yn 11 yng Nghymru, ac

mae'n uwch na chyfartaledd Cymru 0 333 derbyniad i'r ysbyty. Adroddodd 42% o oedolion yn byw yn Wrecsam eu bod yn yfed mwy na'r canllawiau a argymhellir o leiaf unwaith bob wythnos, ac adroddodd 24% eu bod yn yfed mewn pyliau o leiaf unwaith yn ystod yr wythnos ddiwethaf. Mae diffyg data ynghylch amlder yfed alcohol ymhlith plant a phobl ifanc. Yn ogystal, gall yfed alcohol a chymryd cyffuriau fod yn ffactorau sy'n cyfrannu at dueddiad o anaf neu farwolaeth yn sgil tanau yn y cartref. Mae llawer o sylweddau yn effeithio ar allu pobl i farnu ac ymateb i berygl – er enghraifft, gall coginio ar ôl yfed alcohol fod yn risg penodol. Mae alcohol yn ymyrryd gydag ymateb arferol unigolyn, yn amharu ar farn, yn lleihau canfyddiad, a phan gaiff gormod o alcohol ei yfed, gall arwain at fod yn anymwybodol. Gall meddyginiaeth neu gyffuriau anghyfreithlon gael effeithiau tebyg, a gall cyfuniad o gyffuriau ac alcohol olygu bod pobl yn arbennig o ddiamddiffyn.

Yr hyn rydych chi wedi'i ddweud wrthym ni:

6.29 Yn yr ymgynghoriad 'Beth sy'n bwysig i chi?' roedd 'Annog pobl i ddilyn ffordd o fyw iach' yn flaeoriaeth cymharol isel, gan fod pwysigrwydd y deilliant hwn yn gymharol isel, a lefel y boddhad yng nghyswllt y deillant hwn yn agosach at ateb y lefel pwysigrwydd. Roedd y negeseuon allweddol o'r sylwadau a dderbyniwyd mewn perthynas â'r deilliant hwn yn rhanedig, gyda rhai'n teimlo bod 'annog a chefnogi pobl i fod yn iach yn wasanaeth ataliol pwysig', ac eraill yn awgrymu y dylai 'pobl fod yn gwneud mwy drostynt eu hunain.'

6.30 Nodwyd 'Cael mwy o wasanaethau iechyd a gwasanaethau iechyd meddwl' a 'mwy o gefnogaeth i bobl ifanc sy'n delio â hunan niweidio' yn faterion pwysig i bobl ifanc, yn ogystal â 'chael mwy o wybodaeth ar sut y gall pobl ifanc reoli eu hiechyd eu hunain.'

6.31 Yn yr ymgynghoriad 'Y Wrecsam a ddymunwn' gwnaed ychydig sylwadau yn nodi y dylid cael mwy o waith ataliol a mwy o weithgareddau/cyfleoedd i fod yn iach.

Thema Allweddol Iachach 3 – Mynd i'r afael â gordewdra (yn cynnwys gordewdra mewn plentyndod)

Pam bod hyn yn bwysig:

6.32 Mae ymchwil wedi awgrymu bod gordewdra neu bod dros bwysau mewn plentyndod yn gysylltiedig â risgiau iechyd corfforol ac iechyd meddwl tymor hir ar unwaith. Gall risgiau iechyd meddwl ddeillio o ddiffyg boddhad gyda'r corff, gwahaniaethu cymdeithasol, hunan barch isel ac ansawdd bywyd isel. Mae plant gordew yn nodi bod eu lles personol yn isel, oherwydd problemau fel bwlio yn yr ysgol, blinder ac anawsterau gwneud gweithgareddau corfforol. Awgrymodd Rhaglen Rhagweld Llywodraeth y Deyrnas Unedig y gallai 25% o'r holl blant dan 16 oed fod yn ordew erbyn 2050.

6.33 Mae gordewdra yn lleihau disgwyliad oes 3 i 10 mlynedd ar gyfartaledd, yn dibynnu pa mor ddifrifol yw'r gordewdra. Mae gordewdra yna tueddu bod yn fater iechyd anghydradd yn gymdeithasol, sy'n effeithio grwpiau cymdeithasol economaidd is yn anghyfrannol – ac os nad yw'n cael ei herio bydd yn cynyddu anghydraddoldebau iechyd.

6.34 Yn ogystal ag achosi newidiadau ffisegol i'r corff sy'n effeithio ar ffitrwydd a symudedd cyffredinol, mae bod yn ordew neu dros bwysau yn cynyddu'r tebygolrwydd o ddioddef salwch sy'n bygwth bywyd megis diabetes math 2, clefyd coronaidd y galon, rhai canserau (er enghraifft, canser y fron a chanser y coluddyn), asthma, pwysedd gwaed uchel, lefel colestrol uchel a strôc. Gall gordewdra effeithio ar ansawdd bywyd hefyd ac arwain at broblemau seicolegol, fel iselder ysbryd a hunan barch isel. Mae hyn oll yn arwain at bwysau cynyddol ar wasanaethau iechyd a gofal.

Yr hyn rydym ni'n ei wybod:

6.35 Canfuwyd bod 27.4% o blant 4-5 oed yn Wrecsam yn ordew neu dros bwysau – cyfanswm o tua 443 o blant. Roedd hyn yn uwch na chyfartaledd Cymru gyfan o 26.2% (Lloegr = 21.9%). O blith y rhain roedd 186 (11.5% o'r holl blant) yn ordew a 257 (15.9%) dros eu pwysau ond nid yr ordew. (Cymru = 11.6% gordew, 14.5% dros bwysau ond nid yr ordew). Mae bechgyn 4-5 oed yn Wrecsam yn fwy tebygol o fod yn ordew neu dros bwysau na merched o'r un oedran. Mae lefelau gordewdra wedi lleihau ychydig, ond wedi codi ychydig o ran y rhai sydd dros bwysau ond nid yn ordew – roedd 13.7% o blant 4-5 oed dros eu pwysau yn 2011-12, a 12.9% yn ordew (26.7% yn gyfun).

6.36 Mae 59.0% o oedolion yn ordew neu dros bwysau yn Wrecsam. Mae hyn yn cymharu â 57.8% fel cyfartaledd Cymru (Lloegr = 60.5%). Er gwaethaf ymgyrchu gweithgar i hybu ffordd o fyw iach gan y sector cyhoeddus a'i bartneriaid yng Nghymru mae cyfran yr oedolion sydd dros eu pwysau neu'n ordew dal wedi cynyddu dros y ddegawd ddiwethaf – o 58.0%.

Yr hyn rydych chi wedi'i ddweud wrthym ni:

6.37 Ar hyn o bryd rydym yn chwilio am adborth o ymgynghoriadau a allai fod wedi digwydd ar y thema hon. Bydd unrhyw wybodaeth y byddwn yn dod o hyd iddo yn cael ei gynnwys yn yr asesiad terfynol.

Thema Allweddol Iachach 4 – Cefnogi'r rhai ag iechyd meddwl gwael

Pam bod hyn yn bwysig:

6.38 Mae Sefydliad Iechyd y Byd (2014) wedi diffinio iechyd meddwl fel 'cyflwr lles lle mae pob unigolyn yn gwireddu ei botensial, yn medru ymdopi â straen arferol bywyd, yn medru gweithio'n gynhyrchiol a defnyddiol, ac yn medru gwneud cyfraniad i'w gymuned.'

6.39 Mae teimladau o les a boddhad gyda bywyd yn gysylltiedig ag iechyd da. Mae problemau iechyd meddwl yn amrywio o'r pryderon rydym ni oll yn eu profi fel rhan o fywyd bob dydd i gyflyrau difrifol tymor hir. Gallant ddechrau yn gymharol gynnar mewn bywyd, yn aml o ganlyniad i amddifadedd, yn cynnwys tlodi, cysylltiadau ansicr, trawma, colled neu gamdriniaeth. Mae'r ffactorau risg iechyd meddwl gwael fel oedolyn yn cynnwys diweithdra; incwm is; dyled; trais; digwyddiadau bywyd sy'n achosi straen a chartref annigonol. Gall iechyd meddwl unigolyn effeithio ar ei les corfforol.

6.40 Gellir gwella iechyd meddwl a lles unigolion trwy gynyddu gwydnwch emosiynol trwy ymyriadau wedi'u dylunio i hybu hunan hyder a hunan barch a sgiliau ymdopi â bywyd ar draws holl gyfnodau bywyd, o fabandod i henoed.

6.41 Gall diffyg cydlynu rhwng iechyd, gofal cymdeithasol a darparwyr lles eraill (e.e. tai cymdeithasol) achosi problemau cyfanswdd i ddioddefwyr, eu teulu, eu ffrindiau a'r gymuned maent yn byw ynddi, ac i ddarparwyr gwasanaethau.

6.42 Mae hunanladdiad a hunan niweidio yn arferol yn ymateb i gyfres cymhleth o ffactorau sy'n bersonol ac yn gysylltiedig â dylanwadau cymdeithasol a chymunedol ehangach. Mae'r tebygolrwydd o ddioddef y math yma o salwch meddwl yn cael ei fesur fel tebygolrwydd oes.

<u>Yr hyn rydym ni'n ei wybod:</u>

6.43 Mae Arolwg Iechyd Cymru yn adrodd ar iechyd meddwl, ac yn 2013/14 roedd y sgorau cydran iechyd meddwl ar gyfer Wrecsam yn 49.6 – ychydig bach yn well na chyfartaledd Cymru o 49.5. Mae sgôr uwch yn dynodi gwell iechyd meddwl.

6.44 Adroddodd tua 11.6% o boblogaeth Wrecsam eu bod wedi cael triniaeth am salwch meddwl. Cyfartaledd Cymru yw tua 12.1%.

6.45 Mae pumed rhan o wariant y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG) yng Nghymru ar wasanaethau iechyd meddwl. Mae cyfran fawr o'r rhai sy'n mynd i Adrannau Brys a derbyniadau cyffredinol i'r ysbyty yn gysylltiedig â phroblemau iechyd meddwl.

6.46 Mae gan Wrecsam gyfraddau hunanladdiad o 11.2 am bob 100,000 o boblogaeth, o'i gymharu â chyfartaledd Cymru o 9.2.

6.47 Mae nifer yr asesiadau hunan niweidio ar gyfer plant a phobl ifanc yng ngogledd Cymru wedi mwy na dyblu rhwng 20012/13 a 2015/16. Mae dros hanner y bobl sy'n marw trwy hunanladdiad â hanes o hunan niweidio.

6.48 Mae nifer y bobl â phroblemau iechyd meddwl yn debygol o gynyddu ar draws gogledd Cymru yn yr ugain mlynedd nesaf. Gellir defnyddio amlder o Arolwg Iechyd Cymru i ragfynegi sut y bydd cyfanswm nifer y bobl â phroblemau iechyd meddwl

cyffredin yn newid. O ran Wrecsam rhagfynegir y bydd y nifer yn cynyddu o 18,000 i 22,000 rhwng 2015 a 2035.

6.49 Gan fod iechyd meddwl gwael yn effeithio ar draws ystod mor eang o wasanaethau cyhoeddus mae angen dulliau traws asiantaeth i gynorthwyo'r rhai ag iechyd meddwl gwael. Byddai dull cydlynus yn cynorthwyo i atal pobl rhag syrthio trwy'r bylchau cymorth a all fodoli rhwng y pwyntiau sbardun ar gyfer gwahanol lefelau neu fathau o gymorth.

Yr hyn rydych chi wedi'i ddweud wrthym ni:

6.50 Ar hyn o bryd rydym yn chwilio am adborth o ymgynghoriadau a allai fod wedi digwydd ar y thema hon. Bydd unrhyw wybodaeth y byddwn yn dod o hyd iddo yn cael ei gynnwys yn yr asesiad terfynol.

Thema Allweddol Iachach 5 – Pobl yn byw mewn arunigedd a'u mynediad nhw i wasanaethau

Pam bod hyn yn bwysig:

6.51 Nodwyd arunigedd cymdeithasol ac unigrwydd fel ffactorau risg iechyd gwael (yn enwedig iechyd meddwl gwael) a llesiant is, yn cynnwys afiechyd a marwoldeb, iselder ysbryd a dirywiad gwybyddol. Mae unigrwydd yn cynyddu'r risg o bwysedd gwaed uchel, ac mae unigolion yn wynebu risg dirywio'n gorfforol hefyd.

6.52 Mae pobl hŷn sydd wedi eu harunigo'n gymdeithasol yn fwy bregus i effeithiau cymhlethol digwyddiadau heb eu rhagweld megis cwympiadau. Yn ogystal, mae pobl yn fwy tebygol o gael eu hanafu neu eu lladd gan dân os ydynt gartref ar eu pen eu hunain, gan fod hyn yn cynyddu'r perygl y gall y tân gychwyn neu ledaenu heb i neb sylwi, ac mae'n lleihau'r posibilrwydd y gall yr unigolyn ddianc yn ddianaf.

6.53 Mae hyn yn arbennig o wir am y bobl hynny sydd dros 80. Mae symudedd a synnwyr arogli gwael a llai o oddefgarwch o fwg a llosgiadau yn cyfrannu at yr anafiadau hyn. Mae'r prif bethau a allai gynnau tân yn cynnwys poptai, defnydd, canhwyllau, tanau glo, gwresogyddion a blancedi trydan. Mae gwaith atal tân a wnaed gan Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru wedi canolbwyntio ar bobl hŷn – yn benodol pensiynwyr ar eu pen eu hunain a'r henoed (y rhai oed 80+).

6.54 Mae arunigedd cymdeithasol yn broblem i blant ac oedolion sy'n ofalwyr hefyd. Awgrymir hefyd bod y rhwystrau unigrwydd ac arunigedd uwch yn waeth i ddynion, pobl sy'n byw ar eu pennau eu hunain, unigolion sydd wedi dioddef profedigaeth yn ddiweddar a'r bobl hynaf yn ein cymunedau. Gall anabledd neu salwch ysgogi unigrwydd, gan fod hyn yn newid sut mae pobl yn ymwneud â'u rhwydweithiau cymdeithasol.

6.55 Mae arunigedd yn y gymuned leol yn fater sy'n effeithio'n benodol ar y rhai sy'n hŷn, iau neu ar incwm is, a gall gyfrannu at broblemau iechyd a lles eraill. Wrth gwrs nid yw arunigedd ymhlith yr henoed wedi'i gyfyngu i gymuned gwledig, gyda bron i un o bob saith cartref yn Wrecsam yn gartref i bensiynwr unigol.

6.56 Mae rhai o'r grwpiau a adnabyddir fel y rhai sy'n wynebu'r risg mwyaf o arunigedd cymdeithasol wedi tyfu'n arwyddocaol yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Er nad yw hyn yn dystiolaeth uniongyrchol o arunigedd cymdeithasol cynyddol, mae nifer y cartrefi sy'n cynnwys un unigolyn (yn enwedig cartrefi lle mae un pensiynwr); gofalwyr a phobl â salwch cronig wedi cynyddu yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

6.57 Lleihau unigrwydd ac arunigedd yw un o'r prif heriau a nodwyd mewn gwaith ymgynghori ac ymgysyllu a gynhaliwyd ar gyfer Asesiad Poblogaeth Gogledd Cymru ac mae'n flaenoriaeth ar gyfer rhaglen Heneiddio'n Dda yng Nghymru gan Lywodraeth Cymru.

Yr hyn rydym ni'n ei wybod:

6.58 Cynyddodd nifer y cartrefi ag un unigolyn ynddynt fesul 2,350 rhwng 2001 a 2015, a chynyddoedd nifer y gofalwyr fesul 300 rhwng 2001 a 2011.

6.59 Dengys rhagfynegiadau bod rhai grwpiau sy'n arbennig o agored i arunigedd cymdeithasol yn debygol yn ystod y ddwy ddegawd nesaf. Rhagfynegir y bydd nifer y cartrefi ag un unigolyn yddynt yn Wrecsam yn cynyddu 5,050 rhwng 2015 a 2039 a bydd mwyafrif y cynnydd yn y ffigur hwn yn dod o gartrefi un pensiynwr (3,500).

6.60 Ar gyfer y flwyddyn 2015/16, mae ystadegau tân ar gyfer Gogledd Cymru yn dangos bod 12% o'r holl bobl a gafodd anafiadau yng ngrŵp oedran 80+, er mai dim ond 6% o'r boblogaeth yw hynny. Roedd hyn gyfradd o 8.4 i bob 10,000 o bobl, o gymharu â chyfradd o 3.2 ar gyfer y boblogaeth gyfan.

6.61 Rhagfynegir y bydd nifer y bobl sy'n dioddef o iechyd meddwl gwael yn cynyddu tua 3,000 ar draws yr ardal rhwng 2015 a 2035.

6.62 Bydd nifer y gofalwyr sy'n darparu 50+ awr o ofal yr wythnos yn cynyddu fesul 1,150 rhwng 2011 a 2035.

Yr hyn rydych chi wedi'i ddweud wrthym ni:

6.63 Ar hyn o bryd rydym yn chwilio am adborth o ymgynghoriadau a allai fod wedi digwydd ar y thema hon. Bydd unrhyw wybodaeth y byddwn yn dod o hyd iddo yn cael ei gynnwys yn yr asesiad terfynol

Thema Allweddol Iachach 6 – Cynnydd yn nifer y bobl sy'n byw â demensia

Pam bod hyn yn bwysig:

6.64 Daeth demensia a chlefyd Alzheimer y prif achos marwolaeth yng Nghymru a Lloegr yn 2015, yn cyfri am 11.6% o'r holl farwolaethau a gofrestrwyd – yn bennaf oherwydd gwell disgwyliad oes a datblygiadau meddygol yn nhriniaeth llawer o glefydau a salwch eraill.

6.65 Nid yw demensia yn glefyd ynddo'i hun, yn hytrach mae'n ddisgrifiad grŵp o symptomau sy'n digwydd pan fo celloedd yr ymennydd yn rhoi'r gorau i weithio'n gywir. Clefyd Alzheimer yw'r achos demensia mwyaf cyffredin, ond mae clefydau eraill, sy'n medru digwydd yr un pryd, yn cynnwys demensia fasgwlaidd a demensia gyda chyrff Lewy. Mae'r clefydau hyn yn effeithio ar yr ymennydd ac yn cael effaith ar sut mae pobl yn cyfathrebu, meddwl a chofio.

6.66 Mae'r nifer gynyddol o bobl â demensia yng Nghymru yn dueddiad sy'n gyffredin ledled y byd. Mae rhai heriau sy'n benodol i Gymru, yn cynnwys yr angen i fynd i'r afael â'r effaith ar gymunedau gwledig, yn ogystal â'r Gymraeg, sy'n arbennig o bwysig i'r rhai sydd efallai yn medru cyfathrebu neu ddeall yn eu hiaith gyntaf yn unig wrth i'w salwch ddatblygu.

6.67 Mae demensia yn cael mwy o effaith ar ferched na dynion, yn bennaf oherwydd ei fod yn glefyd oedran hŷn ac mae merched yn tueddu byw'n hirach na dynion. Mae merched hefyd yn fwy tebygol o gyflawni rôl gofalu di-dâl ar gyfer pobl eraill â demensia, ac yn ddwywaith mwy tebygol na dynion i ddarparu gofal dwys, 24 awr y dydd.

6.68 Er mai clefyd oedran hŷn yw hwn yn bennaf, nid yw'n anhepgor y bydd yr holl bobl hŷn yn dioddef o ddemensia ac nid yw'n rhan arferol o fynd yn hŷn. Mae'r amlder yn mynd yn fwy na 10% ar ôl cyrraedd 80 oed, ac mae'r gwaith ymchwil cyfredol yn awgrymu bod y cyfraddau hyn yn lleihau, efallai mewn perthynas mewn gwelliannau mewn iechyd cyffredinol a dewisiadau ffordd o fyw fel lleihad yn y cyfraddau ysmygu. Er bod salwch yn gysylltiedig â demensia yn fwy cyffredin mewn pobl hŷn, gall effeithio ar bobl iau hefyd – yn y Deyrnas Unedig mae mwy na 40,000 o bobl dan 65 oed â demensia.

Yr hyn rydym ni'n ei wybod:

6.69 Dengys data cofrestri meddygon teulu ar gyfer 2016 fod 850 o gleifion â demensia wedi'u cofrestru â meddygfeydd yn Wrecsam. Mae hyn yn 0.6% o'r holl gleifion wedi'u cofrestru â meddygon teulu yn Wrecsam. Mae ffigurau demensia wedi cynyddu ers 2011 (y flwyddyn gyntaf yr oedd data ar gael), pan oedd 650 o gleifion â demensia yn Wrecsam.

6.70 Mae rhagfynegiadau ar sail rhagfynegiadau poblogaeth Llywodraeth Cymru 2011 a chyfraddau amlder demensia yn y Deyrnas Unedig sy'n rhagfynegi y bydd nifer y bobl â demensia yn Wrecsam yn cynyddu oddeutu 1,100 rhwng 2015 and 2030.

6.71 Bydd y rhan fwyaf o'r cynnydd oherwydd y nifer gynyddol o bobl hŷn yn y boblogaeth. Mae demensia yn fwy cyffredin mewn pobl hŷn – mae o bob 14 o bobl dros 65 oed, ac un o bob 6 o bobl dros 80 oed ac un o bob tri o bobl dros 95 oed â rhyw ffurf o ddemensia.

6.72 Yn y grwpiau oedran hŷn mae amlder demensia ychydig yn uwch mewn merched nag mewn dynion – efallai oherwydd disgwyliad oes hirach. Fodd bynnag, disgwylir i nifer y dynion hŷn â demensia gynyddu'n gyflymach na nifer y merched oherwydd gwelliannau a ragfynegir yn hyd oes dynion.

6.73 Bydd achosion demensia sy'n dechrau'n gynnar (mewn pobl dan 65 oed) yn parhau yn gymharol sefydlog. Mae achosion demensia sy'n dechrau'n gynnar yn cynnwys clefyd Alzheimer, demensia yn gysylltiedig â chamdrin alcohol a chyflyrau fel clefyd Parkinson.

Yr hyn rydych chi wedi'i ddweud wrthym ni:

6.74 Gwnaeth ymgynghoriad cyhoeddus Llywodraeth Cymru ar ei gynllun gweithredu ar ddemensia nodi meysydd blaenoriaeth ar gyfer eu gwell, yn cynnwys gwella darpariaeth gwasanaethau trwy well gydweithio ar draws iechyd, gofal cymdeithas, y trydydd sector ac asiantaethau eraill; gwella diagnosis cynnar ac ymyriadau amserol; gwella mynediad i well gwybodaeth a chymorth i bobl â'r salwch a'u gofalwyr, yn cynnwys mwy o ymwybyddiaeth am yr angen am eiriolaeth; a gwella'r hyfforddiant i'r rhai sy'n darparu gofal, yn cynnwys ymchwil.

6.75 Fel rhan o'r ymgynghoriad 'Y Wrecsam a Garem', cynhaliwyd grŵp ffocws gyda chynrychiolwyr o 'Gymunedau Cyfeillgar i Dementia Wrecsam'. Y brif flaenoriaeth y gwnaethant ei nodi oedd y dylai pobl fod yn fwy ymwybodol o ddementia, gan y byddai hyn yn galluogi pobl i helpu a thrin pobl â'r salwch hwn yn y ffordd gywir. Roedd cludiant cyhoeddus hefyd yn bwysig ac na ddylai pentrefi / ardaloedd gwledig gael eu hynysu. Hefyd fe nodwyd y dylai mwy o gefnogaeth / seibiant fod ar gael i ofalwyr, ac roedd angen i weithwyr proffesiynol fod yn fwy ymwybodol o faterion colli cof wrth weithio â phobl gyda dementia.

6.76 Teimlasant y dylai sefydliadau wella arwyddbyst ac arwyddion (yn enwedig yng nghanol y dref), sicrhau bod gwasanaethau cludiant yn ymwybodol o ddementia, a hwyluso hyfforddiant dementia i staff sy'n gweithio mewn sefydliadau cyhoeddus, siopau a bwytai.

Thema Allweddol Iachach 7 – Cefnogi gofalwyr

Pam bod hyn yn bwysig:

6.77 Gofalwyr di-dâl yw'r grŵp unigol mwyaf o ofal i bobl ag anghenion cymorth yn ein cymunedau, ac maen nhw'n arbed miliynau o bunnoedd y flwyddyn i'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol a gwasanaethau cymdeithasol. Mae un amcangyfrif yn nodi bod

gwerth y gofal di-dâl yn y Deyrnas Unedig yn £132 biliwn y flwyddyn – bron ddwywaith yr hyn yr oedd yn 2001, ac yn achos at wariant blynyddol ar iechyd y Deyrnas Unedig o £134.1 biliwn.

6.78 Gall gofalu am rhywun arall fod yn heriol, a gall arwain at broblemau iechyd corfforol i'r gofalwyr eu hunain (oherwydd gwaith corfforol fel codi neu gario, neu oherwydd lludded cyffredinol). Gall gofalwyr wynebu pwysau ar eu hiechyd meddwl hefyd megis ymdrin â straen a phoeni am y sawl sy'n derbyn gofal ac effaith eu salwch; arunigedd cymdeithasol a diffyg amser i ganolbwyntio arnynt eu hunain; pryderon ariannol oherwydd lleihad yn incwm y cartref a/neu gostau gofal yn cynyddu a theimladau o rwystredigaeth a dicter tuag at y sawl maent yn gofalu amdanynt a'r sefyllfa maent yn canfod eu hunain ynddo.

6.79 Yn ystod degawdau diweddar mae nifer a chyfran y bobl wedi'u geni ag anableddau ac sy'n goroesi i fod yn oedolion a blynyddoedd hŷn wedi cynyddu'n sylweddol. Mae gwelliannau mewn gofal iechyd a iechyd cyffredinol hefyd yn golygu bod mwy o bobl yn goroesi salwch difrifol fel canser neu strôc. Mae'r cynnydd yn nifer y bobl sy'n byw â chyflyrau tymor hir yn creu galwadau newydd a mwy cymhleth ar ein gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, sydd eisoes o dan bwysau oherwydd bod cyllidebau GIG a gofal cymdeithasol wedi eu hymestyn i'r eithaf. Mae gofal di-dâl a ddarperir gan deulu, ffrindiau a chymdogion yn helpu i ateb y galw cynyddol a llenwi'r bylchau mewn gwasanaethau.

6.80 Fodd bynnag, mae strwythur poblogaeth y Deyrnas Unedig sy'n heneiddio'n gyflym a disgwyliadau hyd oes hirach yn golygu y bydd y niferoedd mewn angen gofal a chymorth yn dechrau goresgyn niferoedd yr aelodau teulu oedran gwaith fydd yn medru darparu'r gofal.

<u>Yr hyn rydym ni'n ei wybod:</u>

6.81 Yn ôl Cyfrifiad 2011, mae bron i 15,150 o bobl yn Wrecsam yn darparu gofal di-dâl. Mae bron i 30% o'r gofalwyr hyn (bron i 4,050 o bobl) yn darparu 50 awr neu fwy o ofal yr wythnos. Mae lefelau mor uchel o ddarpariaeth gofal di-dâl yn mynd i gael effaith enfawr ar les economaidd a chymdeithasol y gofalwyr yn ogystal â'r rhai sy'n derbyn gofal. Mae tua dau draean o'r holl ofalwyr di-dâl yn 50 oed neu'n hŷn – ac mae mwy nag 20% yn 65+ oed.

6.82 Cynyddodd nifer y bobl sy'n darparu 50 awr neu ragor o ofal fesul mwy na 650, tra bo'r nifer sy'n darparu cyfnodau byrrach o ofal wedi lleihau. Bu'r cynnydd yn bennaf yn nifer y bobl 65+ oed sy'n darparu gofal di-dâl, a gynyddodd bron i 900. Roedd hyn yn gynnydd o 12.0% i 14.0% o'r holl bobl 65+ oed yn Wrecsam rhwng 2001 a 2011.

6.83 Mae'n anodd gwneud rhagfynegiad rhesymol am ddarpariaeth gofal di-dâl yn y dyfodol, fodd bynnag, disgwylir iddo barhau i gynyddu – ac mae gan y rhagfynegiadau hyn oblygiadau arwyddocaol i'r sector cyhoeddus yn Wrecsam. Mae cefnogi gofalwyr trwy ddarparu gofal seibiant a gwasanaethau eraill yn

flaenoriaeth allweddol i helpu pobl gynnal eu hannibyniaeth yn eu cartref eu hunain a lleihau'r baich tymor hir ar y GIG a gwasanaethau'r cyngor.

Yr hyn rydych chi wedi'i ddweud wrthym ni:

6.84 Yn yr ymgynghoriad 'Beth sy'n bwysig i chi?' nodwyd 'Galluogi pobl hŷn i fyw'n annibynnol a chefnogi gofalwyr' fel blaenoriaeth cymharol uchel, gan ei fod yn eithaf pwysig ymhlith yr ymatebwyr, ac roedd y boddhad yng nghyswllt y deilliant hwnt yn fyr o fodloni'r lefel pwysigrwydd. Roedd y prif negeseuon o'r sylwadau a dderbyniwyd yn gysylltiedig â'r deilliant hwn yn awgrymu bod rhai pobl yn teimlo bod angen gwneud mwy i flaenoriaethu'r rhai bregus, 'mae pobl hŷn a'u gofalwyr angen mwy o gymorth i barhau'n iach ac annibynnol' a y gellid 'gwella'r wybodaeth am y cymorth sydd ar gael a'r mynediad i'r cymorth'. Tynnodd yr ymgynghoriad ar y cynllun cydraddoldeb strategol sylw hefyd at yr angen i gynyddu'r cymorth i ofalwyr ifanc.'

Thema Allweddol Iachach 8 – Disgwyliad oes iach i bawb

Pam bod hyn yn bwysig:

6.85 Mae pobl yn byw'n hirach oherwydd gwelliannau i ofal iechyd ac ystod o welliannau ffordd o fyw eraill fel gwell maeth, llai o bobl yn gweithio mewn diwydiannau trwm neu fudr, cyfraddau ysmygu yn lleihau, aer a dŵr glanach a gwell amodau tai. Fodd bynnag, mae llawer o gyflyrau iechyd cronig wedi eu cysylltu'n benodol â henaint, felly mae sicrhau henoed iachach yn fater pwysig.

6.86 Yn amlwg mae iechyd da yn perthyn yn agos at i ba raddau mae pobl yn cadw eu hanibynniaeth trwy eu hoes, yn enwedig wrth fynd i oed. Bydd yn effeithio ar faint o gymorth a gofal ffurfiol ac anffurfiol fydd ei angen arnynt, a bydd yn effeithio ar eu gallu i gymryd rhan lawn yn eu cymuned a chyfrannu at yr economi leol.

6.87 Yn ogystal â chael ei benderfynu gan oedran, mae gwaeledd iechyd yn cael ei ddylanwadu gan brofiadau amddifadedd hefyd. Bydd sicrhau lleihad mewn anghydraddoldebau iechyd a chynnal iechyd a lles drwy gydol oes yn ddwy o'r chwe thema strategol yn fframwaith iechyd cyhoeddus Llywodraeth Cymru, 'Ein Dyfodol Iach'.

Yr hyn rydym ni'n ei wybod:

6.88 Mae dadansoddiad disgwyliad oes iach ar gyfer 2010-14 (gan Iechyd Cyhoeddus Cymru) yn dangos, yn gyffredinol, bod y gyfran oes a dreulir mewn iechyd da gan ddynion yn cymharu â chyfartaledd Cymru yn Wrecsam. O ran y merched, mae'r disgwyliad oes iach yn uwch na chyfartaledd (+1.1 o flynyddoedd yn gyffredinol).

Cyfanswm disgwyliad oes 2012-14

Ffynhonnell: tablau cyfnod hyd oes, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol

	Wrecsam	Cymru	Cymru a Lloegr
Gwryw – adeg ei eni	78.5	78.5	79.4
Gwryw – 65 oed	18.3	18.2	18.7
Benyw – adeg ei geni	81.8	82.3	83.1
Benyw – 65 oed	20.2	20.6	21.1

Noder: mae'r disgwyliad oes ar aeg geni ar gyfer babis a aned yn y cyfnod hwnnw, ac mae'r cyfnod oes yn 65 oed yn dangos y blynyddoedd bywyd ychwanegol y byddai rhywun 65 oed yn eu disgwyl.

6.89 Mae disgwyliad oes yn gwella i'r holl grwpiau yn Wrecsam, dros amser. Mae disgwyliad oes dynion wedi cynyddu o 73.0 o flynyddoedd yn 1991-93 i 78.5 o flynyddoedd yn 2012-14, gyda disgwyliad oes merched wedi cynyddu o 78.8 i 81.8 yn yr un cyfnod.

6.90 Mae nifer y bobl â chyflyrau cronig (e.e. pwysedd gwaed uchel, asthma, diabetes, methiant y galon a chlefydau'r ysgyfaint) wedi'u cofrestru â meddygfeydd yn Wrecsam wedi cynyddu yn y pum mlynedd rhwng 2011 a 2016.

6.91 Rhagfynegir y bydd disgwyliad oes yn parhau i wella, a disgwylir i boblogaeth y rhai 65 oed yn Wrecsam gynyddu o 25,700 yn 2015 i 38,800 erbyn 2039. Gan fod y rhan fwyaf o gyflyrau iechyd cronig yn gysylltiedig ag oedran hŷn, gallwn ddisgwyl i amlder salwch cronig gynyddu yn yr un cyfnod. Mae gwelliant disgwyliad oes hefyd yn golygu bod pobl ag anghenion cymhleth yn byw'n hirach nag erioed o'r blaen, a gallai hyn hefyd arwain at gynnydd yn y galw ar wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, ac ar ofalwyr di-dâl.

6.92 Mae'r tueddiad tymor hir ar i fyny yng nghyfran y bobl sydd dros bwysau neu'n ordew hefyd yn debygol o achosi cynnydd mewn problemau iechyd cronig, a bydd hyn yn effeithio ar ddisgwyliadau oes iach yn y dyfodol.

6.93 Gan nad yw'r cyfradd gwelliant mewn disgwyliad oes iach wedi cynyddu mor gyflym â disgwyliad oes yn gyffredinol, mae perygl y bydd newidiadau i'r pensiwn gwladol yn arwain at sefyllfa o, yn hytrach na phobl yn ymddeol bydd mwy o bobl ar fudd-dal analluedd gan nad ydynt yn ddigon iach i barhau yn y gweithlu.

6.94 Disgwylir i nifer y bobl 65 oed a hŷn sy'n derbyn gwasanaethau yn eu cartref i ddyblu bron erbyn 2035. Mae hyn o ganlyniad i'r boblogaeth sy'n heneiddio a'r cynnydd yn nifer y bobl ag anghenion gofal cymhleth fel demensia. Disgwylir i'r nifer sy'n derbyn gwasanaethau gofal preswyl safonol leihau neu aros yr un fath, ond disgwylir i'r nifer sydd angen gofal nyrsio arbenigol ddangos cynnydd sylweddol.

6.95 Mae gwaith ymchwil yn darogan, erbyn 2030, bydd diffyg cyflenwad cartrefi nyrsio, tai gwarchodol a thai gyda gofal yn Wrecsam. Awgryma hyn bod potensial ar gyfer twf cyflogaeth yn y sector hwn.

Yr hyn rydych chi wedi'i ddweud wrthym ni:

6.96 Ar hyn o bryd rydym yn chwilio am adborth o ymgynghoriadau a allai fod wedi digwydd ar y thema hon. Bydd unrhyw wybodaeth y byddwn yn dod o hyd iddo yn cael ei gynnwys yn yr asesiad terfynol.

Thema Allweddol Iachach 9 – Pwysau cynyddol ar y Gwasanaeth Iechyd

Pam bod hyn yn bwysig:

6.97 Mae llawer o'r materion a drafodwyd mewn rhannau eraill o'r asesiad hwn, megis y boblogaeth sy'n heneiddio, cynnydd yn nifer y gofalwyr, arunigedd cymdeithasol a byw mewn amddifadedd, yn cynyddu'r pwysau ar wasanaethau cyhoeddus. Mae gan y cyhoedd ddiddordeb mawr mewn amseroedd aros a'r potensial i'r sector cyhoeddus weithio gyda'i gilydd mewn ffordd wahanol i leihau'r galw hwn.

Yr hyn rydym ni'n ei wybod:

6.98 Tra bo nifer y bobl sy'n mynd i adran frys Ysbyty Maelor Wrecsam wedi parhau'n eithaf cyson, mae'r nifer a'r gyfran sy'n cael sylw cyn pen pedair awr wedi gweld dirywiad arwyddocaol.

6.99 Mae gwaith ymchwil a dadansoddi yn parhau i ddeall y tueddiad hwn yn iawn, ond mae pryderon ynghylch a oedd modd ateb anghenion y cleifion hynny mewn ffordd wahanol, gan leihau'r pwysau ar yr adrannau brys.

6.100 Yn y tair prif ysbyty yng ngogledd Cymru, canfuwyd bod 248 o bobl wedi mynd yno fwy na 10 gwaith mewn cyfnod 12 mis, gyda rhai cleifion yn mynychu nifer fawr iawn o weithiau. Mae hyn yn dechrau codi cwestiwn ynghylch a oedd yr holl dderbyniadau hyn angen gwasanaeth gan yr Adrannau Brys.

6.101 Cefnogir hyn gan ddata a gynhyrchwyd gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, sy'n edrych ar gyfran y rhai a ddaeth i Adrannau Brys lle penderfynwyd fod angen eu derbyn i'r ysbyty ar gyfer triniaeth ychwanegol neu ymchwiliadau pellach. Ar draws gogledd Cymru canfuwyd bod y nifer a dderbyniwyd yn is na 30% rhwng Ebrill a Medi 2016. Tra y derbynnir y bydd cyfran o'r rhai sy'n dod i'r adran yn cael eu rhyddhau, ymddengys bod cyfran mor isel yn cefnogi'r dybiaeth y gallai llawer o'r anghenion hyn fod wedi eu bodloni mewn ffordd wahanol.

Yr hyn rydych chi wedi'i ddweud wrthym ni:

6.102 Yn yr ymgynghoriad 'Byw'n iachach, cadw'n iach', ymddangosodd 'Mynediad i wasanaethau' fel thema gref pan ofynnwyd i'r ymatebwyr beth oedd yn bwysig iddynt o ran gofal iechyd. Crybwylwyd yr agweddau penodol o fynediad i wasanaethau fwyaf aml:

- cyflymder y mynediad: mae'r rhai a atebodd eisiau mynediad prydlon i ofal iechyd yn gyffredinol, er bod llawer wedi sôn yn benodol am yr angen am restrau aros llai am apwyntiadau ac amseroedd aros byrrach yn yr adrannau Damwain a Brys;
- Rhwyddineb mynediad: nododd yr ymatebwyr yr angen am wasanaethau hygyrch, er enghraifft, trwy ddarpariaeth lleol a gwell ystod o amseroedd apwyntiadau;
- Mynediad at Feddygon Teulu ac Arbenigwyr: nodwyd problemau tebyg i'r rhai a grybwyllwyd uchod yng nghyswllt y gwasanaethau hyn yn benodol h.y. amseroedd aros byrrach, ystod ehangach o amseroedd apwyntiadau (yn cynnwys apwyntiadau y tu allan i oriau gwaith arferol 9am-5pm) a darpariaeth gwasanaethau'n lleol lle bo'n bosibl.

6.103 Nododd ymatebwyr eraill safonau gofal yn gyffredinol, a bu eraill yn trafod staffio, yn enwedig pwysigrwydd staff cwrtais, gofalgar a llawn tosturi a staff wedi eu hyfforddi'n dda ac yn meddu ar gymwysterau addas.Cafwyd llawer o sylwadau am gyfathrebu e.e. yr angen i gyfathrebu'r effeithio gyda, a gwrando ar gleifion; darpariaeth gwybodaeth a chyngor digonol; gofal cydlynus a chyfathrebu da rhwng adrannau; parhad y cyswllt a darpariaeth ddigonol ar gyfer siaradwyr Cymraeg.

6.104 Pan ofynnwyd beth mae'r gwasanaeth iechyd yn ei wneud yn dda, crybwyllodd llawer o ymatebwyr safonau gofal da; mewn meddygfeydd, ysbytai, adrannau Damweiniau a Brys, ac yn gyffredinol. Nododd nifer o ymatebwyr ansawdd ac agwedd staff Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. Gwnaeth eraill sylwadau ynghylch cyflymder y mynediad at ofal iechyd, a mynediad da i wasanaethau meddyg teulu.

6.105 Yn yr ymgynghoriad 'Y Wrecsam a ddymunwn' gwnaed nifer o sylwadau yn nodi bod angen gwella argaeledd a hygyrchedd gofal iechyd.

Thema Allweddol Iachach 10 – Bygythiadau i iechyd a lles

Pam bod hyn yn bwysig:

6.106 Y bygythiadau i iechyd a lles sy'n dod i'r amlwg sy'n achosi pryder penodol yw: datblygu'r gallu i wrthsefyll cyffuriau gwrthfiotig ac unrhyw gyffuriau a meddyginiaethau eraill; y potensial am ledaeniad cyflym clefydau heintus mewn byd sy'n gynyddol rhyngddibynnol a chysylltiedig (pandemig); ac effaith potensial newid yn yr hinsawdd a digwyddiadau tywydd eithafol ar iechyd y cyhoedd.

6.107 Er bod y bygythiadau hyn yn debygol o ddeillio o rhywle arall, mae'r ymateb i epidemig neu bandemig yn dibynnu ar asesu cyflym ac ymateb yn gyflym i gyfyngu ar ledaeniad lleol. Mae systemau ymateb aml-asiantaeth yn bodoli ac yn cael ei profi a'u diweddaru'n rheolaidd gan yr holl sefydliadau sy'n debygol o fod yn rhan o'r ymateb. Serch hynny, mewn sefyllfa o epidemig neu bandemig difrifol, dylai pob sefydliad fod â chynlluniau yn eu lle ar gyfer parhad busnes pan fo llawer o'u staff a defnyddwyr gwasanaethau yn debygol o fod wedi'u heffeithio. Gallai methiant i

ddatblygu a phrofi cynlluniau arwain at fwy o farwolaethau a thrallodd, a chael effaith eang ar lawer o wasanaethau hanfodol eraill y mae pobl yn dibynnu arnynt.

Yr hyn rydym ni'n ei wybod:

6.108 Ers yr 1970au mae clefydau newydd sy'n ymddangos wedi cael eu hadnabod ar y raddfa o un neu fwy y flwyddyn. Bellach mae bron i 40 o glefydau nad oeddem yn gwybod amdanynt genhedlaeth yn ôl. Mae rhai o'r clefydau hyn yn debygol o ddatblygu'n epidemig neu bandemig, a fyddai'n golygu risg i genedlaethau'r dyfodol. Mewn ymateb i glefydau heintus, hen rai a rhai newydd sy'n ymddangos, un agwedd hanfodol bwysig yw cael triniaethau gwrthficrobaidd effeithiol, megis cyffuriau gwrthfiotig a meddyginiaethau gwrthfirysau – fodd bynnag, y gall i wrthsefyll y rhain yw un o'r bygythiadau mwyaf i bobl ac anifeiliaid.

Yr hyn rydych chi wedi'i ddweud wrthym ni:

6.109 Ar hyn o bryd rydym yn chwilio am adborth o ymgynghoriadau a allai fod wedi digwydd ar y thema hon. Bydd unrhyw wybodaeth y byddwn yn dod o hyd iddo yn cael ei gynnwys yn yr asesiad terfynol.

7 Nod Llesiant 4 – Mwy cydradd

Cyflwyniad i'r nod hwn

7.1 Mae mwy cydradd yn ymwneud â chael cymdeithas sy'n galluogi pobl i gyflawni eu potensial, dim ots beth yw eu cefndir neu eu hamgylchiadau (yn cynnwys eu cefndir a'u hamgylchiadau cymdeithasol ac economaidd). Nodwch fod hon yn nod sy'n arbennig o drawsbynciol ac felly mae gwybodaeth mewn perthynas â'r nod hwn hefyd yn cael ei drin o dan sawl nod arall yn yr Asesiad hwn.

Thema Allweddol Mwy Cydradd 1 – Magwraeth mewn amddifadedd

Pam bod hyn yn bwysig:

7.2 Mae gan gyrff cyhoeddus yng Nghymru ddyletswydd statudol i ystyried sut y gallant gyfrannu'n gadarnhaol at gymdeithas decach yn eu gweithgareddau o ddydd i ddydd trwy dalu sylw dyledus i gael gwared ar wahaniaethu anghyfreithlon, hybu cyfle cyfartal a meithrin perthnasoedd da.

7.3 Gall dod i gysylltiad ag anghydraddoldeb ddigwydd yn gynnar iawn mewn bywyd a gall ddod yn rhwystr sy'n atal plant rhag cyrraedd eu potensial o'r dechrau, gyda'r potensial i barhau yn bresenoldeb cyson sydd fel cwmwl drostynt wrth iddynt fynd ar hyd taith bywyd.

7.4 Mae'r holl ffigurau yn pwyntio tuag at amrywiaeth gynyddol yn ein poblogaeth. Mae angen i ni sicrhau ein bod ni'n cydnabod nodweddion amrywiol ein poblogaeth wrth ddarparu ein gwasanaethau, i sicrhau cydraddoldeb mynediad a chyfle i bawb. Hefyd mae angen i ni gydnabod yr amrywiaeth hwn wrth gynnwys pobl ifanc pan yn gwneud penderfyniadau ar gyfer ein cymunedau a'n gwasanaethau cyhoeddus, a sicrhau cynrychiolaeth gan ein holl bobl.

7.5 Mae Dechrau'n Deg, rhaglen Llywodraeth Cymru wedi'i thargedu at leihau tlodi plant, wedi cael llwyddiant ysgubol yn sicrhau bod plant rhwng 0 a 4 oed sy'n byw mewn ardaloedd amddifadus yn barod ar gyfer yr ysgol, trwy roi cymorth i rieni trwy gyfrwng gwasanaeth ymwelydd iechyd dwys, a rhaglenni rhianta a gofal plant.

7.6 Yn arferol dysgir sgiliau rhianta o'n profiadau ein hunain fel plant. Os oes diffyg rhaid o elfennau craidd magu plant yn y profiadau hyn gall gael effaith andwyol ar y plentyn wrth iddo dyfu ac felly mae'r cylch o rianta amhriodol yn parhau. Mae Dechrau'n Deg yn darparu cyrsiau rhianta i deuluoedd sy'n byw yn yr ardaloedd cod post y nodir fel y rhai mwyaf amddifadus yng Nghymru.

7.7 Mae'r asesiad Cyfnod Sylfaen gan athrawon yr holl blant 3-7 oed yn mesur datblygiad personol a chymdeithasol pob plentyn, yn ogystal â'u sgiliau iaith a

rhifedd a'u datblygiad corfforol a chreadigol. Mae'r Dangosydd Cyfnod Sylfaen yn gosod cyflawniad lefel 5 fel y trothwy ar gyfer pob maes datblygiad.

7.8 Mae'r holl ddysgwyr yn eu blwyddyn olaf yng Nghyfnod Allweddol 2 – y cyfnod pan fo disgyblion yn gadael ysgol gynradd ac yn symud ymlaen i addysg uwchradd – yn cael eu hasesu gan eu hathrawon. Y disgwyliad cyffredinol yw y bydd mwyafrif y rhai 11 oed yn cyrraedd lefel 4 ymhob pwnc. Mae'r Dangosydd Pynciau Craidd yng Nghyfnod Allweddol 2 yn mesur canran y disgyblion sy'n cyflawni o leiaf lefel 4 mewn Cymraeg (iaith gyntaf) neu Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth.

7.9 Mae canlyniadau arholiadau i'r holl ddisgyblion sy'n gadael addysg orfodol ar ddiwedd Blwyddyn 11 (15 neu 16 oed yn arferol) yn cael eu mesur yn erbyn safon cyrhaeddiad o'r enw Trothwy Lefel 2 Cyfnod Allweddol 4. Mae hyn yn cyfateb i 5 TGAU gradd A*-C yn cynnwys un mewn Cymraeg iaith gyntaf neu Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth.

<u>Yr hyn rydym ni'n ei wybod:</u>

7.10 Mae gwybodaeth am amrywiaeth cyfansoddiad poblogaeth Wrecsam yn cael ei chynnwys yn adran Demograffig yr asesiad hwn.

7.11 Nid yn unig mae gan bobl sy'n byw yn yr ardaloedd mwyaf amddifadus yn Wrecsam hyd oes byrrach, maent yn treulio llai ohono mewn iechyd da o'i gymharu â'r rhai sy'n byw yn yr ardaloedd lleiaf amddifadus. Mae gwahaniaeth disgwyliad oes iach o 14 mlynedd i ferched yn ardaloedd mwyaf amddifadus Wrecsam o'i gymharu â'r ardaloedd lleiaf amddifadus.

7.12 Er gwaethaf cynnydd cyffredinol mewn disgwyliad oes, nid yw'r bwlch rhwng cyfran bywyd y disgwylir ei dreulio mewn iechyd da yn yr ardaloedd mwyaf a lleiaf amddifadus wedi dangos arwydd clir o leihau yn ystod y 10 mlynedd diwethaf

7.13 Gwnaeth 1,400 o blant elwa o wasanaethau Dechrau'n Deg yn Wrecam yn 2015/16.

7.14 Yn 2015 roedd y gwahaniaeth rhwng plant yn derbyn cinio ysgol am ddim a'r rhai nad oeddynt yn ugain pwynt canran (69% o'i gymharu ag 86%). Roedd y bwlch cyrhaeddiad yng Nghymru gyfan yn 15 pwynt canran. Mae gan Wrecsam lefelau perfformiad o gwmpas cyfartaledd Cymru ar gyfer plant nad ydynt yn derbyn cinio ysgol am ddim, ond mae'r cyrhaeddiad yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol ar gyfer plant sy'n derbyn cinio ysgol am ddim, ac wedi gostwng ers 2012.

7.15 Yn gyffredinol roedd y lefelau cyrhaeddiad yng Nghyfnod Allweddol 2 (gadael ysgol gynradd) o gwmpas cyfartaledd Cymru yn 2015, ac mae disgyblion sy'n derbyn cinio ysgol am ddim tua tri phwynt canran yn well na'r cyfartaledd cenedlaethol. Mae'r bwlch cyrhaeddiad rhwng y rhai sy'n derbyn cinio ysgol am ddim a'r rhai nad ydynt yn gulach yn 10-11 oed nag yn y Cyfnod Sylfaen (3-7 oed. Mae'r bwlch rhwng y rhai a dderbyniodd ginio ysgol am ddim a'r rhai na wnaethant wedi culhau ers 2012 oddeutu 8 pwynt canran yn Wrecsam (y lleihad cyfartalog yng Nghymru gyfan oedd 4.3 pwynt canran).

7.16 Mae'r bwlch cyrhaeddiad rhwng y rhai sy'n derbyn cinio ysgol am ddim a'r rhai nad ydynt yng Nghyfnod Allweddol 4 yn bron i 28% (27% o'i gymharu â 55%). Mae bwlch cyrhaeddiad Cymru gyfan yn 32%. Mae hwn yn fwlch llawer mwy na'r hyn a welwyd yn y Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol 2, gan awgrymu bod anghydraddoldebau yn lledaenu wrth i blant symud trwy'r system addysg. Mae'r bwlch rhwng y rhai a dderbyniodd ginio ysgol am ddim a'r rhai na wnaethant wedi lleihau ers 2010/11 oddeutu 3.5 pwynt canran. Ymddengys mai'r tueddiad cyffredinol yw gwelliant bach iawn o ran cau'r bwlch.

Yr hyn rydych chi wedi'i ddweud wrthym ni:

7.17 Yn yr ymgynghoriad 'Beth sy'n bwysig i chi?' nodwyd 'Cefnogi teuluoedd mewn angen ac amddiffyn plant a phobl ifanc a allai fod mewn perygl o niwed' fel cymharol bwysig gan ymatebwyr, ond roedd y lefel boddhad yng nghyswllt y deilliant hwn yn agosach at fodloni'r lefel pwysigrwydd, gan olygu ei fod yn cael ei osod fel blaenoriaeth lefel canolig.

7.18 Yn yr ymgynghoriad 'Y Wrecsam a ddymunwn' gwnaed nifer o sylwadau yn datgan y dylai pawb gael cyfle cyfartal i ffynnu.

Thema Allweddol Mwy Cydradd 2 – Gallu cefnogi'r rhai sy'n wynebu angen cartref

Pam bod hyn yn bwysig:

7.19 Mae tai cymdeithasol yn cyflawni rôl allweddol yn darparu tai fforddiadwy i unigolion a theuluoedd bregus ac incwm isel. Mae'r rhan fwyaf o eiddo tai cymdeithasol yn cael eu gosod ar denantiaethau gydol oes ac am rhent is na rhent y farchnad (y rhenti mae landlordiaid preifat yn ei godi). Rhoir cartrefi trwy system rhestr aros, ac maent ar gael i'r rhai mewn mwyaf o angen – yn arferol y rhai sy'n ddigartref, mewn tai â gorboblogi difrifol neu y mae eu cartref presennol yn anaddas oherwydd rhesymau iechyd.

7.20 Wrth i'r pwysau ar y cartrefi fforddiadwy sydd ar gael yn y farchnad dai gynyddu mae unrhyw dai cymdeithasol sy'n dod ar gael yn tueddu gael eu dyrannu i'r rhai mwyaf bregus yn ein cymdeithas – pobl â phroblemau iechyd, anghenion cymdeithasol cymhleth neu ar incwm isel. Dan y ddeddfwriaeth bresennol nid yw methu fforddio prynu neu rhentu cartref yn y farchnad breifat yn ddigonol, ar ei ben ei hun, fel dangosydd angen tai ac nid yw'n golygu y bydd tai cymdeithasol ar gael.

7.21 Mae diwygiadau lles wedi golygu bod llawer o deuluoedd diwaith ac incwm isel yn cael llai o fudd-daliadau gan y wladwriaeth neu mae'r budd-daliadau wedi'u dileu yn gyfangwbl, p'un ai yn y sector tai cymdeithasol neu'r sector tai preifat. Lle bo'r budd-daliadau yn parhau i gael eu dyfarnu mae'r lefelau wedi'u rhewi, tra bo costau tai yn cynyddu.

7.22 Mae'r rhai sy'n cyflwyno eu hunain fel digartref wedi dod yn fwy cymhleth wrth i wasanaethau eraill a oedd yn rhoi cymorth i drigolion bregus wedi lleihau o ran nifer a sgôp. Bu cynnydd yng nghyfran yr aelwydydd sydd angen cymorth gan yr awdurdod lleol sy'n cynnwys pobl â phroblemau iechyd meddwl neu broblemau iechyd eraill; pobl â phroblemau dibyniaeth ar alcohol neu gyffuriau a'r rhai â ffordd o fyw anhrefnus.

7.23 Yn Neddf Tai (Cymru) 2014, a ddaeth i rym ar 1 Ebrill 2015, rhoddwyd cyfrifoldebau newydd o ran atal digartrefedd i awdurdodau lleol a'u partneriaid. Mae'n gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i weithio gyda phobl sydd mewn perygl o golli eu cartref o fewn 56 diwrnod i'w helpu i ddod o hyd i ddatrysiad i'w problemau a'r gobaith yw atal tri o bob pedwar o bobl mewn perygl o fynd yn ddigartref rhag colli eu cartref. Mae'r dyletswydd hwn at bawb sy'n gofyn am gymorth, nid y rhai â chysylltiad lleol yn unig.

7.24 Mae'r galw am gymorth gyda digartrefedd o dan delerau'r Ddeddf newydd wedi cynyddu ychydig tra bo swm cyffredinol y gwaith achos sy'n gysylltiedig â'r gwaith ataliol wedi cynyddu'n fwy sylweddol.

7.25 Gan fod darpariaeth tai cymdeithasol yn canolbwyntio ar yr unigolion a theuluoedd mwyaf bregus yn awr, yn aml gall roi crynodiad o'r grwpiau hyn yn yr un ardal. Mae hyn yn medru creu cymdogaethau sydd wedi'u harunigo o'r gymuned yn eich chyfanrwydd, cynyddu'r lefelau allgáu cymdeithasol a'r risg o ymddygiad gwrthgymdeithasol. Mae gwaith ymchwil gan Shelter yn gwneud cysylltiad rhwng cymdogaethau amddifadus a chyfleoedd bywyd is, sy'n golygu y gall plant sy'n cael eu magu mewn ardaloedd o'r fath wynebu diffyg adnoddau, rhesymau, sgiliau a'r hyder i symud yn eu blaenau.

<u>Yr hyn rydym ni'n ei wybod:</u>

7.26 Roedd 13,538 eiddo yn y sector tai cymdeithasol yn yr ardal ar 31 Mawrth 2015, Roedd hyn yn 194 ar gyfer bob 1,000 o aeldwydydd, sy'n sylweddol uwch na lefel Cymru gyfan o 175 ar gyfer bob 1,000 o aelwydydd. Y prif ddarparydd tai cymdeithasol yn yr ardal yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, sy'n darparu 84% o'r holl dai cymdeithasol. Y prif ddarparwyr eraill yw Cymdeithas Dai Clwyd Alyn (7%) a Wales and West Housing (7%).

7.27 Mae gan bron i hanner stoc tai cymdeithasol yr ardal o leiaf dair ystafell wely (45%). Mae hyn yn gymharol â ffigur Cymru gyfan (48%). Yn gyffredinol dim ond 19% o'r stoc sy'n eiddo un ystafell wely, sy'n cyfyngu ar y cyfleoedd i denantiaid symud i eiddo llai os yw'r cyfyngiad ar fudd-dal tai oherwydd tan feddiannau yn eu cartref presennol yn effeithio arnynt (y cyfeirir ato fel y 'dreth ystafell wely').

7.28 Ym mis Chwefror 2016 gwnaeth y cymhorthdal ystafell sbâr/treth ystafell wely leihau taliadau budd-dal tai £14.41 yr wythnos ar gyfartaledd i 1,427 o dderbynyddion y budd-dal yn Wrecsam. Roedd hyn yn 16.7% o'r holl dderbynyddion budd-dal tai yn y sector rhentu cymdeithasol. Nid yw'r lleihad yn berthnasol i denantiaid yn y sector rhentu preifat.

7.29 Mae'r tangyflenwad eiddo un ystafell wely yn y stoc tai yn ei gwneud yn anodd dod o hyd i dai cymdeithasol digonol ar gyfer rhai o'r bobl mwyaf bregus sydd mewn angen tai, yn cynnwys y rhai â phroblemau iechyd meddwl, y rhai sy'n adfer eu hiechyd ar ôl bod yn gaeth i sylweddau, cyn aelodau'r lluoedd arfog a chyn droseddwyr. Mae dynion sengl yn enwedig o dan anfantais ohewydd y diffyg eiddo un ystafell wely.

7.30 Mae'r stoc tai cymdeithasol wedi lleihau 16% – tua 2,500 eiddo – yn y pum mlynedd ar hugain ers 1991. Cynyddodd y stoc tai yn y sector preifat (perchennog breswylydd ac wedi'i rentu) fesul 48% neu tua 15,350 eiddo yn ystod yr un cyfnod. Mae hyn wedi arwain at leihad cyfrannol yn nifer y tai cymdeithasol sydd ar gael yn y stoc tai yn ei gyfanrwydd, ac wedi golygu bod rhaid i ddarpariaeth tai cymdeithasol ganolbwyntio ar y rhai mewn mwyaf o angen, ac nid yw fforddiadwyedd ar ei ben ei hun bellach yn faen prawf ar gyfer cael eich derbyn ar restrau aros tai lleol.

7.31 Mae mwy na 3,000 o dai cymdeithasol wedi'u gwerthu yn Wrecsam dan y cynlluniau hawl i brynu ers 1996. Er bod peth o'r stoc wedi'i adnewyddu mae hyn yn brin o adnewyddu un am bob un a gollwyd. Yn gyffredinol mae hyn wedi lleihau'r stoc sydd ar gael i fodloni'r angen am dai cymdeithasol.

7.32 Mae gan awdurdodau lleol ofyniad penodol i ddarparu tai fforddiadwy, fel rhan o'u dyletswyddau cynllunio, ac mae cyfanswm darpariaeth yr eiddo newydd mor isel fel bo risg difrifol nad yw'r dyletswydd hwn yn cael ei gyflawni.

7.33 Ym mis Ebrill 2016 pris cyfartalog eiddo yn Wrecsam oedd £144,100. Mae'r pris tai cyfartalog 5.7 gwaith incwm cyfartalog aelwydydd o £25,200 ar hyn o bryd, ac yn 10.3 gwaith incwm yr aelwydydd chwartel isaf o £14,000. Awgryma hyn fod ymuno â'r farchnad dai fel perchennog cartref ymhell o gyrraedd yr aelwyd cyfartalog.

7.34 Mae prisiau tai wedi codi'n sylweddol ers 2000, hyd yn oed ar ôl ystyried yr arafu yn y farchnad dai a welwyd ar ôl dirwasgiad 2007/08. Roedd prisiau tai ym mis Ebrill 2016 tua traean yn uwch nag oeddynt yn 2006 (cynyddodd cyflogau tua 15% neu chweched rhan yn yr un cyfnod). Roedd prisiau tai Ebrill 2016 dros ddwywaith a hanner yn uwch nag oeddynt yn 2000 (tua 258% yn uwch) er bod cyflogau wedi cynyddu oddeutu 42% yn unig.

<u>Yr hyn rydych chi wedi'i ddweud wrthym ni:</u>

7.35 Yn yr ymgynghoriad 'Beth sy'n bwysig i chi' nodwyd 'Cefnogi pobl mewn perygl o fod yn ddigartref' fel blaenoriaeth canolig. Er bod y deillaint hwn yn un cymharol isel o ran pwysigrwydd, roedd y boddhad yng nghyswllt y deilliant hwn hefyd yn gymharol isel, ac roedd yn brin o fodloni'r lefel pwysigrwydd. Roedd y prif negeseuon o'r sylwadau a dderbyniwyd mewn perthynas â'r deilliant hwn yn awgrymu bod rhai pobl o'r farn bod angen 'mwy o gymorth i bobl sy'n wirioneddol ddigartref.'

7.36 Roedd ‘Cael mwy o gartrefi sy’n fforddiadwy’ yn flaenoriaeth cymharol isel yn gyffredinol, gan fod pwysigrwydd y deilliant hwn yn isel, a’r lefel boddhad yn nes at fodloni’r lefel pwysigrwydd. Fodd bynnag, mae’n bwysig nodi ei fod yn flaenoriaeth llawer uwch i ymatebwyr rhwng 16 a 34 oed, ac ymatebwyr sy’n denantiaid tai cyngor. Awgryma’r prif negeseuon o’r sylwadau fod rhai ymatebwyr o’r farb ‘bod angen mwy o dai fforddiadwy’ ac y dylid ‘datblygu tai fforddiadwy mewn ardaloedd mwy dymunol.’

7.37 Roedd ‘Darparu tai cyngor cynnes, diogel a modern’ yn flaenoriaeth cymharol isel yn gyffredinol gan yr ymatebwyr, gan fod pwysigrwydd y deilliant hwn yn isel, a’r lefel boddhad yn llawer agosach at fodloni’r lefel pwysigrwydd. Fodd bynnag, mae’n bwysig nodi ei fod yn flaenoriaeth llawer uwch i ymatebwyr sy’n denantiaid tai cyngor ac roedd y prif negeseuon o’r sylwadau a dderbyniwyd mewn perthynas â hyn yn awgrymu bod rhai pobl yn pryderu am ‘gyflwr a chynnal a chadw tai cyngor’.

7.38 Yn yr ymgynghoriad ‘Y Wrecsam a ddymunwn’ gwnaed nifer o sylwadau yn nodi y dylem gefnogi’r digartref a lleihau digartrefedd; gwnaed nifer o sylwadau y dylid cael mwy o dai sy’n fforddiadwy ac ychydig yn nodi y dylid cael llai o Dai Aml-feddiannaeth.

Thema Allweddol Mwy Cydradd 3 – Mynd i’r afael â thlodi tanwydd

Pam bod hyn yn bwysig:

7.39 Ystyrir bod aelwydydd mewn tlodi tanwydd os ydynt yn gorfod gwario mwy na 10% o incwm yr aelwyd ar danwydd i gadw eu cartref mewn cyflwr ‘boddhaol’.

7.40 Mae graddiant cymdeithasol mewn tlodi tanwydd: yr isaf yw eich incwm y mwyaf tebygol ydych chi o fod mewn perygl o dlodi tanwydd ac mae hyn yn cael effaith arwyddocaol ar iechyd a lles cymdeithasol ac economaidd pobl sy’n byw mewn cartrefi oer.

7.41 Mae’r rhai sydd fwyaf tebygol o fod mewn tlodi tanwydd a chartrefi oer yn cynnwys pobl hŷn, rhieni sengl gyda phlant dibynnol, teuluoedd sy’n ddiwaith neu ar incwm isel, plant a phobl ifanc, pobl anabl, pobl â salwch sy’n bodoli eisoes a chyflyrau tymor hir, a phobl sengl diwaith.

7.42 Mae clefydau resbiradol yn waeth i bobl sy’n byw mewn cartrefi oer, ac mae’n gwaethygu cyflyrau iechyd cronig eraill hefyd, ynghyd â risg uwch o strôc a thrawiad ar y galon. Mae cartrefi oer hefyd yn cael effaith negyddol ar les emosiynol a meddyliol holl aelodau’r aelwyd (yn cynnwys poeni am filiau ac iechyd) a gall gael effaith ar berfformiad plant yn yr ysgol.

7.43 Mae anghydraddoldebau iechyd a lles a achosir gan fyw mewn tlodi tanwydd yn arwain at fwy o ddibyniaeth ar wasanaethau cyhoeddus o ran iechyd a chymorth lles arall. Trwy leihau’r risg o bobl yn byw mewn tlodi tanwydd yng Nghymru gallwn

helpu i leihau'r effaith negyddol ar fywydau pobl a'r pwysau ar wasanaethau cyhoeddus.

7.44 Mae mynd i'r afael â thlodi tanwydd yn flaenoriaeth datblygu cynaliadwy allweddol i Lywodraeth Cymru gan ei bod yn canolbwyntio ar fater cymdeithasol allweddol trwy dargedu'r rhai mewn mwyaf o angen; yn ysgogi gweithgarwch economaidd trwy greu cyfleoedd i fusnesau lleol yn ogystal â chyfleoedd cyflogaeth a hyfforddiant; ac yn gwneud cartrefi yn fwy ynni effeithlon ac yn lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr ac yn cyfrannu at leihau ôl troed ecolegol Cymru.

Yr hyn rydym ni'n ei wybod:

7.45 Gwnaeth y bil trydan cyfartalog ar draws yr holl ddulliau talu leihau £8 (1.4 y cant) rhwng 2015 a 2014, gan roi cyfanswm cyfartalog o £584. Gwnaeth y bil nwy cyfartalog yn 2015 ostwng £38 (5.1 y cant) i £714.

7.46 Amcangyfrifodd Llywodraeth Cymru yn 2012 bod 29% o'r holl aelwydydd ar draws Cymru yn cael eu hystyried fel bod mewn tlodi tanwydd.

7.47 Er bod prisiau wedi dechrau lleihau yn 2015 wedi cyfnod hir o chwyddiant prisiau tanwydd uchel, nid ydynt wedi lleihau gymaint ag y disgwyliad ar gyfer y rhan fwyaf o fathau o danwydd o ystyried y dirywiad parhaud ym mhris olew yn rhyngwladol. Erbyn diwedd 2015, roedd prisiau trydan cyfartalog wedi cynyddu 65% a'r prisiau nwy cyfartalog fwy na 98% o'i gymharu â 2005. Yn gyffredinol roedd chwyddiant Mynegai Prisiau Defnyddwyr yn ystod yr un cyfnod yn 28%.

7.48 Mae buddsoddiad effeithlonrwydd ynni yng nghartrefi Cyngor Wrecsam ei hun wedi digwydd drwy Gynllun Ansawdd Tai Cymru, yn ogystal â gosod paneli solar ar fwy na 3,000 o dai Cyngor. Yn ogystal, cafwyd buddsoddiad sylweddol drwy gynlluniau fel Arbed, Ymgyrch Cartrefi Cynnes, i fynd i'r afael â lefelau tlodi tanwydd ar draws y Fwrdeistref Sirol

Yr hyn rydych chi wedi'i ddweud wrthym ni:

7.49 Ar hyn o bryd rydym yn chwilio am adborth o ymgynghoriadau a allai fod wedi digwydd ar y thema hon. Bydd unrhyw wybodaeth y byddwn yn dod o hyd iddo yn cael ei gynnwys yn yr asesiad terfynol.

8 Nod Iles 5 – Cymunedau Cydlynol

Cyflwyniad i'r nod hwn

8.1 Mae cymunedau cydlynol yn ymwneud â chael cymunedau deniadol, hyfyw, diogel, gyda chysylltiadau da.

Thema Allweddol Cymunedau Cydlynol 1 – Cludiant a diogelwch ar y ffyrdd

Pam mae hyn yn bwysig:

8.2 Mae mynediad at ddewisiadau cludiant effeithlon, fforddiadwy yn fater allweddol sy'n sail i les ac yn gwella cynhwysiant cymdeithasol a chysylltedd. Mae cysylltiadau cludiant da yn hwyluso cysylltiadau presennol a gall helpu i ddatblygu rhai newydd - mewn cyd-destun economaidd ar gyfer busnesau, darparwyr gwasanaeth a'u gweithlu, ond hefyd ar gyfer pobl a chymunedau, gan fod cysylltedd cludiant yn effeithio ar ryngweithio cymdeithasol, mynediad at wasanaethau manwerthu a hanfodol, a'r cyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau diwylliannol a hamdden.

8.3 Yn benodol, mae pobl mewn perygl o gael eu heithrio'n gymdeithasol yn aml yn cael anawsterau gwirioneddol wrth gyrraedd llefydd. Nid yw gwasanaethau cludiant cyhoeddus rheolaidd a dibynadwy bob amser ar gael ym mhob cymuned, nid ydynt yn fforddiadwy weithiau i bobl ar incwm isel, neu'n syml, nid yn mynd â phobl i ble maent angen mynd. Efallai nad yw cerdded a beicio'n opsiynau addas ar gyfer cael mynediad at wasanaethau sy'n bell neu mewn amgylcheddau lle mae lefelau traffig a chyfraddau damweiniau yn uchel.

8.4 O fewn yr economi, mae cludiant yn effeithio ar allu busnesau i ymgymryd â masnach gyda chwsmeriaid a chyflenwyr ac i recriwtio gweithlu. Gall argaeledd llwybrau cludo da mewn ardal ddylanwadu ar leoliad busnesau ac annog buddsoddiad newydd. Mae sifftiau o fewn economi ehangach y DU o ddiwydiannau sy'n seiliedig ar gludo sectorau cynradd / uwchradd i'r sector gwasanaethau, yn golygu na fydd llawer o'n llwybrau cludiant presennol yn addas i ffyrdd newydd o weithio.

Beth ydym yn ei wybod:

8.5 Yr A483 yw prif lwybr ffordd Wrecsam. Mae'n mynd ar hyd ymyl gorllewinol tref Wrecsam, gan ei rannu o'r pentrefi trefol i'r gorllewin. Mae gan y ffordd gysylltiadau â phrif ffyrdd (A55 (M53), A5(M54)). Mae'r A5156 yn arwain at yr A534 ac i Stad Ddiwydiannol Wrecsam. Ffordd yr A541 yw'r prif lwybr i mewn i Wrecsam o'r Wyddgrug ac ardal drefol orllewinol y dref.

8.6 Mae angen ymchwil pellach i ddeall rhai o'r materion yn ymwneud â chludiant, gan gynnwys: capasiti ffyrdd; diffyg cludiant cyhoeddus integredig yn enwedig i gymunedau ymylol; llwybrau cerdded a beicio diogel; llwybrau cludiant diogel i'r ysgol; effeithiau amgylcheddol; ac effaith twristiaeth ar gludiant leol.

8.7 Er gwaethaf traffig cynyddol, mae ffigurau cyffredinol yn awgrymu bod damweiniau traffig ar y ffyrdd ac anafiadau yn gyffredinol yn lleihau dros amser. Mae'r cynnydd mewn damweiniau a achosir gan yrwyr ddim yn canolbwyntio'n llwyr oherwydd eu bod yn defnyddio ffonau symudol yn bryder fodd bynnag.

8.8 Mae mynediad daearyddol at wasanaethau allweddol yn ffurfio rhan o Fynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2014 (MALIC 2014), sef y mesur swyddogol o amddifadedd yng Nghymru. Mae'r parth yma o MALIC yn ystyried amser teithio cyfartalog i fanteisio ar ystod o wasanaethau a ystyrir yn angenrheidiol ar gyfer byw o ddydd i ddydd. Mae'r rhain yn cynnwys: fferyllfa a meddygfa, swyddfa bost, ysgol gynradd, siop fwyd, llyfrgell gyhoeddus a chanolfan hamdden.

8.9 Mae pum ardal gynnyrch ehangach haen is (LSOAs) yn Wrecsam yn y 10% mwyaf difreintiedig yng Nghymru o ran mynediad at wasanaethau, fel y dangosir yn y map isod (y rhai lliw mewn glas tywyll - LSOA Owrtyn, LSOA Bronington2, LSOA Dyffryn Ceiriog 3, LSOA Bronington1 a LSOA Marchwiail 1). Mae'r ardaloedd hyn yn cwmpasu poblogaeth o tua 8,000 o bobl.

Ardaloedd o Wrecsam yn y 10% mwyaf difreintiedig yng Nghymru o ran mynediad at wasanaethau allweddol (wedi eu lliwio mewn glas tywyll)

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru 2014



8.10 Mae pryderon ynghylch cysylltedd y stad ddiwydiannol a gweddill y Fwrdeistref Sirol ar hyn o bryd. Mae materion ynghylch capasiti ar gyfer y prif ffyrdd mynediad, ac mae cludiant cyhoeddus o ganol y dref yn broblem. Mae angen buddsoddiad cludiant wedi'i dargedu'n dda i gefnogi cymunedau i ffynnu a manteisio ar y cyfleoedd cyflogaeth a gynigir gan Stad Ddiwydiannol Wrecsam.

<u>Beth rydych wedi'i ddweud wrthym:</u>

8.11 Yn yr ymgynghoriad 'Beth sy'n bwysig i chi?', cafodd 'Cynnal a chadw ein ffyrdd' ei nodi fel blaenoriaeth uchel, gan iddi gael ei graddio fel bod yn bwysig iawn gan ymatebwyr, ac roedd lefelau boddhad o safbwynt y deilliant hwn yn isel iawn. Mae'r negeseuon allweddol o'r sylwadau a dderbyniwyd o safbwynt y deilliant hwn

yn awgrymu bod rhai pobl yn teimlo bod ‘cyflwr ffyrdd yn wael’, ‘tyllau yn y ffyrdd yn achosi problemau’ ac y byddai 'ail wynebu hir dymor yn well na thrwsio dros dro’.

8.12 Yn ogystal, roedd 'Cael cludiant gyhoeddus hygyrch' wedi’i sgorio fel blaenoriaeth yng nghanol y tabl, gan fod sgôr pwysigrwydd a boddhad mewn perthynas â'r deilliant hwn yn lefel ganol. Fodd bynnag, roedd negeseuon allweddol o'r sylwadau a dderbyniwyd mewn perthynas â’r deilliant hwn yn awgrymu bod rhai pobl yn teimlo fod 'angen gwella gwasanaethau, yn enwedig yn y nos ac ar benwythnosau, ac mewn ardaloedd gwledig' a bod 'cyflwr yr orsaf fysiau a llochesi bysiau’n dirywio'.

8.13 Mae cludiant yn fater rheolaidd i bobl ifanc ac fe gafodd ei nodi eto fel un o'r materion pwysicaf i bobl ifanc. Roedd sylwadau’n awgrymu bod pobl ifanc yn ystyried argaeledd a chost cludiant yn rhwystrau rhag iddynt gael teithio.

8.14 Yn ymgynghoriad 'Y Wrecsam a Garem', nododd nifer fawr o ymatebwyr ‘gwella cludiant cyhoeddus (hygyrchedd, argaeledd a chysylltiadau yn Wrecsam a’r tu allan)’ fel eu dyhead ar gyfer y dyfodol. Cafodd nifer o welliannau eu hawgrymu mewn perthynas â'r thema hon: gwella hygyrchedd - gwasanaethau amlach a dibynadwy; byddai cynyddu defnydd yn well i'r amgylchedd; gwell gwasanaethau i mewn i'r dref o bob ardal, yn enwedig ardaloedd gwledig a’r ardaloedd hynny yr effeithir arnynt gan gwymp cwmni bysiau lleol; cysylltiadau gwell yn y Fwrdeistref Sirol a’r tu allan iddi.

8.15 Gofynnwyd i ymatebwyr nodi beth roeddent yn meddwl a fyddai’n rhwystro’r dyhead hwn rhag cael ei gyflawni. Canfuwyd diffyg arian yn rhwystr allweddol i fuddsoddi mewn gwella gwasanaethau a rôl y Cyngor o ran sicrhau bod holl ardaloedd y fwrdeistref yn cael eu cysylltu.

8.16 Gofynnwyd i'r ymatebwyr hefyd am eu barn ar beth y mae’r sector cyhoeddus a sefydliadau eraill angen ei wneud i wireddu’r dyhead hwn. Roedd atebion a nodwyd yn cynnwys lobïo Aelodau Seneddol / Aelodau Cynulliad am fwy o gyllid a gweithredwyr preifat, a’r Cyngor yn gweithio'n agosach gyda'i gilydd i sicrhau nad oes unrhyw gymunedau yn cael eu 'torri i ffwrdd'.

8.17 Gofynnwyd i'r ymatebwyr beth allai’r gymuned a hwythau ei wneud i wireddu’r dyhead hwn. Ychydig iawn o ymatebwyr oedd yn teimlo bod yna unrhyw beth y gallent ei wneud ac fe wnaeth y rhai a gynigiodd atebion deimlo mai'r unig beth y gallent ei wneud oedd defnyddio cludiant cyhoeddus pan gafodd ei wella / pan fyddai ar gael, ac efallai mynd i gyfarfodydd cyhoeddus ac anfon deisebau i weithredwyr a'r Cyngor.

Thema Allweddol Cymunedau Cydlynol 2 - Twf technoleg newydd (gan gynnwys mynediad i'r rhyngrwyd a heriau cymdeithasol megis seiberfwlio)

Pam mae hyn yn bwysig:

8.18 Mae pwysigrwydd cael mynediad i’r rhyngrwyd a'r we fyd-eang wedi tyfu'n gynt a chynt yn ystod y degawd diwethaf. Yn ei ddyddiau cynharaf, roedd y rhyngrwyd yn cael ei ddefnyddio’n bennaf ar gyfer cyfnewid gwybodaeth neu gyfathrebu ar-lein, y dyddiau hyn mae cyfrifiaduron, ffonau smart, setiau teledu smart ac offer digidol eraill yn cael mynediad i'r we, apiau â chysylltiad â’r rhyngrwyd, cyfryngau ffrydio a storio cwmwl yn rhan o’r holl weithgareddau o ddydd i ddydd. Gallant ddarparu modd o ryngweithio cymdeithasol, cael mynediad at newyddion a gwybodaeth, a hefyd gael y hefyd chware rol ehangach o ranr technolegau newydd mewn gweithgareddau hamdden a diwylliannol.

8.19 Mae mynediad masnachol a busnes i'r rhyngrwyd hefyd yn hanfodol. Yn ogystal â darparu cyfleoedd marchnata a gwerthu ar-lein, mae’r rhyngrwyd yn cynnig ffordd o weithio o bell, cydweithrediad o bellter, mynediad at offer gwaith ar-lein a storio data, mynediad at rannu gwybodaeth a gwaith ymchwil, a chysylltedd rhyngwladol drwy dechnoleg cyfathrebu sydyn – y gall pob un ohonynt fod yn llawer mwy cynhyrchiol a chost-effeithiol na'r rhai sy'n cyfateb iddynt all-lein.

8.20 Mae’r sector cyhoeddus a'r trydydd sector hefyd yn dibynnu fwyfwy ar dechnoleg newydd i helpu darparu eu gwasanaethau, naill ai drwy drafodion ar-lein neu fel offeryn gwybodaeth. Mae rhai enghreifftiau'n cynnwys gwefan Galw Iechyd Cymru, ceisiadau budd-daliadau ar-lein yr Adran Gwaith a Phensiynau, ceisiadau am finiau ailgylchu newydd, cylchredeg newyddlenni ysgol, neu adrodd fân ddigwyddiadau i'r heddlu.

8.21 Yn ogystal â'r cyfleoedd cymdeithasol ac economaidd a gynigir gan dechnolegau digidol, mae rhai agweddau negyddol ynghylch diogelwch ar-lein sy'n peri pryder cynyddol, y mae awdurdodau cyhoeddus, darparwyr technoleg a chymdeithas yn ei chyfanrwydd yn dal i ddatblygu dulliau o ddelio â nhw. Mae'r rhain yn cynnwys rheoli mynediad at gynnwys amhriodol ar gyfer plant a phobl ifanc, meithrin perthynas amhriodol ar-lein (gan gynnwys radicaleiddio), seiberfwlio a thwyll ar-lein / dwyn hunaniaeth.

8.22 Seiberfwlio yw pan fydd rhywun yn bwlio eraill dros y rhyngrwyd neu ar ffôn symudol drwy anfon e-byst neu negeseuon testun difrïol yn uniongyrchol at y dioddefwr, neu trwy bostio neu rannu sylwadau cas neu luniau bychanol lle gall pobl eraill eu gweld. Gall seiberfwlio gael effaith negyddol ar les meddyliol, ac mae’n broblem yn arbennig i bobl ifanc.

8.23 Un o'r gwahaniaethau mwyaf rhwng seiberfwlio a bwlio wyneb-yn-wyneb yw y gall fod yn anodd dianc oddi wrtho. Gallai dioddefwyr gael eu bwlio yn unrhyw le, unrhyw bryd - hyd yn oed pan fyddant gartref. Gall seiberfwlio gael cynulleidfa fawr hefyd. Gall negeseuon ar rwydweithiau cymdeithasol, e-byst neu sgyrsiau grŵp gael eu gweld gan lawer o bobl yn gyflym iawn. Gall seiberfwlis hefyd aros yn ddienw, drwy ddefnyddio proffiliau ffug ar rwydweithiau cymdeithasol neu flocio eu rhifau ffôn. Gall hyn ei gwneud yn fwy anodd adnabod y bwlis.

8.24 Mae twyll ar-lein a dwyn hunaniaeth hefyd yn feysydd penodol sy'n peri pryder. Er bod y rhain yn amrywiaeth newydd ar weithgarwch troseddol hirsefydlog, fel gyda

seiberfwlio, mae twf technoleg newydd yn golygu bod y mathau hyn o gam-drin bellach yn gallu bod ym mhobman, drwy'r amser. Gall unrhyw un ddod yn ddioddefwr o sgamiau, ond gall pobl hŷn gael eu targedu'n arbennig, yn aml oherwydd y tybir bod ganddynt fwy o arian na phobl iau. Mae Age UK yn arbennig o bryderus bod newidiadau diweddar i bensiynau preifat yn caniatáu i bobl 55+ oed gymryd eu holl gynilion pensiwn mewn arian parod, sy'n annog sgamwyr i dargedu'r grŵp oedran hwn hyd yn oed yn fwy.

Beth ydym yn ei wybod:

8.25 O'u cymharu â ffigurau cenedlaethol, mae gan ardal Sir y Fflint a Wrecsam gyfraddau is o fanteisio ar y rhyngrwyd na'r cyfartaledd cenedlaethol. Erbyn dechrau 2016, roedd tua 16% o'r holl drigolion 16+ oed naill ai erioed wedi defnyddio'r rhyngrwyd neu heb ei ddefnyddio ers dros dri mis. Ar gyfer Cymru yn ei gyfanrwydd, roedd y ffigur hwn yn 14%, a'r cyfartaledd yn ddim ond 12% ar draws y DU.

8.26 Mae 'ardaloedd digyswllt' daearyddol ledled yr ardal (y llefydd hynny lle mae mynediad i'r rhyngrwyd yn cael ei gyfyngu, yn araf neu nid yn bodoli). Yn draddodiadol, disgwylir i ardaloedd gwledig ddioddef gwasanaeth band eang gwael a derbyniad 3G / 4G o gymharu â'r ardaloedd mwy trefol, ond mae'n werth nodi nad yw'r ardaloedd digyswllt hyn o ran rhyngrwyd, yn cael eu cyfyngu i'r ardaloedd mwy anghysbell ac anhygyrch. Mae yna hefyd lawer o deuluoedd incwm isel nad ydynt yn gallu fforddio tanysgrifiadau i wasanaethau band eang. Gall data symudol fod yn opsiwn mwy fforddiadwy a hyblyg o gymharu â phecynnau band eang sefydlog, oherwydd gellir cael mynediad iddo heb gostau gosod, rhentu llinell, neu gontractau tymor hir. Heb fynediad i'r holl ddarparwyr data symudol 4G, ni fydd llawer o gwsmeriaid yn elwa o'r un cynigion neu fargeinion ag y mae eraill yn ei dderbyn ledled y DU.

8.27 Dim ond 80% o eiddo yn Wrecsam sy'n cael 3G dibynadwy o bob un o'r pedwar prif weithredwr ffonau symudol (gwasanaeth cyffredinol y DU yw 88%). Nid oes unrhyw ardaloedd yn Wrecsam sy'n cael gwasanaeth 4G dibynadwy gan yr holl weithredwyr (lefel gwasanaeth y DU yw 46%).

8.28 Amcangyfrifir nad yw 7% o gartrefi yn Wrecsam yn derbyn cyflymder band eang sydd o leiaf 10 megabit yr eiliad (Mbps). Mae'r llywodraeth yn credu y dylai fod yn hawl gyfreithiol pawb i ofyn am gysylltiad o 10 Mbps. Mae band eang cyflym iawn ar gael i 79% o eiddo yn Wrecsam (gwasanaeth y DU yw 83%).

8.29 Mae mynd i'r afael ag allgáu digidol yn cynnwys edrych ar yr amrywiaeth o rwystrau i gael mynediad i'r rhyngrwyd. Mae'r rhai sydd wedi'u hallgáu'n gymdeithasol ac yn economaidd - aelwydydd tlotach, pobl anabl, a'r henoed, er enghraifft - yn llawer llai tebygol o fod yn ddefnyddwyr y rhyngrwyd na'r boblogaeth yn ei chyfanrwydd. Ar y cyfan, mae adroddiad Ofcom 'Connected Nation 2015' yn amcangyfrif bod y tebygolrwydd o allgáu digidol yn Wrecsam yn 'uchel iawn' ar gyfer dangosyddion digidol, ac 'uchel' ar gyfer dangosyddion cymdeithasol.

8.30 Mae'r ffordd y mae pobl yn cael gafael ar wybodaeth wedi newid yn sylweddol yn y blynyddoedd diwethaf, gyda defnydd o'r rhyngrwyd yng Nghymru yn cynyddu o 42% o aelwydydd yn 2004, i 78% o aelwydydd yn 2015. Amcangyfrifir bod 99% o gartrefi yng Nghymru â'r potensial o gael mynediad i fand eang, sydd wedi cynyddu o ddim ond 12% yn 2004. Mae hyn, ynghyd â'r cynnydd sydyn diweddar yn y defnydd o ffonau smart a'r apiau cysylltiedig wedi gwneud ystod eang o wybodaeth a gwasanaethau digidol yn llawer mwy hygyrch nag ar unrhyw adeg mewn hanes.

8.31 Fe wnaeth defnydd unigol o'r rhyngrwyd ar gyfer y rhai 16+ oed yn ardal Sir y Fflint a Wrecsam gynyddu o 82% yn 2011 i 84% erbyn 2016.

8.32 Os bydd y gyfradd bresennol o dwf yn parhau, rhagwelir y bydd bron pob aelwyd yng Nghymru â mynediad i'r rhyngrwyd o fewn y 10 mlynedd nesaf.

8.33 Ym mis Rhagfyr 2010, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru "Cyflawni Cymru Ddigidol", strategaeth ar gyfer yr holl randdeiliaid a phartneriaid yng Nghymru i wireddu manteision cyfathrebu digidol, gan gydnabod y rôl ganolog sydd gan gyfathrebu digidol yn nhwf ein heconomi ac ansawdd bywyd. Yn arbennig ar gyfer y sector cyhoeddus, mae Llywodraeth Cymru am weld mwy o wasanaethau cyhoeddus a llywodraeth wedi'u cyflwyno'n ddigidol, fel eu bod yn haws i gael gafael arnynt a bod yn fwy effeithlon a chyfleus.

Beth rydych wedi'i ddweud wrthym:

8.34 Ar hyn o bryd rydym yn chwilio am adborth o ymgynghoriadau a allai fod wedi digwydd ar y thema hon. Bydd unrhyw wybodaeth y byddwn yn dod o hyd iddo yn cael ei gynnwys yn yr asesiad terfynol

Thema Allweddol Cymunedau Cydlynol 3 - Tai a'r ddibyniaeth gynyddol ar rentu yn y sector preifat

Pam mae hyn yn bwysig:

8.35 Mae tai da yn darparu cysgod, diogelwch, lle ar gyfer bywyd teuluol a gweithgareddau, preifatrwydd, hunaniaeth bersonol a datblygiad. Mae'n faen clo lles unigolyn a chymuned. Gall tai da gael eu hystyried yn rhan hanfodol o gymdogaeth lwyddiannus a'r gymuned leol. Gall dylunio da helpu i greu delwedd gadarnhaol a gwneud darpariaeth ar gyfer cysylltiadau hygyrch i siopau, ysgolion, cyfleusterau lleol eraill, mannau agored a chyfleoedd cefn gwlad a chyflogaeth, neu helpu i sicrhau hyn.

8.36 Mae'n hanfodol galluogi gweithwyr i symud i ardaloedd lle mae swyddi yn bodoli. Mae buddsoddi mewn tai hefyd yn creu cyflogaeth sylweddol.

8.37 Mae'r sector rhentu preifat gydag ystod amrywiol o gartrefi, gydag ystod eang o anghenion o'u tai. Gall ddarparu hyblygrwydd ar gyfer pobl ag anghenion llety

cyfnewidiol neu sydd angen symud tŷ yn aml am resymau gwaith neu debyg. Fodd bynnag, gall hefyd arwain at ansicrwydd deiliadaeth ac mae ganddo gostau ymlaen llaw ychwanegol yn ogystal â rhenti, a allai fod yn broblem i denantiaid ar ben isaf y farchnad (er enghraifft, dod o hyd i arian ar gyfer blaendal / bondiau, gan ddarparu nifer o wythnosau o rent ymlaen llaw i sicrhau tenantiaeth, neu dalu ffioedd asiantaeth y gall fod angen eu talu bob tro mae tenantiaeth yn cael ei hadnewyddu).

8.38 Tai a rentir yn breifat yw'r sector sy'n tyfu gyflymaf yn y farchnad dai. Yn ogystal â bod yr unig opsiwn tai sydd ar gael ar gyfer y rhai nad ydynt yn gallu fforddio prynu eu cartref eu hunain ond nad ydynt angen cymorth tai cymdeithasol, mae bellach yn bosibl i awdurdodau lleol yng Nghymru gyflawni eu dyletswyddau digartrefedd o fewn y sector preifat.

8.39 Gall tai rhentu'n breifat fod yn anodd eu rheoleiddio, a hynny o ran cydymffurfio â safonau tai ac iechyd a diogelwch, ac yn nhermau sicrwydd daliadaeth a rheoli lefelau rhent. Mae Deddf Tai (Cymru) 2014 yn gobeithio gwella'r sefyllfa hon drwy ei gwneud yn ofynnol i bob landlord ag eiddo yng Nghymru, gofrestru gyda Rhentu Doeth Cymru, ac i naill ai gael eu trwyddedu eu hunain os ydynt yn 'hunan-reoli', neu ddefnyddio asiant trwyddedig.

8.40 Gan fod y boblogaeth yn cynyddu o ran maint a maint cyfartalog aelwydydd yn parhau i ostwng, disgwylir i'r galw am dai dyfu. Y ffactor mwyaf sy'n effeithio ar nifer yr aelwydydd a maint cyfartalog aelwydydd yn y dyfodol o bell ffordd, yw'r twf disgwyliedig yn nifer yr aelwydydd un person.

Beth ydym yn ei wybod:

8.41 Mae'r sector rhentu preifat yn cyfrif am tua 14% o'r stoc tai ar draws Wrecsam - tua 8,200 o anheddau i gyd. Mae hyn yn agos at gyfartaledd Cymru o 15%.

8.42 Rhwng Ebrill 2006 a Mawrth 2016, mae'r gyfradd cwblhau gyfartalog ar gyfer anheddau newydd a throsiadau wedi bod o gwmpas 390 uned y flwyddyn yn Wrecsam. Ers dirywiad economaidd 2007/08, bu gostyngiad cyffredinol yn nifer yr anheddau newydd sy'n cael eu hadeiladu bob blwyddyn.

8.43 Yn Wrecsam, ar gyfer bob blwyddyn ers mis Ebrill 2011 (y dyddiad dechrau ar gyfer amcanestyniadau aelwydydd presennol Llywodraeth Cymru), mae'r ddarpariaeth o anheddau newydd wedi gostwng yn is na'r ffigwr blynyddol sydd ei angen i gyrraedd y gofyniad a nodwyd, o 650-700 o anheddau ychwanegol y flwyddyn. Yn y pum mlynedd hyd at fis Ebrill 2016, dim ond 1,321 o anheddau ychwanegol sydd wedi cael eu darparu - os yw'r gofyniad yn cael ei rannu'n gyfartal ar draws y cyfnod hwnnw, dylai fod y ffigwr yn nes at 3,250-3,500.

8.44 Mae'r sector rhentu preifat wedi tyfu'n sylweddol dros y 25 mlynedd diwethaf, yn tyfu o gyfanswm o tua 3,050 o anheddau yn 1991 i tua 8,200 erbyn 2015 - cynnydd o 170%.

8.45 Mae'r sector tai perchen feddiannaeth wedi gweld twf, yn gymharol, sy'n llawer arafach (35%) yn yr un cyfnod. Mae nifer y tai cymdeithasol sydd ar gael i'w rentu wedi gostwng o bron i 2,500 o anheddau - gostyngiad o -16%. Fe wnaeth adroddiadau newyddion yn Awst 2016 adrodd bod perchentyaeth, yn genedlaethol, ar ei lefel isaf ers 30 mlynedd.

8.46 Mae bron i hanner yr holl aelwydydd un person yn bensiynwyr yn byw ar eu pen eu hunain. Yn 2014, roedd 7,900 o aelwydydd pensiynwyr sengl yn Wrecsam - roedd hyn yn 13.5% o'r holl aelwydydd, a 45% o'r holl aelwydydd person sengl. Wrth i ddisgwyliad oes gynyddu a'r genhedlaeth fawr a anwyd wedi'r Ail Ryfel Byd gyrraedd oedran pensiwn, gallwn ddisgwyl gweld nifer yr aelwydydd pensiynwyr sengl yn cynyddu.

8.47 Ffactorau eraill sydd wedi arwain at feintiau aelwydydd cyfartalog llai yn ystod y degawdau diwethaf, yw tueddiadau tuag at faint teulu llai a'r cynnydd yn nifer y teuluoedd sy'n cael eu chwalu. Disgwylir i'r tueddiadau hyn barhau.

8.48 Efallai bod y tueddiad tuag at aelwydydd llai hefyd yn ddangosydd o'r math o dai y mae angen eu hadeiladu. Yn benodol, mae angen ystyried y ddarpariaeth o dai a fydd yn addas i gwrdd ag anghenion grwpiau oedran hŷn.

8.49 Os yw'r angen am dai ychwanegol yn parhau i fod yn fwy na'r gyfradd y darperir y ddarpariaeth ychwanegol, yna bydd ôl-groniad sy'n cynyddu'n barhaus o angen heb ei ddiwallu, y bydd yn rhaid darparu ar eu cyfer rhywbryd, yn ogystal â phob angen sy'n codi o'r newydd. Mae hyn yn debygol o roi pwysau ychwanegol ar farchnad dai sydd eisoes â phrisiau rhy uchel.

8.50 Gall materion sy'n ymwneud â fforddiadwyedd gael sylw'n rhannol gan economeg cyflenwad-galw syml. Os bydd mwy o dai o'r math cywir yn cael eu hadeiladu, yna bydd y pwysau ar brisiau tai a achosir gan y galw sy'n fwy na'r cyflenwad, yn cael ei liniaru.

Beth rydych wedi'i ddweud wrthym:

8.51 Cyfeiriwch at 'Thema Allweddol Mwy Cyfartal 2 – Gallu cefnogi'r rhai hynny sydd angen tai' i gael adborth ymgynghoriad ar dai.

Thema Allweddol Cymunedau Cydlynol 4 - Mynd i'r afael â cham-drin domestig

Pam mae hyn yn bwysig:

8.52 Diffiniad Llywodraeth y DU o drais a cham-drin domestig yw: "Unrhyw ddigwyddiad neu batrwm o ddigwyddiadau o ymddygiad sy'n rheoli, yn gymhellol neu'n fygythiol, trais neu gamdriniaeth rhwng y rhai 16 oed a throsodd sydd yn, neu sydd wedi bod yn bartneriaid agos neu aelodau o'r teulu, waeth beth fo'u rhyw neu rywioldeb. Gall

hyn gwmpasu, ond nid yw'n gyfyngedig i'r mathau canlynol o gam-drin: seicolegol, corfforol, rhywiol, ariannol ac emosiynol.

8.53 Mae ymddygiad sy'n rheoli'n cynnwys: ystod o weithredoedd a gynlluniwyd i wneud y person yn israddol a / neu ddibynnol, drwy eu hynysu o ffynonellau cymorth, manteisio ar eu hadnoddau a galluoedd ar gyfer elw personol, eu hamddifadu o'r dulliau sydd eu hangen ar gyfer annibyniaeth, ymwrthedd a dianc a rheoleiddio eu hymddygiad bob dydd.

8.54 Ymddygiad cymhellol yw: gweithred neu batrwm o weithredoedd o ymosod, bygythiadau, bychanu a brawychu neu gam-drin arall sy'n cael ei ddefnyddio i niweidio, cosbi, neu godi ofn ar eu dioddefwr.

8.55 Mae trais domestig yn cael effaith sylweddol ar iechyd a lles dioddefwyr yn y tymor byr a'r tymor hwy, gan barhau hyd yn oed ar ôl i'r berthynas ddod i ben. Gall canlyniadau seicolegol trais fod mor ddifrifol â'r effeithiau corfforol. Mae dod i gysylltiad â thrais yn arwain at iechyd corfforol gwaeth yn gyffredinol o gymharu â merched sydd heb ddioddef trais, ac mae'n cynyddu'r risg o ferched yn datblygu ystod o broblemau iechyd.

8.56 Mae plant sy'n byw mewn cartrefi lle mae trais yn y cartref yn tyfu i fyny mewn amgylchedd sy'n anrhagweladwy, yn llawn tensiwn a phryder ac wedi'u trechu gan ofn. Gall hyn arwain at drawma emosiynol a seicolegol sylweddol. Maent hefyd mewn perygl o niwed corfforol eu hunain, naill ai pan maent wedi'u dal yng nghanol ymosodiad neu fel dioddefwyr uniongyrchol o gam-drin eu hunain. Mae delio ag effeithiau oherwydd eich bod wedi dod i gysylltiad â thrais yn y cartref yn elfen sylweddol o waith o gwmpas lliniaru profiadau niweidiol plentyndod.

8.57 Mae cyfran sylweddol o waith diogelu plant ac oedolion yn ymwneud â cham-drin neu esgeuluso pobl ag anghenion gofal a chymorth, sy'n byw yn eu cartrefi eu hunain. Meddylir am gam-drin domestig yn fwyaf cyffredin fel trais rhwng partneriaid agos, ond gall gymryd nifer o ffurfiau eraill a'i gyflawni gan amrywiaeth o bobl. Felly mae diogelu hefyd yn ymwneud â cham-drin domestig.

8.58 Amcangyfrifir bod 1 o bob 4 merch yn dioddef trais yn ystod eu bywyd ac 1 o bob 6 o ddynion. Mae tua 8.5% o ferched a 4.5% o ddynion yn dweud eu bod wedi profi cam-drin domestig yn y flwyddyn flaenorol. Mae hyn yn cyfateb i tua 16,000 o ddioddefwyr sy'n ferched ac 8,000 o ddioddefwyr sy'n ddynion yng Ngogledd Cymru bob blwyddyn.

<u>Beth ydym yn ei wybod:</u>

8.59 Nid oes digon o bobl yn rhoi gwybod am achosion o gam-drin domestig. Mae nifer y troseddau treisgar domestig ag anafiadau yng Ngogledd Cymru yn llawer is na'r nifer amcangyfrifedig o bobl sy'n debygol o fod wedi cael profiad o'r drosedd. Ar gyfer data 2015/16 gan Heddlu Gogledd Cymru, mae'n dangos bod 1,700 o droseddau domestig â thrais wedi'u cofnodi.

8.60 Yn Wrecsam roedd tua 380 o droseddau domestig â thrais wedi'u cofnodi. Roedd dros 50% o'r achosion yn ymwneud mewn rhyw ffordd â phlant o dan 16 oed. Roedd tua 40% yn cynnwys plant dan 5. Roedd 280 o droseddau rhywiol a gofnodwyd yn yr un cyfnod. Roedd tua 80% o ddioddefwyr y ddwy drosedd yn fenywod.

8.61 Amcangyfrifir bod cyfanswm y costau cam-drin domestig yng Ngogledd Cymru yn £66 miliwn. Mae hyn yn cynnwys costau i ofal iechyd, cyfiawnder troseddol, gwasanaethau cymdeithasol, tai a llochesi, costau cyfreithiol ac allbwn economaidd a gollwyd. Fe ddisgynnodd cyfradd gyffredinol trais domestig hefyd rhwng 2001 a 2008, gan ddod i'r casgliad bod buddsoddi mewn gwasanaethau cyhoeddus yn gost effeithiol i'r wlad yn gyffredinol, yn ystod y cyfnod hwnnw.

8.62 Ers peth amser, nid oes digon o bobl wedi rhoi gwybod am gam-drin domestig, ac mae'r cynnydd yn nifer y troseddau yn ystod y tair blynedd diwethaf yn debygol o fod o ganlyniad i gynnydd yn nifer y bobl sy'n rhoi gwybod, yn hytrach na nifer yr achosion. Mae nifer y troseddau rhywiol sydd wedi'u hadrodd hefyd wedi gweld cynnydd dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf. Mae cyfran y dioddefwyr sy'n fenywod wedi aros yn weddol gyson, sef tua 80%.

8.63 Os bydd y tueddiadau diweddar mewn rhoi gwybod am droseddau'n parhau, gall adrodd am achosion o drais domestig gynyddu, er nad yw'n glir os yw'r tueddiadau ar i fyny yn ddiweddar oherwydd bod digwyddiadau'n cynyddu, neu oherwydd bod cynnydd mewn parodrwydd i roi gwybod am y troseddau.

8.64 Efallai y bydd cyflwyniad y cap budd-daliadau a diwygiadau lles eraill yn gwneud dioddefwyr yn fwy tebygol o aros gyda'u camdriniwr os na allant fforddio symud. Bydd credyd cynhwysol yn cael ei dalu i un partner a all gynyddu dibyniaeth ariannol y dioddefwr ar eu camdriniwr.

8.65 Gall newidiadau i reolau cymorth cyfreithiol olygu y gall mwy o ddioddefwyr aros gyda'r tramgwyddwr oherwydd ni fydd cymorth cyfreithiol ar gael fel mater o drefn mewn achosion gwahanu, ysgaru a chyswllt plant, neu i ddioddefwyr nad ydynt yn Brydeinig nad ydynt ar fisa priodasol.

8.66 Y prif bryder wrth fynd i'r afael â cham-drin domestig yw lles a diogelwch y dioddefwyr ac unrhyw blant yr effeithir arnynt. Fodd bynnag, mae angen rhoi ystyriaeth i gefnogi'r rhai sy'n cam-drin ac yn dreisgar tuag at eu partneriaid, yn enwedig rhaglenni atal penodol sy'n delio â newid ymddygiad.

<u>Beth rydych wedi'i ddweud wrthym:</u>

8.67 Ar hyn o bryd rydym yn chwilio am adborth o ymgynghoriadau a allai fod wedi digwydd ar y thema hon. Bydd unrhyw wybodaeth y byddwn yn dod o hyd iddo yn cael ei gynnwys yn yr asesiad terfynol

Thema Allweddol Cymunedau Cydlynol 5 - Effaith cam-drin cyffuriau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol

Pam mae hyn yn bwysig:

8.68 Tan yn ddiweddar, mae ymchwil ar faich alcohol wedi canolbwyntio'n bennaf ar y niwed a brofir gan yfwyr eu hunain. Fodd bynnag, mae cydnabyddiaeth gynyddol o'r niwed y gall yfed alcohol ei roi ar y bobl o'u cwmpas, gan gynnwys aelodau o'r teulu, ffrindiau, cyd-weithwyr a dieithriaid.

8.69 Mae'r niwed yn cynnwys trais sy'n gysylltiedig ag alcohol ac ymddygiad ymosodol (gan gynnwys trais domestig ac yn y nos); esgeulustod, camdriniaeth neu gam-fanteisio (gan gynnwys plant); ymddygiad troseddol (difrod i eiddo a lladrad i gefnogi arferion yfed); anafiadau anfwriadol (e.e. damweiniau traffig ffyrdd); a hyd yn oed anhwylder sbectrwm alcohol y ffoetws.

8.70 Gall pobl hefyd brofi niwed i'w iechyd meddwl a lles, drwy bryder ynghylch ymddygiad yfwyr, gan gynnwys ofn ymosodiad ac aflonyddu ar gwsg, beichiau gofal a phryderon am sefyllfa ariannol teulu / aelwyd yn deillio o fod yn gaeth i alcohol.

Beth ydym yn ei wybod:

8.71 Mae cam-drin cyffuriau weithiau yn weladwy iawn mewn mannau cyhoeddus, yn peri pryder i'r cyhoedd, ac yn cael effaith ar droseddau meddiangar sy'n cael eu hadrodd. Fodd bynnag, mae nifer y troseddau a gyflawnwyd a'r bobl sy'n ymwneud â nhw'n eithaf bach (fe wnaeth 26% o'r cyhoedd yn ardal Heddlu Gogledd Cymru roi gwybod am lefelau uchel o ddefnyddio cyffuriau canfyddedig, er gwaethaf cyfradd flynyddol o ddim ond 2.06 o droseddau fesul mil o'r boblogaeth). O fwy o bryder ar gyfer iechyd a lles cymunedol ehangach yw sylweddau seicoweithredol a chyffuriau newydd, nad ydynt o reidrwydd yn anghyfreithlon). Mae caethiwed i gyffuriau presgripsiwn hefyd yn broblem.

8.72 Mae chwech o bob deg oedolyn (59.7%) yng Nghymru wedi'u niweidio oherwydd arferion yfed rhywun arall yn ystod y 12 mis diwethaf. Yn genedlaethol, amcangyfrifir y bydd hyn yn gyfwerth â 1,460,151 o bobl 18 oed a hŷn.

8.73 Amcangyfrifodd Arolwg Troseddu Cymru a Lloegr fod ychydig dros hanner (53%) o'r holl drais yn 2013/14 wedi'i chyflawni gan rywun a oedd dan ddylanwad alcohol

Beth rydych wedi'i ddweud wrthym:

8.74 Yn yr ymgynghoriad 'Beth sy'n bwysig i chi?', cafodd 'Lleihau lefel troseddu ac ofn troseddu' ei nodi fel blaenoriaeth uchel, gan iddi gael ei graddio fel bod yn bwysig iawn gan ymatebwyr, ac roedd lefelau boddhad o safbwynt y deilliant

hwn yn isel. Mae'r negeseuon allweddol o'r sylwadau a dderbyniwyd o safbwynt y deilliant hwn yn awgrymu bod rhai pobl yn teimlo 'bod diffyg presenoldeb heddlu a theledu cylch cyfyng' a bod 'cyffuriau ac alcohol yn cyfrannu at y broblem'. Awgrymodd sylwadau bod rhai pobl yn teimlo bod 'troseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol yn cael effaith negyddol ar yr economi gyda'r nos' a bod 'angen i economi'r nos fod yn fwy amrywiol'.

8.75 Yn ymgynghoriad 'Y Wrecsam a Garem', cafodd mynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol, a'i leihau, ei nodi gan nifer fawr o ymatebwyr. Roedd mwyafrif y sylwadau mewn perthynas â'r dyhead hwn yn ymwneud â chanol y dref, fodd bynnag, awgrymodd rhai pobl hefyd fod hwn yn fater mewn ardaloedd eraill hefyd.

8.76 Cafodd nifer o welliannau eu hawgrymu mewn perthynas â'r thema hon yn cynnwys: lleihau yfed ac ymddygiad sy'n gysylltiedig ag yfed; lleihau'r defnydd o gyffuriau ac ymddygiad yn ymwneud â chyffuriau, gan gynnwys nodwyddau; a lleihau cardota.

8.77 Themâu eraill a nodwyd yn aml a oedd yn ymwneud â thaclo a lleihau ymddygiad gwrthgymdeithasol oedd: cefnogi'r bobl ddigartref a lleihau digartrefedd, gan wneud Wrecsam yn lle diogel ac sydd angen mwy o blismona gweladwy.

8.78 Gofynnwyd i ymatebwyr nodi beth roeddent yn ei feddwl a fyddai'n rhwystro taclo a lleihau ymddygiad gwrthgymdeithasol. Ystyriwyd bod y rhwystrau allweddol yn cynnwys: diffyg plismona gweladwy yng nghanol y dref, diffyg adnoddau i fynd i'r afael â'r materion hyn, ddim ynei drin fel blaenoriaeth, ardaloedd eraill yn cau llochesi i'r bobl ddigartref, gan greu mewnlifiad o bobl ddigartref i Wrecsam.

8.79 Gofynnwyd i'r ymatebwyr hefyd am eu barn ar beth y mae'r sector cyhoeddus a sefydliadau eraill angen ei wneud i wireddu'r dyhead hwn. Roedd atebion a nodwyd yn cynnwys: gwella'r cydbwysedd rhwng cefnogi rhai sydd â materion iechyd meddwl / dibyniaeth ar gyffuriau, a diwallu anghenion y cyhoedd yn gyffredinol, mwy o bresenoldeb yr heddlu a mwy o deledu cylch cyfyng, sefydliadau cyhoeddus yn gweithio gyda'i gilydd i fynd i'r afael â'r materion ymddygiad gwrthgymdeithasol a rhoi cefnogaeth i'r rhai sydd â materion iechyd meddwl.

8.80 Gofynnwyd i'r ymatebwyr hefyd beth allai'r gymuned a hwythau ei wneud i daclo hwn. Ychydig iawn o ymatebwyr a deimlai nad oedd unrhyw beth y gallent ei wneud ac fe wnaeth y rhai a wnaeth gynnig atebion deimlo mai'r unig beth y gallent ei wneud oedd rhoi gwybod am faterion yn amlach, ac efallai talu mwy o dreth y Cyngor am fwy o bresenoldeb heddlu i helpu i fynd i'r afael â hwn.

Thema Allweddol Cymunedau Cydlynol 6 – Integreddio CEM Berwyn

Pam mae hyn yn bwysig:

8.81 Mae Carchar Ei Mawrhydi (CEM) Berwyn yn ymyl Stad Ddiwydiannol Wrecsam. Disgwylir iddo gymryd ei garcharorion cyntaf ym mis Chwefror 2017. Fe wnaeth y gwasanaeth carchardai feddiannu'r adeilad gyntaf ym mis Awst 2016, ac mae staff y carchar wedi dechrau gweithio o safle'r carchar yn barod.

8.82 Unwaith y bydd yn weithredol, disgwylir y bydd yn dod â hwb o £23 miliwn y flwyddyn i'r economi ranbarthol ac yn creu hyd at 1,000 o swyddi

8.83 Er bydd y carchar yn cael ei gweithredu gan y sector cyhoeddus, bydd tua thraean o ddarpariaeth gwasanaeth yn cael ei allanoli. Mae hyn yn cynnwys gwasanaethau iechyd ac addysg, ac mae Gwasanaeth Carchardai Ei Mawrhydi (GCEM) yn chwilio am bartneriaid lleol i helpu ddarparu gweithdai sgiliau a diwydiannau. Mae'r gweithdai hyn yn rhan o'r cam paratoi adferiad ac adsefydlu ar gyfer troseddwyr, a bydd yn rhoi cyfleoedd gwaith a hyfforddiant ystyrlon.

Beth ydym yn ei wybod:

8.84 Bydd y carchar yn llawn yn Chwefror 2018. Yn y pen draw bydd yn dal hyd at 2,100 o garcharorion oedolion gwrywaidd Categori C yn bennaf. Bydd tua traean ohonynt yn dod o Ogledd Cymru a bydd y carchar yn cael ei ddynodi'n garchar ailsefydlu, a fydd yn canolbwyntio ar ddychwelyd y troseddwyr i'w cymuned.

8.85 Bydd cael carchar yn Wrecsam yn gwneud y logisteg o ymweliadau carchar yn haws i deulu a ffrindiau troseddwyr ar draws Gogledd Cymru, a gallai gael effeithiau lles cadarnhaol ar yr ymwelwyr hyn a'r carcharorion. Gall cynnal cysylltiadau teuluol helpu atal carcharorion rhag aildroseddu ac yn gallu eu cynorthwyo i ymgartrefu'n llwyddiannus yn y gymuned ar ôl eu rhyddhau. Bydd cadw cysylltiad teuluol wrth fod yn y carchar hefyd yn lleihau'r unigrwydd a'r boen o fod yn y carchar, i garcharorion a theuluoedd.

8.86 Mae cysylltiadau cludiant cyhoeddus i'r carchar a Stad Ddiwydiannol Wrecsam yn ei chyfanrwydd wedi'u nodi fel pryder, ac mae angen posibl am fuddsoddiad pellach yn y maes hwn.

Beth rydych wedi'i ddweud wrthym:

8.87 Ar hyn o bryd rydym yn chwilio am adborth o ymgynghoriadau a allai fod wedi digwydd ar y thema hon. Bydd unrhyw wybodaeth y byddwn yn dod o hyd iddo yn cael ei gynnwys yn yr asesiad terfynol.

Thema Allweddol Gwydn 7 – Gwirfoddoli

Pam bod hyn yn bwysig:

8.88 Gellir disgrifio gwirfoddoli fel rhoi eich amser a'ch egni am ddim ac o ddewis heb boeni am elw ariannol. Gall ddisgrifio cannoedd o wahanol weithgareddau y mae pobl yn dewis eu gwneud er budd neu i gefnogi eraill yn y gymuned. Defnyddir y gair gwirfoddoli am ystod o weithgareddau megis gwasanaeth i'r gymuned, hunangymorth, gwaith elusennol, bod yn gymydog da, dinasyddiaeth, gwasanaeth cyhoeddus, gweithredu cymunedol, ymwneud cymunedol, ymddiriedolwyr, aelod a helpwr.

8.89 Mae gwirfoddoli yn cynyddu cyfalaf cymdeithasol cymuned a llesiant unigol y gwirfoddolwyr eu hunain a'r bobl y maent yn eu cynorthwyo. Gall helpu i gynyddu galluedd cymuned a chreu gwydnwch cymdeithasol. Mae'n rhoi mwy o ymdeimlad o ystyr a phwrpas i unigolion ac mae'n meddu ar lawer o fuddion iechyd a datblygiad personol hefyd.

8.90 Mae'r sector gwirfoddol yn chwarae rhan bwysig yn darparu gwasanaethau cyhoeddus ar draws y Deyrnas Unedig – mae mwyafrif o'u hincwm yn deillio o berthnasoedd â llywodraeth leol. Gall elusennau lenwi bylchau yn y gwasanaethau a ddareprir nad yw'r sectorau cyhoeddus neu breifat yn medru neu'n barod i'w cyflenwi, a nhw yw'r trydydd grŵp sy'n ennyn mwyaf o ymddiriedolaeth mewn cymdeithas ar ôl meddygon a'r heddlu.

8.91 Nodwyd llawer o heriau i ddyfodol gwirfoddoli gan y Cyngor Cenedlaethol Mudiadau Gwirfoddol yn cynnwys: sut y gellir cryfhau'r seilwaith gwirfoddoli a sut y gellir datblygu partneriaethau ystyrlon rhyngddynt a'r sectorau statudol a busnes.

Yr hyn rydym ni'n ei wybod:

8.92 Enw'r mudiad ymabrel ar gyfer y sector gwirfoddol yn Wrecsam yw Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Wrecsam (Association of Voluntary Organisations in Wrecsam - AVOW). Maent yn helpu i hyrwyddo, cefnogi, galluogi a datblygu sector gwirfoddol cynaliadwy yn yr ardal, trwy ddarparu cyngor ynghylch codi arian, arferion gorau ym maes gwirfoddoli, llywodraethu da, hyfforddiant a chynrychioli barn mudiadau'r trydydd sector mewn trafodaethau gyda'r cyrff statudol.

8.93 Yn 2014/15 gwnaeth AVOW leoli 358 o wirfoddolwyr a darparu cyrsiau hyfforddiant i bron i 200 o gyfranogwyr; derbyn ac ymateb i fwy na 104,500 o ymholiadau cyffredinol; derbyn ac ymateb i 177 o ymholiadau cyngor cyllido; cynorthwyo grwpiau gwirfoddol lleol i sicrhau £1.2m o gyllid; darparu bron i £45,000 trwy gynlluniau grantiau a benthyciadau lleol; a chyflwyno tystysgrifau i gydnabod dros 6,000 o oriau o weithgarwch gwirfoddoli.

8.94 Er bod lefelau diddordeb mewn gwirfoddoli ar hyn o bryd yr uchaf y maent wedi bod erioed, mae cyllid ar gyfer gwirfoddoli'n wynebu cyfnodau caled yn debyg i'r ffyrdd y mae'r sector cyhoeddus.

Yr hyn rydych chi wedi'i ddweud wrthym ni:

8.95 Ar hyn o bryd rydym yn chwilio am adborth o ymgynghoriadau a allai fod wedi digwydd ar y thema hon. Bydd unrhyw wybodaeth y byddwn yn dod o hyd iddo yn cael ei gynnwys yn yr asesiad terfynol.

Thema Allweddol Cymunedau Cydlynol 8 - Ysbryd cymunedol, grymuso ac ymdeimlad o falchder

Pam mae hyn yn bwysig:

8.96 Daeth ymdeimlad cryf o berthyn i gymunedau ymddangos fel ased amlwg, drwy gydol y sgwrs genedlaethol 'Y Gymru a Garem' a ddigwyddodd drwy gydol 2014 a 2015. Fodd bynnag, barn nifer oedd gall diffyg ymgysylltiad rhwng y gymuned a'r rhai sy'n gwneud y penderfyniadau arwain at rhwystredigaeth oherwydd yr anallu i wneud y newidiadau angenrheidiol.

8.97 Roedd teimlad yn aml bod creu'r amodau lle gall cymunedau a mentrau ffynnu ar goll o flaenoriaethau'r gwasanaethau cyhoeddus. Mae mwy o rymuso'n cael ei weld fel rhywbeth sy'n creu gwydnwch a mwy o ymdeimlad o gyfrifoldeb, ond gall ymyriadau o'r brig i lawr arwain at ddadrymuso.

8.98 Mae angen rhoi synnwyr o berchnogaeth I gymunedau os ydynt am oroesi; ymdeimlad fod ganddynt reolaeth am yr hyn sy'n digwydd yn eu cynefin.

8.99 Ar y cyfan roedd pobl yn teimlo nad oedd cysylltiad rhyngddynt â'r bobl sy'n gwneud penderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau bob dydd gan fod enderfyniadau yn teimlo ymhell oddi wrthynt, o'r brig i lawr heb unrhyw gysylltiad amlwg gyda chanlyniadau. Adroddwyd cynnydd yn yr ymdeimlad o flinder a rhwystredigaeth ynghylch y modd y mae ymgysylltu'n digwydd.

8.100 Mae angen ail-ddychmygu rôl llywodraeth. Mae angen i'r Llywodraeth ail-feddwl eu diben ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain; mae angen system o stiwardiaeth yn hytrach na dim ond bod yn ddarparwr o wasanaethau gyhoeddus a gwarantwr o ddiogelwch.

Beth ydym yn ei wybod:

8.101 Bu gwelliant cadarnhaol a sylweddol yn y proffil o ymgynghoriad ac ymgysylltu yn y Cyngor a nifer yr ymatebwyr sy'n rhan o ymgynghoriadau, fodd bynnag er gwaethaf y cynnydd yn nifer o bobl yn cymryd rhan, mae cyfran lai o bobl leol yn teimlo y gallant effeithio ar benderfyniadau lleol.

Beth rydych wedi'i ddweud wrthym:

8.102 Yn yr ymgynghoriad 'Beth sy'n bwysig i chi?', ym mis Ionawr / Chwefror 2016, cafodd 'Annog pobl i ddod ymlaen yn dda gyda'i gilydd yn y gymuned' ei rhestru fel blaenoriaeth eithaf uchel. Er bod y deilliant hwn o bwysigrwydd cymharol isel, roedd boddhad mewn perthynas â'r deilliant hwn hefyd yn gymharol isel, gan fethu â chyrraedd y lefel o bwysigrwydd. Mae negeseuon allweddol o'r sylwadau a gafwyd mewn perthynas â'r deilliant hwn yn awgrymu bod rhai pobl yn teimlo

bod angen ‘annog a chefnogi ysbryd cymunedol' yn ogystal ag 'ymdeimlad o gyfrifoldeb unigol a chymunedol'.

8.103 Cafodd ymgynghoriad 'Y Wrecsam a Garwn' a oedd yn rhedeg ym mis Hydref a Thachwedd llawer iawn o ymatebion ar 'annog ysbryd cymunedol, grymuso ac ymdeimlad o falchder'. Awgrymwyd nifer o welliannau mewn perthynas â'r thema hon yn cynnwys: pobl yn falch o lle maent yn byw ac yn y cymunedau y maent yn perthyn; pobl yn cael mwy o ymdeimlad o 'ysbryd cymunedol'; pobl yn cydweithio er budd eu cymunedau; pobl yn dod i adnabod ei gilydd ac yn helpu ei gilydd fwy.

8.104 Gofynnwyd i ymatebwyr nodi beth roeddent yn meddwl a fyddai’n rhwystro’r dyhead hwn rhag cael ei gyflawni. Y rhwystrau allweddol canfyddedig oedd: biwrocratiaeth a deddfwriaeth (e.e. iechyd a diogelwch a phobl ddim yn gwybod beth maent yn 'cael' ei wneud); teimlad o ddifaterwch cyffredinol, a diffyg balchder ymysg pobl yn Wrecsam.

8.105 Gofynnwyd i'r ymatebwyr hefyd am eu barn ar beth y mae’r sector cyhoeddus a sefydliadau eraill angen ei wneud i wireddu’r dyhead hwn. Mae atebion a nodwyd yn cynnwys: dysgu o ardaloedd eraill sydd â synnwyr cryf o ysbryd cymunedol; darparu gwybodaeth i gymunedau am yr hyn y gallent ei wneud; darparu mentoriaid a hyrwyddwyr ym mhob cymuned i helpu - efallai o'r sefydliadau gwasanaeth cyhoeddus neu fusnesau.

8.106 Gofynnwyd i'r ymatebwyr hefyd beth allai’r gymuned a hwythau ei wneud i wireddu’r dyhead hwn. Roedd ymatebwyr yn teimlo y gallent wirfoddoli mwy, helpu pobl leol sydd angen cymorth (e.e. pobl hŷn sy'n byw yn eu cartrefi eu hunain), a mynychu cyfarfodydd (pan gânt y cyfle) i helpu datblygu a chyflwyno cynlluniau i wella eu hardaloedd. Roedd angen i wirfoddolwyr wybod pa wybodaeth / cefnogaeth / cymorth sydd ar gael iddynt er mwyn eu galluogi i wneud hyn.

8.107 Yn ogystal, yn ymgynghoriad 'Y Wrecsam a Garwn’, gwnaed nifer o sylwadau ynghylch gwella cydlyniant cymunedol a hyrwyddo amrywiaeth.

8.108 Holodd ymgynghoriad ‘Y Wrecsam a Garem’ ymatebwyr beth oedd y term ‘cymuned’ yn ei olygu iddyn nhw. Y themâu cryfaf a ddaeth i’r amlwg yn atebion yr ymatebwyr oedd ‘grŵp o bobl', 'pobl yn dod ynghyd ac yn cyfranogi' ac 'yr ardal yn agos at le maent yn byw'. Fe wnaeth rhai ymatebwyr gysylltu ‘Wrecsam’ â’r term cymuned, ond i lai o raddau. Yn ddiddorol, cafodd ‘helpu, cefnogi, gofalu ac edrych ar ôl ein gilydd', 'bod yn amrywiol, yn gynhwysol, yn gydlynol ac yn gytûn' a 'bod yn gyfeillgar, yn gymdogol a chymdeithasu a chyfranogi mewn gweithgareddau' eu nodi fel haenau pwysig o gymuned, ynghyd â 'rhannu diddordebau cyffredin', 'rhannu nodau cyffredin', 'rhannu gwerthoedd a chredoau tebyg' ac 'eisiau gwella rhywbeth'.

8.109 Gofynnwyd i'r ymatebwyr hefyd pa gymunedau roeddent yn teimlo’n perthyn iddynt. Roedd y cwestiwn hefyd yn caniatáu ateb agored. Y thema gryfaf a

ddaeth i’r amlwg yn atebion yr ymatebwyr oedd y ‘pentref’ lle’r oeddent yn byw, a phentrefi eraill gerllaw. Roedd nifer fawr o ymatebwyr hefyd yn teimlo eu bod yn perthyn i ‘Wrecsam’ ar y cyfan. Ar y llaw arall, roedd nifer fach o ymatebwyr yn cael mwy o ymdeimlad o gymuned gyda'u 'cymdogaeth/cymdogion agos'. Mae’n bwysig nodi bod nifer uchel o ymatebwyr hefyd wedi dweud nad oeddent yn teimlo’n rhan o unrhyw gymuned, gan eu bod yn teimlo bod yr ymdeimlad o gymuned wedi'i golli. Yn ddiddorol, nododd rhai ymatebwyr ‘gwaith’ a ‘chlybiau a chymdeithasau’ roeddent yn mynd iddynt, fel mathau o gymunedau roeddent yn teimlo’n perthyn iddynt.

Thema Allweddol Cymunedau Cydlynol 9 - Gwneud Wrecsam yn ddeniadol

Pam mae hyn yn bwysig:

8.110 Mae amrywiaeth gyfoethog o gymunedau yn Wrecsam. Maen nhw’n medru bod yn gymunedau corfforol, er enghraifft pentrefi unigol, neu’n haniaethol, er enghraifft crefydd. Mae'r lleoedd y mae'r cymunedau hyn yn byw ynddynt wedi'u llunio gan batrymau datblygu o'r gorffennol sydd, yn fwy diweddar, wedi’u dylanwadu gan y system gynllunio.

8.111 Ymhlith yr arwyddion allweddol o safonau datblygiad yn ein trefi a’n pentrefi yw mesurau gwrthrychol fel safonau cenedlaethol ar gyfer tai cynaliadwy ac eiddo masnachol, a faint o ddatblygu sy’n cael ei ganiatáu yng nghefn gwlad, yn ogystal ag arwyddion goddrychol fel barn y cyhoedd ynglŷn â datblygiadau newydd ar ôl iddynt gael eu hadeiladu.

Beth ydym yn ei wybod:

8.112 Yn 2015/16 gwnaed gwelliadau gan y cyngor i hyrwyddo adeiladu tai ar dir a ddatblygwyd yn flaenorol a chynnal perfformiad i amddiffyn cadwraeth ac ardaloedd tirwedd arbennig. Fodd bynnag, bydd y perfformiad hwn dan bwysau yn y dyfodol oherwydd galw am dir datblygu ar gyfer tai a defnydd masnachol.

Beth rydych wedi'i ddweud wrthym:

8.113 O bwysigrwydd mawr i bobl yn ymgynghoriad 'Y Wrecsam a Garem' oedd gwneud Wrecsam yn ddeniadol - gan gynnwys ei gadw'n lân ac yn daclus. Roedd sylwadau’n ymwneud â’r dyhead hwn yn cynnwys canol y dref a rhannau eraill o'r Fwrdeistref Sirol. Teimlwyd pe bai Wrecsam yn fwy deniadol, y byddai'n annog pobl i mewn i'r ardal. Cafodd nifer o welliannau eu hawgrymu mewn perthynas â'r thema hon, yn cynnwys: gwella ymddangosiad cyffredinol Wrecsam; gwella glendid Wrecsam: ac annog ymdeimlad o falchder yn yr ardal leol.

8.114 Gofynnwyd i ymatebwyr nodi beth roeddent yn meddwl a fyddai'n rhwystro hyn rhag cael ei gyflawni. Canfuwyd mai'r rhwystrau allweddol oedd: adnoddau - diffyg pobl ac arian i wneud hyn; ni ystyrir ei fod yn flaenoriaeth i'r Cyngor; a diystyriaeth y cyhoedd a'r cymhelliad i'w wella.

8.115 Gofynnwyd i'r ymatebwyr hefyd am eu barn ar beth y mae'r sector cyhoeddus a sefydliadau eraill angen ei wneud i wireddu'r dyhead hwn. Roedd atebion a nodwyd yn cynnwys: camau gorfodi yn erbyn mwy o faterion sy'n cyfrannu at ymddangosiad canol y dref, megis sbwriel; tafarndai / landlordiaid yn cymryd mwy o gyfrifoldeb am ardaloedd y tu allan i'w heiddo; pobl yn gwneud gwasanaeth cymunedol, sy'n ymwneud â'r gwasanaethau prawf, neu'r rhai sy'n ddi-waith sy'n helpu; a chynyddu balchder a chyfrifoldeb pobl am yr ardal.

8.116 Gofynnwyd i'r ymatebwyr hefyd beth allai'r gymuned a hwythau ei wneud i wireddu'r dyhead hwn. Roedd llawer o ymatebwyr yn teimlo'n gryf fod yna fwy y gallai unigolion ei wneud. Awgrymodd rhai ddigwyddiadau / gweithgorau glanhau yn y dref a chymunedau eraill, ond teimlwyd y byddai angen ysgogiad a hwb gan y Cyngor gyda hyn i lwyddo.

8.117 Yn ogystal, yn yr ymgynghoriad 'Beth sy'n bwysig i chi?' cafodd 'Hyrwyddo datblygiad sy'n ddeniadol ac yn gynaliadwy ac yn gwella'r ardal leol' ei sgorio'n flaenoriaeth eithaf uchel. Er bod y deilliant hwn wedi'i sgorio'n bwysigrwydd ar lefel ganol yn unig, roedd boddhad mewn perthynas â'r deilliant hwn yn eithaf isel. Mae negeseuon allweddol o'r sylwadau a dderbyniwyd mewn perthynas â'r deilliant hwn yn awgrymu bod rhai pobl yn teimlo'n 'bryderus ynghylch cadw treftadaeth ac adeiladau Wrecsam', bod 'angen adfywio a gwella canol y dref' a bod 'angen gwella'r cyfleusterau a'r isadeiledd lleol'.

9 Nod Iles 6 – Diwylliant bywiog a’r iaith Gymraeg yn ffynnu

Cyflwyniad i'r nod hwn

9.1 Mae hwn yn ymwneud â chael cymdeithas sy'n hybu ac yn diogelu diwylliant, treftadaeth a'r iaith Gymraeg, ac sy'n annog pobl i gymryd rhan yn y celfyddydau, chwaraeon a hamdden.

Thema allweddol Bywiog a’r Iaith Gymraeg 1 - Hyrwyddo'r Iaith Gymraeg

Pam mae hyn yn bwysig:

9.2 Mae'r iaith Gymraeg yn un o ieithoedd lleiafrifol mwyaf cadarn Ewrop, wedi goroesi er gwaethaf ei hagosrwydd at yr iaith byd mwyaf dominyddol o’r ddwy ganrif ddiwethaf (Saesneg). Mae'r iaith Gymraeg yn rhan allweddol o ddiwylliant a hunaniaeth y rhanbarth, gan fod y brif iaith a siaredir yn rhai o'n cymunedau, yn ogystal â chael presenoldeb sylweddol mewn nifer o weithleoedd, sefydliadau dysgu, ac o amgylch strydoedd ein trefi a phentrefi. Mae sgiliau iaith Gymraeg yn cael eu hystyried yn gynyddol fel sgiliau cyflogaeth allweddol mewn nifer o sectorau sy'n dod i'r amlwg, megis y sectorau cyfryngau, bwyd a thwristiaeth, a chynhyrchu cynnwys digidol.

9.3 Mae angen trin y cynnydd calonogol yn nifer y bobl ifanc sy'n siarad Cymraeg, wedi i Deddf yr Iaith Gymraeg gyflwyno’r iaith Gymraeg fel pwnc gorfodol mewn ysgolion, yn ofalus. Mae'r rhan fwyaf o'r bobl ifanc hyn yn dysgu Cymraeg fel ail iaith, ac mae eu cysylltiad â'r iaith, a lefel eu rhuglder, yn debygol o fod yn gyfyngedig o'u cymharu â phlant sy'n derbyn addysg cyfrwng Cymraeg. Mae'r ffigurau diweddaraf o'r Cyfrifiad yn awgrymu nad yw gallu iaith Gymraeg a ddysgir fel plant yn cael ei gynnal o anghenraid wrth fynd yn oedolion.

9.4 Er mwyn goroesi, mae angen i'r iaith Gymraeg fod yn iaith gyfathrebu. Fe wnaeth cyflwyno Cymraeg fel pwnc gorfodol mewn ysgolion atal (neu o leiaf arafu) tuedd 1901-1981, a fyddai wedi dynesu tuag at y rhagfynegiad o 'dim siaradwr Cymraeg’ erbyn 2041, ond mae angen gwneud mwy.

9.5 Ers Deddf yr Iaith Gymraeg, mae tystiolaeth yn dangos bod rhwystrau i gael mynediad i wasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg yn parhau i fod. Mae prif rwystrau’n cynnwys diffyg cyflenwad gwasanaethau’n Gymraeg, diffyg galw am wasanaethau oherwydd diffyg hyder ymhlith siaradwyr nad ydynt yn rhugl yn y Gymraeg, a diffyg ymwybyddiaeth bod gwasanaethau'n cael eu darparu yn Gymraeg. Mae tystiolaeth am effeithiolrwydd ffyrdd penodol o fynd i'r afael â'r rhwystrau hyn yn brin, er bod rhywfaint o dystiolaeth i awgrymu bod marchnata argaeledd gwasanaethau Cymraeg yn gallu arwain at fwy o niferoedd.

9.6 Mae ymchwil yn awgrymu canolbwyntio marchnata iaith Gymraeg a dulliau hyrwyddo ar grwpiau oedran iau a; gwella hygyrchedd at gyfryngau ac adnoddau Cymraeg, a'u perthnasedd; a gwneud y mwyaf o botensial technoleg fel y rhyngrwyd a chyfryngau cymdeithasol newydd.

Beth ydym yn ei wybod:

9.7 Roedd Cyfrifiad 2011 yn amcangyfrif bod 16,659 o bobl tair oed a throsodd sy'n gallu siarad Cymraeg yn Wrecsam. Mae hyn yn 12.9% o'r boblogaeth. Ar gyfer Cymru gyfan, mae 19% o'r boblogaeth yn gallu siarad Cymraeg.

9.8 Mae'r canran uchaf o siaradwyr Cymraeg i'w gweld yn adran etholiadol wledig Dyffryn Ceiriog gyda 31.2%. Wynnstay, o fewn tref Wrecsam, yw'r ward gyda'r canrna isaf o siaradwyr Cymraeg gyda 7.7%. Yn gyffredinol mae'r nifer o siaradwyr Gymraeg mewn ardaloedd gwledig.

9.9 Mae data o'r arolwg defnydd iaith Gymraeg 2013-15 yn dangos bod

- mae'r rhan fwyaf o siaradwyr Cymraeg yn Wrecsam yn dysgu siarad Cymraeg yn yr ysgol (64%), ac fe wnaeth 31% ei dysgu yn y cartref yn blentyn bach. Fe wnaeth tua 5% ddysgu drwy'r cyrsiau Cymraeg i oedolion. (Cymru = 43% yn y cartref, 50% yn yr ysgol, 5% ar gwrs Cymraeg i oedolion).
- ni wnaeth unrhyw siaradwyr Cymraeg yn Wrecsam ddweud eu bod bob amser neu fel arfer yn defnyddio'r Gymraeg wrth ddelio â sefydliad cyhoeddus (Cymru = 29%). Dywedodd 67% nad ydynt byth yn defnyddio'r Gymraeg gyda sefydliadau cyhoeddus, a oedd yn sylweddol uwch na'r ffigur yng Nghymru o 49%.
- ni wnaeth unrhyw siaradwyr Cymraeg adrodd eu bod bob amser neu fel arfer yn gallu siarad Cymraeg yn y gwaith yn Wrecsam - y cyfartaledd yng Nghymru yw 32%. Dywedodd 62% nad ydynt byth yn defnyddio'r Gymraeg yn y gwaith, a oedd yn sylweddol uwch na'r ffigur yng Nghymru o 42%.

9.10 Ym mlwyddyn ysgol 2015/16, roedd wyth allan o 59 ysgol gynradd yn yr ardal yn ysgolion Cymraeg iaith gyntaf neu'n ddwyieithog. Roedd 1,700 o ddisgyblion yn yr ysgolion hyn, a oedd yn 13% o'r holl ddisgyblion ysgol gynradd (Cymru = 26%).

9.11 Dim ond un o'r naw ysgol uwchradd sy'n darparu addysg cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog. Roedd 750 o ddisgyblion yn yr ysgol hon, a oedd yn 12% o'r holl ddisgyblion ysgol uwchradd. (Cymru = 33%)

9.12 Er bod nifer y siaradwyr Cymraeg yn yr ardal wedi cynyddu rhwng 1991 a 2001, maent wedi gostwng mewn nifer dros y blynyddoedd mwy diweddar. Mae cyfran y siaradwyr Cymraeg yn y boblogaeth wedi bod yn dirywio'n araf am nifer o genedlaethau.

Beth rydych wedi'i ddweud wrthym:

9.13 Yn yr ymgynghoriad ‘Beth sy'n bwysig i chi?’, cafodd ‘Cefnogi a hyrwyddo’r diwylliant a’r iaith Gymraeg' ei raddio fel blaenoriaeth isel gan ymatebwyr yn gyffredinol, gan fod pwysigrwydd y deilliant hwn yn isel, ac roedd y lefel boddhad o safbwynt y deilliant hwn yn llawer agosach at gwrdd y lefel o bwysigrwydd. Fodd bynnag, mae’n bwysig nodi mai dyma flaenoriaeth uchaf yr ymatebwyr a nododd mai Cymraeg yw eu dewis iaith ac roedd negeseuon allweddol o’r sylwadau a dderbyniwyd o safbwynt y deilliant hwn wedi eu hollti, gyda chymaint o bobl yn nodi bod 'gormod o amser yn cael ei dreulio ac arian yn cael ei wario ar yr iaith Gymraeg' ag a oedd o bobl a awgrymodd ‘bod yr iaith Gymraeg yn bwysig ac y dylid ei hyrwyddo’. Cafodd 'Mae Bagloriaeth Cymru yn ddewisol ac yn fwy perthnasol' hefyd ei nodi fel mater pwysig i bobl ifanc.

9.14 Yn ymgynghoriad 'Y Wrecsam a Garem', gwnaed 23 o sylwadau am ddatblygu, cofleidio a hyrwyddo’r iaith Gymraeg, ei diwylliant a’i threftadaeth.

Thema allweddol Bywiog a'r Iaith Gymraeg 2 - Cefnogi twristiaeth

Pam mae hyn yn bwysig:

9.15 Mae twristiaeth yn cyffwrdd â llawer o feysydd y mae'r sector cyhoeddus yn gyfrifol amdanynt a gyda diddordeb ynddynt, gan gynnwys hyfforddiant sgiliau a chyflogaeth, cynllunio, adfywio, treftadaeth a diwylliant; mae hefyd o fudd i sawl sector arall o'r economi, gan gynnwys cludiant, manwerthu ac amaethyddiaeth.

9.16 Nid yw twristiaeth ar gyfer ymwelwyr yn unig chwaith. Mae iechyd a lles ein preswylwyr yn cael budd o fynediad i safleoedd treftadaeth a diwylliant sy’n ffynnu, amgylchedd naturiol a reolir yn dda, a mynediad at gyfleoedd antur a gweithgareddau ar garreg eu drws.

9.17 Yn gyffredinol, mae busnesau twristiaeth yn weithrediadau bach yn bennaf, llawer ohonynt yn cael eu rhedeg gan deulu, ac yn aml wedi’u gwreiddio'n ddwfn yn y gymuned. Yn ogystal, mae cysylltiadau cadwyn gyflenwi twristiaeth yn dod â manteision i lawer o fusnesau bach, lleol. Incwm o dwristiaeth yn aml yw'r gwahaniaeth rhwng llwyddiant a methiant i lawer o fusnesau micro.

9.18 Mae twristiaeth yn ddiwydiant byd-eang ac yn hynod gystadleuol. Mae strategaeth Dwristiaeth Llywodraeth Cymru i Gymru, ‘Partneriaeth ar gyfer Twf’ 2013-20, yn nodi bod angen i weithgareddau ganolbwyntio ar:

- fwy o westai moethus, sy’n frand
- mwy o gyfleusterau lles, fel sba
- mwy o westai treftadaeth sy'n defnyddio adeiladau hanesyddol ac unigryw

- mwy o atyniadau, gweithgareddau a phrofiadau diwylliannol drwy gydol y flwyddyn
- mwy o gynnyrch arloesol, anarferol a nodedig.

9.19 Gall tirwedd leol ddarparu cyswllt pwysig â'n hymdeimlad o falchder cenedlaethol, diwylliant a hunaniaeth leol. Mae coetiroedd a choed yn darparu amrywiaeth o fanteision i les. Maent yn helpu i reoleiddio ein hinsawdd, yn darparu incwm a swyddi o goed a gweithgareddau eraill, yn storio carbon; yn cyfrannu at leihau llifogydd a risg llif afon isel; yn diogelu priddoedd; yn gwella ansawdd yr aer; yn lleihau sŵn; ac yn rheoleiddio plâu a chlefydau. Maent yn chwarae rhan bwysig wrth beillio, ffurfio pridd, cylch maetholion, cylch dŵr a chynhyrchu ocsigen, sydd i gyd yn hanfodol wrth gefnogi lles.

Beth ydym yn ei wybod:

9.20 Mae Cynllun Rheoli Cyrchfan y Fwrdeistref Sirol yn nodi twristiaeth fel sector pwysig i Wrecsam - gyda Traphont Ddŵr Pontcysyllte a'i statws Treftadaeth y Byd yn cael ei hystyried fel ased pwysig ar gyfer y dyfodol. Mae safleoedd treftadaeth eraill yn cynnwys Neuadd Erddig, Castell y Waun, coed ywen San Silyn ac Owrtyn (dau o'r saith rhyfeddod yng Nghymru) a safleoedd treftadaeth diwydiannol megis Chwarel y Mwynglawdd, Brymbo, Ymddiriedolaeth Tramffordd y Glyn ac adnoddau Amgueddfa ac Archif Bwrdeistref Sirol Wrecsam.

9.21 Mae'r ardal hefyd yn cynnwys tirweddau rhagorol yn Nyffryn Ceiriog, Mynyddoedd y Berwyn, Bryniau Clwyd ac Afon Dyfrdwy a Gororau Dyffryn Dyfrdwy, ac mae'n cynnig gweithgareddau cerdded ac awyr agored megis Llwybr Cenedlaethol Llwybr Clawdd Offa. Mae ei agosrwydd at Gaer a threfi deniadol eraill fel Llangollen, yr Amwythig a Chroesoswallt, a'i rôl bosibl fel porth i gefn gwlad dramatig Gogledd Cymru a threftadaeth Cymru, yn darparu cyfleoedd o dwristiaeth sy’n gorgyffwrdd i dwristiaid, gydag ardaloedd cyfagos.

9.22 Fe wnaeth yr ardal ddarparu bron i 400,000 o arosiadau dros nos yn 2015. Amcangyfrifir bod twristiaeth wedi cyflwyno cyfanswm o tua £11.9 miliwn i'r economi leol yn 2015. Amcangyfrifir y bydd y Fwrdeistref Sirol wedi denu dros 1.86 miliwn o ymwelwyr yn 2015, sy'n cynnwys 1.46 miliwn o ymwelwyr dydd a 0.4 miliwn o bobl sy'n aros dros nos gydag un o'r darparwyr llety yn yr ardal. Mae'r arian a werir gan yr ymwelwyr hyn yn helpu i gefnogi bron i 1,650 o swyddi i gyd, sy’n 3% o'r holl gyflogaeth yn yr ardal.

9.23 Mae’r sectorau cyflogaeth / busnes a gefnogir gan y diwydiant twristiaeth yn Wrecsam yn cynnwys y sectorau atyniadau ymwelwyr, hamdden, llety, manwerthu a bwyd, yn ogystal â nifer fawr o fusnesau bach lleol fel crefftwyr, cyfanwerthwyr a gwasanaethau cefnogi sy'n darparu gwasanaethau a nwyddau i’r rhai sy'n ymwneud yn uniongyrchol â thwristiaeth.

9.24 Yn y blynyddoedd diwethaf mae wedi gweld cynnydd cyson yn nifer yr ymwelwyr â'r ardal, yn arbennig ymwelwyr dydd. Mae nifer y bobl a gyflogir yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol hefyd wedi cynyddu (o 1,500 o swyddi cyfwerth ag amser llawn yn 2004 i 1,650 yn 2015). Mae cyfraniad at yr economi leol wedi cynyddu o £6.6 miliwn i £11.9 miliwn yn yr un cyfnod.

9.25 Mae'r newidiadau i'r economi genedlaethol a rhyngwladol, wedi'u cyfuno ag effeithiau ofn gweithgarwch terfysgol a gwrthdaro ar deithio rhyngwladol, wedi cael effaith gadarnhaol ar y farchnad dwristiaeth leol, wrth i'r 'gwyliau gartref' ddod yn fwy poblogaidd.

9.26 Er ei fod yn perfformio'n dda ar hyn o bryd, mae'r diwydiant twristiaeth lleol yn fregus. Mae'r rhan fwyaf o'r atyniadau'n ddibynnol ar y tywydd ac mae'r diwydiant yn cynnwys nifer fawr o fusnesau bach yn bennaf, gyda gwydnwch cyfyngedig i sioc economaidd. Gallai'r diwydiant ymdopi o bosibl gyda thymor haf gwael fel digwyddiad un-tro, ond gallai hafau gwael dilynol yn hawdd niweidio'r sector pwysig hwn. Mae'r bygythiad o ddifrod oherwydd llifogydd i isadeiledd a'r amgylchedd naturiol hefyd yn bryder.

Beth rydych wedi'i ddweud wrthym:

9.27 Yn yr ymgynghoriad 'Beth sy'n bwysig i chi?', cafodd 'Atynnu twristiaid ac ymwelwyr' ei raddio fel blaenoriaeth is gan ymatebwyr, gan fod pwysigrwydd y deilliant hwn yn isel, ac roedd y lefel boddhad yn agosach at gwrdd y lefel o bwysigrwydd. Fodd bynnag roedd negeseuon allweddol o'r sylwadau a dderbyniwyd o safbwynt y deilliant hwn yn awgrymu bod rhai pobl yn teimlo 'y gellid gwneud mwy i atynnu ymwelwyr i'r ardal' ac 'mae angen i ni wneud mwy o dreftadaeth ac atyniadau twristaidd Wrecsam a chynnal mwy o ddigwyddiadau'.

9.28 Yn ymgynghoriad 'Y Wrecsam a Garwn', gwnaed 17 o sylwadau yn datgan y dylid hyrwyddo'r dref a'r ardaloedd cyfagos yn well.

Thema allweddol Bywiog a'r laith Gymraeg 3 - Diwylliant sy'n ffynnu

Pam mae hyn yn bwysig:

9.29 Mewn adroddiad yn 2014, dywedodd Cyngor Celfyddydau Lloegr: "..mae celf a diwylliant yn gwneud bywyd yn well, yn helpu i adeiladu cymunedau amrywiol a gwella ansawdd ein bywyd. Gall celf a diwylliant gwych ysbrydoli ein system addysg, rhoi hwb i'n heconomi a rhoi statws rhyngwladol i'n cenedl."

9.30 Mae'r adroddiad yn nodi rhai o'r effeithiau cadarnhaol y mae mynediad at ddigwyddiadau celfyddydol a diwylliannol, a chyfranogi ynddynt, yn ei gael ar:

- Les yr unigolyn – roedd y rhai a oedd wedi mynd i le neu ddigwyddiad diwylliannol yn y 12 mis blaenorol bron i 60 y cant yn fwy tebygol o adrodd iechyd da, o'i gymharu â'r rhai nad oedd wedi gwneud hynny, ac roedd

mynychwyr theatr yn bron i 25 y cant yn fwy tebygol o ddweud eu bod mewn iechyd da; mae ymchwil wedi dangos bod ymgysylltu'n aml â chelfyddydau a diwylliant yn gysylltiedig yn gyffredinol â lefel uwch o les gorddrychol; mae ymgysylltu â'r celfyddydau a'r diwylliant strwythuredig yn gwella galluoedd gwybyddol plant a phobl ifanc; mae nifer o astudiaethau wedi adrodd canfyddiadau celfyddydau cymhwysol ac ymyriadau diwylliannol, ac wedi mesur eu heffaith gadarnhaol ar gyflyrau iechyd penodol sy'n cynnwys dementia, iselder a chlefyd Parkinson; mae defnyddio celf, pan gaiff ei chyflawni'n effeithiol, â'r grym i hwyluso rhyngweithio cymdeithasol yn ogystal â galluogi'r rhai sy'n derbyn gofal cymdeithasol i ddilyn diddordebau creadigol. Mae'r adolygiad yn tynnu sylw at fanteision dawnsio er mwyn lleihau unigrwydd a lleddfu iselder a phryder ymhlith pobl mewn amgylcheddau gofal cymdeithasol.

- Lles cymunedol - mae tystiolaeth gref y gall cymryd rhan yn y celfyddydau gyfrannu at gydlyniant cymunedol, lleihau allgáu cymdeithasol ac unigrwydd, a / neu wneud i gymunedau deimlo'n fwy diogel a chryfach; mae gwirfoddolwyr diwylliant a chwaraeon yn fwy tebygol na'r cyfartaledd i gymryd rhan a bod yn ddylanwadol yn eu cymunedau lleol; mae myfyrwyr ysgol uwchradd sy'n ymgysylltu â'r celfyddydau yn yr ysgol, ddwywaith yn fwy tebygol o wirfoddoli o'i gymharu â'r rhai nad ydynt yn cymryd rhan yn y celfyddydau, ac 20 y cant yn fwy tebygol o bleidleisio'n oedolion ifanc; mae cyflogadwyedd myfyrwyr sy'n astudio pynciau celfyddydol yn uwch, ac maent yn fwy tebygol o aros mewn cyflogaeth.

- Addysg – mae cymryd rhan mewn gweithgareddau drama a llyfrgell yn gwella cyrhaeddiad mewn llythrennedd; mae cymryd rhan mewn gweithgareddau cerddorol strwythuredig yn gwella cyrhaeddiad mewn mathemateg, caffael iaith yn gynnar a llythrennedd cynnar; mae ysgolion sy'n integreiddio celfyddydau ar draws y cwricwlwm yn yr Unol Daleithiau wedi dangos sgoriau darllen a mathemateg sydd ar gyfartaledd yn gyson uwch, o gymharu ag ysgolion tebyg nad ydynt yn gwneud hynny.

- Yr economi - gall y celfyddydau a diwylliant hybu economïau lleol drwy ddenu ymwelwyr; creu swyddi a datblygu sgiliau; denu a chadw busnesau; adfywio lleoedd; a datblygu talent; fe wnaeth busnesau yn niwydiant celfyddydau a diwylliant y DU gynhyrchu trosiant wedi cronni o £12.4 biliwn yn 2011; am bob £1 o gyflog a delir gan y diwydiant celfyddydau a diwylliant, mae £2.01 ychwanegol yn cael ei gynhyrchu yn yr economi ehangach trwy effeithiau lluosydd anuniongyrchol ac anwythol.

9.31 Mae effaith diwylliant ar les yn cael ei amlygu gan Brif Arholwr Meddygol Cymru yn ei adroddiad blynyddol. Mae rhagnodi cymdeithasol yn ddull iechyd a lles anfeddygol sy'n ehangu ar yr ystod o opsiynau sydd ar gael i glinigwyr gofal sylfaenol a chleifion i wella ymddygiad bywyd iach, er enghraifft, gwasanaethau fel corau, garddio a chlybiau cerdded, cyngor ar ddyledion, rhwydweithiau gwirfoddoli a chyfeillio. Gall y dull rhagnodi cymdeithasol wella hunan-barch, hwyliau a hunan-effeithiolrwydd, cyswllt cymdeithasol a datblygiad sgiliau trosglwyddadwy i helpu'r gwaith o reoli cyflyrau cronig. Gall y galw am wasanaethau iechyd leihau os nad y model gofal meddygol yw'r ateb mwyaf effeithiol.

<u>Beth ydym yn ei wybod:</u>

9.32 Mae'r sector celfyddydau, adloniant, hamdden yn cyflogi tua 2,450 o bobl yn Wrecsam. Mae hyn yn cynrychioli tua 4.3% o'r holl gyflogaeth yn yr ardal a thua cyfartaledd Cymru a Phrydain Fawr.

Beth rydych wedi'i ddweud wrthym:

9.33 Yn ymgynghoriad 'Y Wrecsam a Garem', dywedodd nifer fawr o ymatebwyr mai eu dyhead oedd cael mwy o bethau i'w gwneud; ac yn benodol, ar gyfer plant a phobl ifanc. Cafodd nifer o welliannau eu hawgrymu mewn perthynas â'r thema hon, yn cynnwys: cael mwy o gyfleusterau a gweithgareddau ar gyfer plant a phobl ifanc; cael mwy o gyfleusterau diwylliannol gan gynnwys llyfrgelloedd, amgueddfeydd a chelfyddydau; cynnal mwy o wyliau stryd; annog a chefnogi digwyddiadau lleol mawr fel cyngherddau.

9.34 Gofynnwyd i ymatebwyr nodi beth roeddent yn meddwl a fyddai'n rhwystro'r dyhead hwn rhag cael ei gyflawni. Y rhwystrau allweddol canfyddedig oedd: nid oes digon o arian i ddarparu mwy; mae rhai aelodau o'r cyhoedd ag agweddau negyddol o gwmpas newid / pethau newydd; ac nid yn buddsoddi mewn gweithgareddau i blant a phobl ifanc.

9.35 Gofynnwyd i'r ymatebwyr hefyd am eu barn ar beth y mae'r sector cyhoeddus a sefydliadau eraill angen ei wneud i wireddu'r dyhead hwn. Roedd atebion a nodwyd yn cynnwys: yn cadw cyfleusterau megis llyfrgelloedd a chlybiau ieuenctid yn agored; sefydliadau cyhoeddus yn cefnogi celf a diwylliant; defnyddio cyfleusterau presennol i gynnal gweithgareddau a sicrhau bod y rhain yn cael eu hysbysebu'n dda; a lobïo'r Llywodraeth am fwy o gyllid.

9.36 Gofynnwyd i'r ymatebwyr hefyd beth allai'r gymuned a hwythau ei wneud i wireddu'r dyhead hwn. Teimlai llawer o ymatebwyr y dylai pobl wirfoddoli mwy ac y gallent hefyd godi arian, cyfrannu mwy a thalu mwy o dreth y Cyngor i sicrhau y gallai gweithgareddau ddigwydd. Roedd ymatebwyr yn teimlo y dylai pobl gefnogi gweithgareddau cymunedol yn well, a dylai fod agwedd fwy cadarnhaol tuag at weithgareddau a digwyddiadau newydd a gynhelir.

9.37 Yn ogystal, yn ymgynghoriad 'Y Wrecsam a Garem', gwnaed nifer o sylwadau yn nodi y dylai treftadaeth ac adeiladau lleol gael eu cadw.

10 Nod lles 7 – Yn gyfrifol yn fyd-eang

Cyflwyniad i'r nod hwn

10.1 Mae bod yn fyd-eang gyfrifol yn golygu cael cenedl sydd, wrth wneud unrhyw beth i wella lles economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, yn ystyried a fyddai gwneud y fath beth yn gwneud cyfraniad cadarnhaol i les byd-eang.

10.2 Nodwch fod hon yn nod sy'n arbennig o drawsbynciol ac felly mae gwybodaeth mewn perthynas â'r nod hwn hefyd yn cael ei drin o dan sawl nod arall yn yr Asesiad hwn.

Thema Allweddol Yn gyfrifol yn fyd-eang 1 - Hyrwyddo ailgylchu a lleihau gwastraff

Pam mae hyn yn bwysig:

10.3 Mae rheoli gwastraff yn arf pwysig wrth geisio lleihau ein hôl-troed ecolegol. I fyw mewn Cymru fwy cynaliadwy lle mae gennym ddigon o adnoddau, am bris fforddiadwy, i gynnal ein heconomi a'n ffordd o fyw, bydd angen i ni leihau faint o adnoddau'r byd rydym yn eu defnyddio. Amcangyfrifir bod gwastraff yn gyfrifol am tua 15% o ôl-troed ecolegol y Wlad.

10.4 Yn ogystal â helpu i arbed adnoddau gwerthfawr, mae ailgylchu, ailddefnyddio ac yn benodol, compostio ein gwastraff, yn helpu i leihau'r methan a gynhyrchir ac allyriadau eraill o sbwriel bioddiraddadwy pydradwy. Mae gwastraff yn cyfrannu tua 4.7% o allyriadau nwyon tŷ gwydr uniongyrchol yng Nghymru, sy'n cael effaith fawr ar newid yn yr hinsawdd.

10.5 Mae'r elusen amgylcheddol, WRAP (Rhaglen Gweithredu Gwastraff ac Adnoddau) wedi nodi pedwar rhwystr mawr y mae angen eu goresgyn er mwyn gwella cyfraddau ailgylchu a lleihau gwastraff gweddilliol. Er bod rhywfaint o hyn yn ymwneud â gwella'r gwasanaethau a ddarperir gan y sector cyhoeddus, mae'r heriau mawr o gwmpas newidiadau ymddygiad ac agwedd yn ein cymunedau.

10.6 Mae lleihau gwastraff yn sbardun gwleidyddol allweddol gan Lywodraeth Cymru a gyhoeddodd eu strategaeth 'Dyfodol Diwastraff' ym mis Mehefin 2010, gyda'r bwriad o gynyddu ailgylchu i 70% erbyn 2025, ac yn anelu'n uchelgeisiol at gael Cymru'n genedl 'dim gwastraff' erbyn 2050. Bydd 'dim gwastraff' yn cael ei gyflawni drwy ddileu gwastraff gweddilliol ac ailddefnyddio neu ailgylchu'r holl wastraff a gynhyrchir.

Beth ydym yn ei wybod:

10.7 Mae tua 80,000 tunnell o wastraff trefol yn cael ei gynhyrchu yn Wrecsam bob blwyddyn. Cafodd 56.4% o wastraff ei ailddefnyddio, ei gompostio neu ei ailgylchu yn 2014/15. Mae'r gyfradd hon ychydig yn uwch na ffigur Cymru gyfan, sef 56.2%. Ar hyn o bryd, mae Wrecsam yn ddegfed uchaf o ran cyfraddau ailgylchu ymhlith y 22 awdurdod yng Nghymru.

10.8 Mae Wrecsam yn darparu ailgylchu ymyl y ffordd ar gyfer 62,000 o gartrefi (100% o'r holl aelwydydd) ac yn casglu plastig cymysg, cardbord, papur, caniau / tuniau, ffoil glân, erosolau, tecstilau a gwydr bob wythnos, ac wedi cyflwyno casgliad gwastraff bwyd wythnosol i bob eiddo (ac eithrio fflatiau). Mae gwastraff gardd a gwastraff gweddilliol yn cael eu casglu bob pythefnos. Mae'r Cyngor hefyd yn darparu tair canolfan ailgylchu gwastraff y cartref, sy'n darparu cyfleusterau ailgylchu ar gyfer amrywiaeth o eitemau eraill yn cynnwys batris, cartonau cwyr, dodrefn a bric-a-brac, gwastraff peryglus, olew, offer trydanol a rwbel adeiladu.

10.9 Mae cyfraddau ailddefnyddio/ailgylchu/compostio wedi gwella ers 2004/05, pan oeddent tua 14% yn Wrecsam. Mae angen buddsoddiad sylweddol o hyd i gyrraedd y targed Ewropeaidd o 70% erbyn 2025.

10.10 Rhwng 2004/05 a 2014/15, mae cyfaint blynyddol gwastraff dinesig wedi gostwng tua 12,000 tunnell fetrig yn Wrecsam (-12%). Y cyfartaledd ar gyfer Cymru gyfan oedd -20% yn yr un cyfnod.

Beth rydych wedi'i ddweud wrthym:

10.11 Yn yr ymgynghoriad ‘Beth sy'n bwysig i chi?’, nodwyd ‘Annog ailddefnyddio, ailgylchu neu gompostio mwy o wastraff’ fel blaenoriaeth isel, gan fod y lefel o foddhad o safbwynt y deilliant hwn yn llawer agosach at gwrdd y lefel o bwysigrwydd. Fodd bynnag, mae’n bwysig nodi bod negeseuon allweddol o’r sylwadau a dderbyniwyd o safbwynt y deilliant hwn yn awgrymu bod rhai pobl yn credu y gellid gwneud gwelliannau fel ‘cael mwy o wybodaeth am ailgylchu’, 'cynyddu’r amrywiaeth o ddeunyddiau a ailgylchir' a ‘chael cynwysyddion ailgylchu mwy cadarn’.

10.12 Yn yr ymgynghoriad 'Y Wrecsam a Garwn', gwnaed 18 o sylwadau yn datgan y dylid cael gwell cyfleoedd ailgylchu a rheoli gwastraff.

Thema Allweddol Yn gyfrifol yn fyd-eang 2 – Ynni tai a chludiant ac allyriadau carbon mewn cludiant a tai

Pam bod hyn yn bwysig:

10.13 Bydd tai â safon inswleiddio uchel a systemau gwresogi effeithlon yn lleihau defnydd ynni ac yn arwain at lai o allyriadau nwyon tŷ gwydr. Bydd adeiladau newydd ar safleoedd tir llwyd ac ar safleoedd sy’n agos at ganolfannau cyflogaeth yn lleihau cymryd tir ac yn helpu lleihau teithio i weithio mewn ceir.

10.14 Gallai adeiladau newydd a phrosiectau adnewyddu sylweddol ddarparu cyfleoedd ar gyfer defnyddio prosesau naturiol ar gyfer draenio, defnyddio deunyddiau adeiladu cynaliadwy, gwella rheoli gwastraff, gwella bioamrywiaeth ac uchafu'r defnydd o ynni goddefol.

10.15 Ar hyn o bryd mae cludiant yn gyfrifol am tua 30% o allyriadau carbon y Deyrnas Unedig. Mae potensial sylweddol i gyrff sector cyhoeddus gynorthwyo i leihau allyriadau carbon trwy systemau a seilwaith cludiant wedi'i hariannu gan awdurdodau lleol, a chynllunio teithio y gall yr holl sefydliadau sector cyhoeddus ei wneud. Mae hybu cerbydau glanach yn ein fflyd cerbydau ein hunain a hwyluso darpariaeth pwyntiau tanwydd amgen (er enghraifft, mannau gwefru ceir trydan) o fewn gallu sefydliadau'r sector cyhoeddus.

Yr hyn rydym ni'n ei wybod:

10.16 Mae effeithiau amgylcheddol newid yn yr hinsawdd, cost gynyddol trydan a thanwyddau ffosil, cosbau a thargedau'r Llywodraeth ar gyfer allyriadau carbon a faint o wastraff sy'n mynd i'n safleoedd tirlenwi, yn golygu bod cyfrifoldeb am yr amgylchedd yn flaenoriaeth ar gyfer sut rydym yn byw.

10.17 Bydd angen i ni gydweithio i ddod yn lle carbon isel, gwastraff isel, amgylcheddol gyfrifol. Bydd hyn yn golygu ein bod yn manteisio hyd yr eithaf ar effeithlonrwydd ynni, yn defnyddio ynni adnewyddol, ac yn cynyddu cyfraddau ailgylchu lle bynnag y bo'n bosibl ar draws y Fwrdeistref Sirol. Bydd lleihau ein hallyriadau carbon a defnydd o ynni'n helpu i reolau costau ar gyfer aelwydydd, busnesau a'r sector cyhoeddus.

10.18 Ochr yn ochr â buddsoddiad effeithlonrwydd ynni yng nghartrefi Cyngor Wrecsam ei hun drwy Safon Ansawdd Tai Cymru, bu buddsoddiad sylweddol drwy gynlluniau fel Arbed, Ymgyrch Cartrefi Cynnes, i fynd i'r afael â lefelau tlodi tanwydd ar draws y Fwrdeistref Sirol. Mae buddsoddiad mewn goleuadau stryd LED newydd ar lefel gymunedol ar draws y Fwrdeistref Sirol, a fydd yn ddull mwy effeithiol ac effeithlon o oleuo ein strydoedd, gan arbed arian a gwella diogelwch cymunedol.

10.19 Dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, mae Wrecsam wedi arwain y ffordd mewn ynni adnewyddadwy. O ymchwil ar flaen y gad dan arweiniad Prifysgol Glyndŵr, Cyngor Wrecsam yn gosod paneli solar ar fwy na 3,000 o gartrefi, adeiladu fferm solar fawr, annog datblygiadau fel y swyddfeydd Moneypenny newydd i fod yn gynaliadwy. Bydd y Cynllun Datblygu Lleol sydd ar y gweill yn nodi'r fframwaith ar gyfer adeiladu cymunedau sy'n ffynnu, sy'n lleihau ein gofynion ynni ac yn gwireddu cyfleoedd cynhyrchu incwm newydd drwy dariffau bwydo i mewn a chymhellion gwres adnewyddadwy.

10.20 Ers 2014, mae Cyngor Wrecsam wedi bod yn datblygu cynllun symudedd trefol cynaliadwy cyntaf Cymru, o'r enw Cyswllt Wrecsam. Gan weithio gyda phartneriaid sector cyhoeddus, mae'r cynllun hwn yn nodi'r darlun mawr ar gyfer atebion teithio y byddwn eu hangen ar draws Wrecsam a thu hwnt dros y deng mlynedd ar hugain nesaf.

10.21 Y sbardun y tu ôl i'n ffordd o feddwl yw sut ydym yn cynyddu dewisiadau teithio fel bod twf yn y dyfodol yn gynaliadwy. Mae Cyngor Wrecsam, Bwrdd Iechyd

Prifysgol Betsi Cadwaladr a Choleg Cambria wedi bod yn cydweithio i gynyddu lefelau rhannu car yn sylweddol ar draws Wrecsam. Maent yn bwriadu cynnwys busnesau, y trydydd sector a chymunedau lleol yn sydyn, i ffurfio'r camau nesaf ynghylch cynllunio teithiau wedi'u teilwra.

Yr hyn rydych chi wedi'i ddweud wrthym ni:

10.22 Yn yr ymgynghoriad 'Beth sy'n bwysig i chi?' roedd 'bod yn sir werdd gydag ôl troed carbon bychan' yn flaenoriaeth isel gan fod pwysigrwydd y deilliant yn isel, a'r lefel boddhad o ran y deilliant hwn yn agosach at fodloni'r lefel pwysigrwydd.

11. Beth mae’r gymuned yn ei feddwl o wasanaethau cyhoeddus

Pum ffordd o weithio

11.1 Mae Deddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol yn amlinellu pum ffordd o weithio i sefydliadau gwasanaethau cyhoeddus. Yn ymgynghoriad 'Y Wrecsam a Garwn’, gofynnwyd i'r ymatebwyr hefyd nodi pa mor gryf yr oeddent yn cytuno bod partneriaid Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Wrecsam yn ymarfer pob un o'r pum ffordd o weithio a nodir yn y Ddeddf. Gofynnwyd iddynt sgorio pob ffordd o weithio ar raddfa o 1 i 10, lle mae 1 = anghytuno'n gryf a 10 = cytuno'n gryf. Sylwer bod y ffyrdd o weithio o’r enw 'cydweithio' ac 'integreiddio' yn cael eu cyfuno i un ffordd o weithio i bwrpas yr arolwg, fel bod ymatebwyr yn gallu sgorio’r ffyrdd tebyg yma o gydweithio.

11.2 Fel y dangosir yn y graff isod, mae'r canlyniadau'n dangos bod ymatebwyr yn teimlo bod gan bartneriaid Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Wrecsam lawer i'w wneud eto i gyflawni pob un o'r pum ffordd o weithio. Ystyriwyd mai 'Atal' oedd y dull gweithio yr oedd partneriaid Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Wrecsam bellaf i ffwrdd oddi wrth ei gyflawni (sgôr 3.65), gydag 'Integreiddio a Chydweithio’n' ffordd o weithio yr ystyrir iddynt fod agosaf at ei chyflawni (sgôr 4.08). Fodd bynnag, cafodd y ffordd hon o weithio sgôr gytundeb isel o hyd ar y cyfan.

Pa mor gryf ydych chi'n cytuno bod Partneriaid Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Wrecsam yn...



Arolwg Cenedlaethol Cymru

11.3 Mae Arolwg Cenedlaethol Cymru diweddaraf yn dangos bod 45.9% o drigolion yn cytuno neu'n cytuno'n gryf bod Cyngor Wrecsam yn darparu gwasanaethau o ansawdd. Roedd hyn yn llawer is na'r cyfartaledd Cymreig o 59.3% ac yn gwneud Wrecsam yn 18fed yn unig allan o 22 awdurdod lleol Cymru.

11.4 Fodd bynnag, mae dadansoddiad Llywodraeth Cymru ei hun o ganlyniadau'r arolwg hwn yn awgrymu bod y rhan fwyaf o'r amrywiad yn y cyfraddau boddhad oherwydd nodweddion unigol, agweddau a phrofiadau ymatebwyr (98% o'r amrywiad), yn hytrach nag oherwydd yr ardal maent yn byw ynddi (2%). Mae hyn yn golygu y bydd cyfansoddiad cymdeithasol poblogaeth Wrecsam yn effeithio ar gyfradd ymateb yn wahanol nag mewn ardaloedd cyfagos, ac efallai na fydd y bwlch rhwng lefelau bodlonrwydd mor fawr ag yr awgrymir gan y canlyniadau sylfaenol.

11.5 Ers 2012/13, mae'r ffigurau diweddaraf ar gyfer awdurdodau lleol yn dangos gostyngiad i Wrecsam yn y rhai sy'n cytuno bod yr awdurdod lleol yn darparu gwasanaethau o ansawdd uchel, gostyngiad yn y rhai sy'n cytuno bod yr awdurdod lleol yn dda am roi gwybod i bobl sut mae'n perfformio, a gostyngiad yn y rhai oedd yn teimlo eu bod yn dylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio ar eu hardal leol. Mae’r Arolwg Cenedlaethol hefyd yn awgrymu bod angen i'r Cyngor wella ei strategaethau cyfathrebu ac ymgysylltu.

11.6 Mae gwasanaethau unigol y Cyngor yn cynnal arolygon bodlonrwydd cwsmeriaid yn rheolaidd, ac yn gwella dadansoddiad o gwynion er mwyn iddynt allu parhau i roi gwell gwasanaethau a roddir gan yr awdurdod, a bod yn fwy ymatebol.

11.7 Gyda sgôr o 6.5 allan o 10, mae gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr foddhad sydd ychydig yn uwch na’r cyfartaledd gyda'r gwasanaeth iechyd na chyfartaledd Cymru (6.3). Fodd bynnag, mae'r Arolwg Cenedlaethol hefyd yn dangos bod angen iddynt wella eu strategaethau cyfathrebu ac ymgysylltu yn ogystal.

11.8 Ers 2012/13, mae'r ffigurau diweddaraf ar gyfer Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn dangos: dim newid yn y sgôr boddhad cyffredinol, cynnydd yn y gyfran o ymatebwyr a oedd yn teimlo eu bod yn cael gwybod am berfformiad y gwasanaethau iechyd lleol, a gostyngiad yn y gyfran o ymatebwyr a deimlai y gallent ddylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio ar eu gwasanaethau iechyd lleol.

11.9 Yn gyffredinol, bu gwelliant mewn bodlonrwydd â gwasanaethau cyhoeddus, er gwaethaf cyfnod o ostyngiad yng nghyllid y sector cyhoeddus.

Gwrando a gweithredu ar farn y cyhoedd

11.10 Yn yr ymgynghoriad 'Y Wrecsam a Garem', dywedodd nifer fawr o ymatebwyr bod gwrando a gweithredu ar farn y cyhoedd yn ddyhead iddynt. Cafodd nifer o welliannau eu hawgrymu mewn perthynas â'r thema hon yn cynnwys: gwrando ar ddymuniadau ac anghenion pobl leol a chymryd i ystyriaeth les y Fwrdeistref Sirol gyfan.

11.11 Gofynnwyd i ymatebwyr nodi beth roeddent yn meddwl a fyddai'n rhwystro'r dyhead hwn rhag cael ei gyflawni. Canfuwyd rhwystrau allweddol i fod yn: gwasanaethau cyhoeddus a gweldyddion yn cael gormod o bŵer: nid yn darparu digon o gyfleoedd i bobl gael dweud eu dweud; nid yn gwrando ar yr hyn sydd gan bobl i'w ddweud, sy'n rhwystro pobl rhag cysylltu eto; anawsterau cyrraedd grwpiau nas clywir yn aml a chynrychiolwyr y grwpiau hyn; ac anawsterau ymgysylltu â phobl nad ydynt eisiau bod mewn cysylltiad.

11.12 Gofynnwyd i'r ymatebwyr hefyd am eu barn ar beth y mae'r sector cyhoeddus a sefydliadau eraill angen ei wneud i wireddu'r dyhead hwn. Roedd yr atebion a nodwyd yn cynnwys: ymestyn pwerau gwneud penderfyniadau y tu hwnt i Fwrdd Gweithredol y Cyngor; pleidiau gwleidyddol yn gweithio'n agosach gyda'i gilydd i fod o fudd i'r Sir yn ei chyfanrwydd; yn ymgysylltu'n fwy ac yn gwrando ac yn gweithredu ar farn pobl; cyllid ar gyfer mwy o swyddogion; lobïo Llywodraeth genedlaethol a dull cydgysylltiedig o ymgysylltu ar draws sefydliadau cyhoeddus.

11.13 Gofynnwyd i'r ymatebwyr hefyd beth allai'r gymuned a hwythau ei wneud i wireddu'r dyhead hwn. Teimlai llawer o ymatebwyr fod angen iddynt leisio eu barn ar bob cyfle, dylent bleidleisio yn yr etholiadau, bod yn fwy ymwybodol yn wleidyddol a dwyn Cynghorwyr i gyfrif. Tra roedd rhai ymatebwyr yn teimlo nad oedd unrhyw beth y gallent ei wneud i wneud gwahaniaeth.

Sylwadau cyffredinol eraill ar wasanaethau cyhoeddus o 'Y Wrecsam a Garem'

11.14 Roedd ychydig o sylwadau'n datgan bod angen mwy o fuddsoddiad mewn / ar draws gwasanaethau cyhoeddus, ychydig o sylwadau'n datgan y dylid cael gwasanaethau tân ac achub digonol ac ychydig o sylwadau'n nodi y dylid annog a chefnogi'r trydydd sector.

12. Beth rydym yn ei wybod neu’n rhagweld ar gyfer y dyfodol

12.1 Mae disgwyliadau a galwadau ar wasanaethau cyhoeddus yn parhau i gynyddu a disgwylir iddynt gynyddu yn y blynyddoedd nesaf. Mae’r boblogaeth yn parhau i dyfu, pobl yn byw'n hirach, ac mae disgwyl i wasanaethau allweddol gyflawni canlyniadau sy’n parhau i wella.

12.2 Disgwylir i ofal Iechyd wella fel nad yw datblygiadau meddygol yn gwneud i ni fyw’n hirach yn unig, ond hefyd yn ein galluogi i fyw bywydau iachach; disgwylir i ysgolion gyflwyno addysg well fel bod ein plant yn cael y dechrau gorau posibl mewn bywyd; mae’r galw am ofal cymdeithasol yn codi i bobl hŷn, ar gyfer gofal preswyl a chymunedol. Mae'r galw hefyd yn codi ymhlith y grŵp oedran 16-64, yn enwedig ar gyfer pobl ag anableddau dysgu ac anghenion iechyd meddwl; mae pobl eisiau mynediad at wasanaethau ar adegau sy'n addas i’w patrymau gwaith a bywydau teulu / cymdeithasol sy'n gynyddol gyfnewidiol.

12.3 Mae disgwyliadau o ansawdd ar draws pob gwasanaeth cyhoeddus yn codi. Ar yr un pryd, mae gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru yn wynebu pwysau ariannol ac adnoddau digynsail. Mae toriadau mewn gwariant yn y gorffennol wedi tueddu i fod yn rhai tymor byr. Mae mesurau darbodus bellach wedi bod ar waith ers 2010. Mae'r rhagamcanion gwariant mwyaf diweddar yn dangos bod polisïau darbodus y llywodraeth yn mynd i barhau i mewn i'r 2020au, a fydd yn golygu cyfnod o dros ddeng mlynedd o doriadau mewn gwariant cyhoeddus. Tu hwnt i hynny, mae'r sefyllfa yn ansicr ac yn dibynnu ar gyflwr yr economi a pholisïau treth a gwariant Llywodraethau DU yn y dyfodol, ac effeithiau Brexit ar gyllid cenedlaethol.

12.4 Bydd y pwysau yma’n dylanwadu ar farn pobl ar wasanaeth cyhoeddus, a bydd angen eu lliniaru. Gellid gwneud hyn drwy fesurau megis hyrwyddo hunanddibyniaeth ac annibyniaeth ymhlith preswylwyr; gwella cyd-gynhyrchu a chyflenwi cydgysylltiedig o wasanaethau a chefnogaeth; a newid modelau darparu yn y dyfodol, yn enwedig trwy gynnwys y cyhoedd wrth wneud penderfyniadau.

Ffynhonell Data

- Executive Director of Public Health Annual Report 2011
- Welsh Assembly Government (2010) Sexual health and well-being action plan for Wales 2010-2015. Welsh Assembly Government
- Low birth weight: review of risk factors and interventions, Public Health Wales, 2014
- NICE Guidance PH11 Improving the nutrition of pregnant and breastfeeding children in low income households (2008)
- Welsh Government (2012) Infant feeding survey
- Immunisation statistics 2015/16, NHS Wales Informatics Services - https://www.healthmapswales.wales.nhs.uk
- O'Connor TG, Heron J, Golding J, Beveridge M, Glover (2002) Maternal antenatal anxiety and behavioural problems in early childhood Brit J Psychiatry 180, 502-508
- Allen G (2011) Early intervention : The next steps. Available at http://www.dwp.gov.uk/docs/early-intervention-next-steps.pdf
- Public Health Wales (2016) Pregnancy and Childhood surveillance tool : Emergency admissions for injury
- Public Health Wales (2016) Pregnancy and Childhood surveillance tool : 5 year olds decayed, missing, filled teeth
- Flying Start summary statistics 2015/16, Welsh Government
- Public Health Wales (2015) Adverse Childhood Experiences and their impact on health-harming behaviours in the Welsh adult population
- What works to enhance inter-parental relationships and improve outcomes for children. University of Sussex: Early Intervention Foundation Harold, G., Acquah, D., Sellers, R. and Chowdry, H. (2016). Available at: http://www.eif.org.uk/publication/what-works-to-enhance-inter-parental-relationships-and-improve-outcomes-for-children-3/
- Building a Brighter Future: The Early Years and Childcare Plan, Welsh Government
- Political challenges relating to an ageing population: Key issues for the 2015 Parliament, Commons Library Research Paper, May 2015
- 10 things you need to know about dementia fact sheet, Alzheimer's Research UK
- Deaths registered in England and Wales (Series DR): 2015, ONS
- 2014 Alzheimer's Disease Facts and Figures, Alzheimer's Association (USA)
- Population projections (2014-based principal projection), Welsh Government
- Household projections (2014-based), Corporate Research and Information Unit, Wrexham Council
- The most recent source of UK data is Dementia UK: A report into the prevalence and cost of dementia prepared by the Personal Social Services Research Unit (PSSRU) at the London School of Economics and the Institute of Psychiatry at King's College London, for the Alzheimer's Society, 2007
- Matthews, FE et al. A two decade comparison of incidence of dementia in individuals aged 65 years and older from three geographical areas of England: results of the Cognitive Function Ageing Study I and II. Nature Communications; 19 April 2016
- Dementia stakeholder groups action plans 2011, Welsh Government; National dementia vision for Wales 2015, Welsh Government/Alzheimer's Society
- http://www.local.gov.uk/ageing-well/what-makes
- Valuing carers 2015; the rising values of carers' support, CareUK
- People aged 16 and over predicted to provide unpaid care, by age and hours of care provided, projected to 2035, http://www.daffodilcymru.org.uk
- Campaign to end loneliness, 2016
- Health and well-being consequences of social isolation in old age, National Institute for Health Research 2014
- Welsh Index of Multiple Deprivation 2014, Welsh Government; mid year population estimates, Office for National Statistics
- Windle, K, Francis, J, Coomber, C. Preventing loneliness and social isolation: interventions and outcomes, Social Care Institute for Excellence, 2011
- Combating loneliness: a guide for local authorities, Local Government Association 2012
- https://www.ncvo.org.uk/practical-support/public-services
- http://www.actionforhappiness.org/10-keys-to-happier-living
- http://www.nhs.uk/Livewell/volunteering/Pages/Whyvolunteer.aspx
- UK Civil Society Almanac 2016, National Council for Voluntary Organisations

- http://blogs.ncvo.org.uk/2014/05/29/top-seven-issues-facing-volunteering/
- https://www.ncvo.org.uk/about-us/media-centre/briefings/220-the-charity-sector-and-public-services
- Child and working tax credits statistics, HM Revenues & Customs
- Child Poverty Strategy for Wales, Welsh Government
- Measuring inequalities 2016: trends in mortality and life expectancy in wales, Public Health Wales
- 2015 mid-year population estimates, ONS; 2014-based sub national principal population projections, Welsh Government
- Welsh Health Survey, 2013-14
- British Crime Survey; Crime in England and Wales statistics year end 06/16, ONS
- Jones L, Bellis MA. 2014. Updating England-specific alcohol-attributable fractions. Liverpool: Public Health Institute, Liverpool John Moores University. http://www.cph.org. uk/publication/updating-england-specific-alcohol-attributable-fractions/ (accessed 24 August 2015).
- World Health Organization. 2014. Global status report on alcohol and health 2014. Geneva: World Health Organization. http://www.who.int/substance_abuse/publications/global_alcohol_report/en/
- ALCOHOL'S HARMS TO OTHERS, Public Health Institute (PHI), Faculty of Education, Health and Community, Liverpool John Moores University, September 2016
- Silent voices: supporting children and young people affected by parental alcohol misuse , Children's Commissioner for England, September 2012
- Griffiths LJ., Parsons TJ., Hill AJ., (2010) Self-esteem and quality of life in obese children and adolescents: a systematic review. Int J Pediatr Obese; 5(4):282-304; Xavier S, Mandal S. The psychosocial impacts of obesity in children and young people: A future health perspective. Public Health Medicine 2005;6(1):23-27
- Schwimmer J.B., Burwinkle T.M., Varni J.W., (2003) Health-related quality of life of severely obese children and adolescents. Journal of American Medical Association. Vol. 289 Nb 14
- Turning the curve on childhood obesity in Wales, Welsh Government 2015
- Child Measurement Programme for Wales report 2014-15, Public Health Wales
- Welsh Health Survey, 2013-14
- http://www.nhs.uk/conditions/Obesity/Pages/Introduction.aspx
- Climbing higher: creating an active Wales by the Welsh Government 2009
- Danner D D, Snowdon D A, Friesen W V (2001) Positive emotions in early life and longevity: findings from the nun study. Journal of Personality and Social Psychology, 80:804–813.
- Royal College of Psychiatrists Position statement PS4 (2010) No health without public mental health: the case for action. http://www.rcpsych.ac.uk/PDF/Position%20Statement%204%20website.pdf
- Royal College of Psychiatrists (2010) 'No health without public mental health, the case for action'. London: Royal College of Psychiatrists.
- Royal College of Psychiatrists (2010) 'No health without public mental health, the case for action'. London: Royal College of Psychiatrists.
- Joint commissioning panel for mental health (2013) 'Guidance for commissioning public mental health services'.
- Welsh Government (2012) 'Together for mental health: a strategy for mental health and well-being in Wales'.
- How common are mental health problems, Mind (2016) http://www.mind.org.uk/information-support/types-of-mental-health-problems/statistics-and-facts-about-mental-health/how-common-are-mental-health-problems/.
- Price, S., Weightman, A., Morgan, H., Mann, M. and Thomas, S. (2010) 'Suicide prevention: update of the summary of evidence'. Public Health Wales
- Betsi Cadwaladr University Health Board.
- How common are mental health problems, Mind (2016)
- http://www.who.int/whr/2007/overview/en/index1.html accessed 23/11/16
- http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/888/page/88287 accessed 23/11/16
- Radford, L., Corral, S., Bradley, C., Fisher, H., Bassett, C., Howat, N. and Collishaw, S. (2011) 'Child abuse and neglect in the UK today'. London: NSPCC
- Sidebotham, P., Brandon, M., Bailey, S., Belderson, P., Dodsworth, J., Garstang, J., Harrison, E., Retzer, A. and Sorensen, P. (2016) 'Pathways to harm, pathways to protection: a triennial analysis of serious case reviews 2011 to 2014'.
- Chapter 4 - Intimate Personal Violence and Partner Abuse, self completion module, Crime Survey for England and Wales 2012/13, ONS
- Walby, S. (2009) 'Costs of domestic violence per local area'. Trust for London
- The right to be safe strategy, Welsh Government, 2010

- Is Work Good For Your Health And Well-Being?, Department for Work and Pensions 2006
- Business register and employment survey, Office for National Statistics
- Annual population survey, Office for National Statistics
- Annual population survey, Office for National Statistics
- http://www.merseydeealliance.org.uk/
- Annual survey of hours and earnings, Office for National Statistics
- Chanfrreau J, Lloyd C, Byron C, Roberts R, Craig, D, De Foe D & McManus S (2013). Predicting
- well-being. Prepared by NatCen Social Research for the Department of Health. - www.natcen.ac.uk/media/205352/predictors-of-well-being.pdf
- National teacher assessment data collection, Welsh Government
- The link between pupil health and well-being and attainment, Public Health England 2014
- Science, Technology, Engineering and Mathematics (STEM) Guidance - Impact Assessment 2014, Welsh Government
- Achievement of 15-year-olds in Wales: PISA 2012 National Report, NFER 2013
- The Role of Skills from Worklessness to Sustainable Employment with Progression – UK Commission for Employment and Skills September 2011
- Annual Population Survey, Office for National Statistics
- https://www.gov.uk/government/collections/ukces-sector-insights-reports-2015
- UK business: activity, size and location, Office for National Statistics
- Annual population survey, Office for National Statistics
- Local Procurement: Making the most of small business, Centre for Local Economic Strategies, 2013
- Wrexham County Borough Destination Management Plan 2012 – 2017
- Partnership for Growth: the Welsh Government Strategy for Tourism 2013 – 2020
- STEAM report 2015, Global Tourism Solutions (UK) Ltd
- UK business: activity, size and location, Office for National Statistics
- What agriculture and horticulture mean to Britain, National Farmers Union
- STEAM report for Wrexham, 2015
- https://www.theguardian.com/education/ng-interactive/2016/may/23/university-league-tables-2017
- Press release Wrexham Glyndŵr University https://www.glyndwr.ac.uk/en/AboutGlyndwrUniversity/Newsandmediacentre/Newsarchive/PressReleases2016/employability/
- 2015-20 Strategic Framework, Wrexham Glyndŵr University https://www.Glyndŵr.ac.uk/en/AboutGlyndŵrUniversity/Governance/
- Public Sector Action Highlights: Climate Change Strategy for Wales, Welsh Government 2011
- UK greenhouse gas emissions quarterly official statistics: Q1 2016, Department of Energy and Climate Change
- Renewable electricity in Scotland, Wales, Northern Ireland and the regions of England in 2015, Department for Business, Energy & Industrial Strategy, 2016
- Provisional UK quarterly emissions official statistics Q1 2016, Department of Energy & Climate Change
- http://ukclimateprojections.metoffice.gov.uk/23673?emission=medium
- http://ukclimateprojections.metoffice.gov.uk/23674?emission=medium
- ”UK storms: Hammond says climate change 'clearly a factor'”, BBC News article, February 2014 http://www.bbc.co.uk/news/uk-politics-26213919
- Towards Zero Waste; One Wales: One Planet, Welsh Government
- Environment & Technical Services, Wrexham Council
- http://www.wrap.org.uk/content/barriers-recycling-home
- Council Tax, Wrexham CB & mid year population estimates, Office for National Statistics
- Joint Housing Land Availability Studies; Wrexham Council, Welsh Government, Planning Inspectorate
- House price index, Land Registry
- Chapter 5, Social Housing and Spatial Segregation ,The Future of Social Housing, Shelter, 2008,
- Dwelling estimates 2014/15, Welsh Government
- Centre for Sustainable Energy (2013) Tackling Fuel Poverty
- Fuel Poverty Strategy 2010, Welsh Government; The Production of Estimated Levels of Fuel Poverty in Wales: 2012-2016, Welsh Government
- A future demand-led fuel poverty scheme to succeed Welsh Government Warm Homes – Nest, Welsh Government consultation document, August 2016
- Annual report on fuel poverty statistics, Department of Energy & Climate Change
- Household estimates, Welsh Government

- Quarterly energy prices June 2016, Office for National Statistics
- Provisional UK quarterly emissions official statistics Q1 2016, Department of Energy & Climate Change
- Internet users 2016, Office for National Statistics
- Connected Nations 2015, OfCom
- Only the tip of the iceberg: fraud against older people, Age Concern UK, April 2015
- National Survey for Wales, Welsh Government
- Census of population 2011, Office for National Statistics
- Welsh language use survey 2013-15, National Survey for Wales, Welsh Government
- Pupil Level Annual School Census (PLASC), Welsh Government
- A living language: a language for living, Welsh language strategy 2012-17, Welsh Government'
- The value of arts and culture to people and society: an evidence review, Arts Council England, 2014 http://www.artscouncil.org.uk/sites/default/files/download-file/Value_arts_culture_evidence_review.pdf
- National Survey for Wales 2014/15, Welsh Government
- National Survey for Wales 2013/14, Welsh Government
- Institute for Fiscal Studies, July 2016